

Ffurflen Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022

Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Enw'r Swyddog Cyfrifol: Sarah Ostler

Dyddiad Cwblhau: 16/05/2022

Cynnwys

| | Tudalennau |
|---|------------|
| Cyflwyniad a Chyd-destun a Chefndir | 3-9 |
| Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori | 10-11 |
| Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg | 12-16 |
| | |
| Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd | |
| | |
| Y Cyflenwad o Ofal Plant | 17-29 |
| Anghenion Rhieni/Gofalwyr – y galw am ofal plant | 30-42 |
| Canlyniadau’r Ymgynghori â Rhanddeiliaid | 43-48 |
| Canlyniadau’r Ymgynghori â Phobl Ifanc | 49-51 |
| Canlyniadau’r Ysgolion a Choleg Merthyr Tudful | 52-56 |
| Canlyniadau’r Ymgynghori â Chyflogwyr | 57-61 |
| Dosbarthiad Daearyddol | 62-65 |
| Cynaliadwyedd | 66-75 |
| Dadansoddiad Trawsffiniol | 76- |
| COVID-19 | 77-81 |
| Y Boblogaeth a Demograffeg Allweddol | 82-100 |
| Yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a Chynlluniau Llesiant Lleol | 101-102 |
| Dadansoddiad o’r Bylchau | 103-109 |
| Crynodeb o’r Anghenion sydd heb eu Diwallu | 110-112 |
| Rhwysrau i’r Ddarpariaeth Gofal Plant | 113-118 |
| Addysg Feithrin am ddim, Dechrau’n Deg a Darpariaeth y Cynnig Gofal Plant | 119-120 |
| Datblygu a Hyfforddi’r Gweithlu | 121-125 |
| | |
| Cynllun Gweithredu’r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant | 126-139 |

1 Cyflwyniad a Chyd-destun

Gosododd Adran 22 o Ddeddf Gofal Plant 2006 ddyletswydd ar holl awdurdodau lleol Cymru i wneud y canlynol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill lleol (statudol, cymunedol a sector preifat), gweithwyr proffesiynol a darparwyr: sicrhau gofal plant digonol, hygyrch, o safon uchel ar gyfer plant 0-14 oed (a hyd at 18 oed yn achos plant ag anghenion dysgu ychwanegol) yn eu hardal leol, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, ar gyfer rhieni sy'n gweithio a rhieni/gofalwyr sy'n astudio neu'n hyfforddi ar gyfer cyflogaeth.

Mae'r rheoliadau a luniwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 26 o'r Ddeddf hefyd yn gofyn bod awdurdodau lleol yn ymgymryd ag Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (CSA) ar gyfer eu hardal. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r broses a'r cylch cynllunio, a'r gofynion ymgynghori a chyhoeddi, gan gynnwys manylion yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chrisialu yn yr asesiad cylchol (bob pum mlynedd).

O ganlyniad, mae dyletswydd statudol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i weithio gyda darparwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant a'r sectorau preifat, gwirfoddol, annibynnol ac a gynhelir i greu gofal plant cynaliadwy, hygyrch, fforddiadwy, o safon uchel a fydd yn diwallu anghenion pob rhiant a gofalwr. Yn y bôn, bydd yr awdurdod lleol yn cymharu'r galw a geir gan rieni am ofal plant yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn yn 2022 â gwybodaeth am argaeledd lleoedd gofal plant o'r fath yn awr ac mewn cynlluniau.

Mae Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 yn dilyn ymlaen o Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant blaenorol Merthyr Tudful yn 2017, y mae modd ei weld yn <https://www.merthyrfis.org/childcare-sufficiency-assessment/>. Ar ben hynny, fel yn achos Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017, rhaid i Asesiad 2022 lywio (a chynnwys) Cynllun Gweithredu cysylltiedig, gyda thystiolaeth o sut bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn (gweithio mewn partneriaeth i d)datblygu a gweithredu cyfres o argymhellion ac ymdrin ag unrhyw fylchau amlwg yn y ddarpariaeth – gofyniad sy'n cyfateb i Reoliad 3 o Ddeddf Gofal Plant 2006. Cyfarwyddyd Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016 yw y dylid cyhoeddi Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a Chynllun Gweithredu 2022 ar wefan yr awdurdod lleol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac y dylai hynny amlygu tystiolaeth o ymgynghori â rhanddeiliaid penodol, fel y nodwyd yn Atodlen 2 i'r ddogfen honno.

Yr un mor bwysig, mae Canllawiau Statudol Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2016 yn amlinellu bod gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru gwblhau a chyflwyno copi o dair dogfen i Weinidogion Cymru (ym mis Mehefin 2022), h.y.: i. dogfen Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant; ii. Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant, y mae'n rhaid iddo *'fanylu ar y camau gweithredu, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir er mwyn cynnal cryfderau ac ymdrin â gwendidau a nodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant'* a; iii. (yn dilyn yn 2023) rhaid i adroddiad cynnydd blynyddol fanylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir yng Nghynllun Gweithredu 2022, gan gynnwys unrhyw faterion neu

newidiadau pwysig sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn honno, a allai fod wedi effeithio neu ddylanwadu ar y farchnad gofal plant mewn unrhyw fodd – er enghraifft datblygiad tai newydd [arall].

Mae'r Canllawiau'n ymhelaethu ymhellach fel a ganlyn: *'Yn benodol, bydd angen i awdurdodau lleol gysylltu â[u] Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASG) i sicrhau'r darlun diweddaraf o'r cyflenwad o ofal plant a'r galw amdano'.*

Mae Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 yn crynhoi'r dyfarniad ynghylch digonolrwydd trwy ddefnyddio data ynghylch y galw am ofal plant – gan gynnwys mewn perthynas ag effeithiau parhaus pandemig COVID-19 – a faint o ofal plant sydd ar gael ym Merthyr Tudful yng ngwanwyn 2022 (h.y. y cyflenwad o fathau o ofal plant ffurfiol). Ar ben hynny, mae Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022, gan ddilyn Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016 ar gyfer awdurdodau lleol, hefyd yn nodi sut bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn parhau i roi sylw i: (a) anghenion rhieni yn eu hardal am y canlynol; (b) darpariaeth gofal plant lle mae elfen gofal plant credyd treth gwaith neu gredyd cynhwysol yn daladwy; (c) darpariaeth gofal plant lle mae gofal plant a gefnogir gan gyflogwr neu ofal plant di-dreth yn daladwy; (d) darpariaeth gofal plant ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd; (e) darpariaeth gofal plant sy'n cynnwys defnydd o'r Gymraeg; (f) darpariaeth gofal plant sy'n eu galluogi nhw/sy'n galluogi rhieni i gael mynediad i'w hawl addysg gynnar cyfnod sylfaen ac; (g) darpariaeth gofal plant sy'n eu galluogi nhw/sy'n galluogi rhieni i gael mynediad i'w hawl i dderbyn lleoedd gofal plant am ddim.

Ar ben Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016, ym mis Mawrth 2021, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau atodol i awdurdodau lleol ar gyfer proses eu Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn 2022. Roedd hyn yn rhoi cyfarwyddyd y byddai angen i awdurdodau lleol Cymru, yn eu hasesiad llawn yn 2022, adrodd am sut mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y cyflenwad o ofal plant, y galw am ofal plant, a chynaliadwyedd darparwyr gofal plant presennol, yn ogystal â sut rhoddir sylw i'r effeithiau hyn.

Mae'r ddogfen atodol hefyd yn nodi (yn bwysig) bod *Llywodraeth Cymru yn cydnabod, o ystyried amseriad yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn yn 2022, y gall rhieni barhau'n ansicr, pan gânt eu holi, ynghylch eu gofynion gofal plant i'r dyfodol, ac y gall fod angen i awdurdodau lleol ddod i rai casgliadau ar sail tueddiadau yn y galw ac ar sail yr wybodaeth orau sydd ar gael iddyn nhw ar y pryd. Mae awdurdodau lleol yn cael cyfle i bwysu a mesur eu Cynllun Gweithredu bob blwyddyn fel rhan o'u hadroddiad blynyddol ar gynnydd, a chydabyddir y gallai fod angen edrych eto ar rai o'r amcanion a gyflwynwyd yng Nghynllun Gweithredu 2022 yng ngoleuni gwybodaeth a datblygiadau pellach yng nghyswllt y feirws.*

Yng Nghymru a Lloegr, gwelwyd nifer o ddatblygiadau critigol, yn arbennig yn ystod y cyfnod Ebrill 2020-Chwefror 2022, *er enghraifft*, fel y tystiwyd mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan *Coram and Family Childcare* ym mis Gorffennaf 2021. Y datblygiadau hyn oedd bod:

- Y galw am oriau lle roedd rhieni'n talu wedi gostwng yn sylweddol, yn arbennig yn ystod y cyfnod clo cyntaf, a'u bod wedi aros yn sylweddol is na'r lefelau arferol, hyd yn oed wedi i'r cyfyngiadau newid ym mis Mehefin 2020, oherwydd y symudiad at weithio gartref a'r ffaith bod cyflogaeth rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid yn lleihau neu'n dod i ben dros dro (ar ffyrlo) neu'n barhaol (drwy ddiweithdra)
- Y galw am oriau *am dâl* wedi gostwng yn fwy na'r galw am oriau y gellid eu hawlio am ddim – er bod rhai ALLau hefyd yn sôn am ostyngiad yn y galw am oriau rhaglen Dechrau'n Deg a ariannwyd i blant 2-3 oed
- Er bod tystiolaeth mai cymharol ychydig o leoliadau oedd wedi cau'n barhaol oherwydd pandemig COVID-19¹ yn y cyfnod hwnnw gwnaeth rhai ALLau y sylw ei bod yn dal yn bwysig *aros i weld* beth fyddai'r effeithiau ariannol wedi i'r cymhorthion ariannol ddod i ben yn llwyr, ac i effeithiau tymor hwy'r pandemig gael eu gweld yn llawn
- Codwyd pryderon ynghylch dyfodol y sector gofal plant y tu allan i'r ysgol, o safbwynt effaith y gostyngiad yn y galw gan rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid oedd yn gweithio gartref, ac wrth i'r heriau cyflwyno barhau – h.y. cyflenwad llai
- **Elfen arwyddocaol oedd bod nifer fawr o awdurdodau lleol yn credu y gallai fod newidiadau parhaol i'r galw gan rieni, o ran darpariaeth gofal plant *ffurfiol*, ac felly o ran cynaliadwyedd eu darpariaeth blynnyddoedd cynnar a gofal plant yn lleol**

Roedd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn yn gyfle i bennu i ba raddau mae effeithiau COVID-19 yn wir wedi bod yn ffactor (lleol) ym mhob un o'r 11 ward sy'n rhan o ardal leol Merthyr Tudful – yn arbennig o safbwynt gostyngiad yn y galw am ofal plant ffurfiol (busnesau), ac yn arbennig oriau y *telir amdanynt* gan rieni. Un o'r cwestiynau allweddol a ofynnwyd oedd: *Os yw'r newid hwn yn un parhaol, a fydd marchnad blynnyddoedd cynnar a gofal plant Merthyr Tudful yn gallu addasu i'r newid hwn yn y galw a pharhau'n gynaliadwy?*

Mae Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 hefyd wedi bod yn gyfle i wneud y canlynol:

- Canfod barn rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid lleol ar y blynnyddoedd cynnar a gofal plant, yn arbennig mewn perthynas â(u) gofynion yn y dyfodol ac angen/anghenion penodedig. Mae'r uchelgais hon yn ymgorffori: (a) holl ardal yr awdurdod lleol, gan gymryd i ystyriaeth dueddiadau'r galw a'r cyflenwad (yn lleol) a; (b) nodi bylchau penodol (trwy fapio strwythuredig) ar gyfer grwpiau/teuluoedd arbennig ag amgylchiadau penodol, er mwyn sicrhau bod gofal plant digonol – i bob teulu – ar draws yr awdurdod lleol

¹ Roedd hyn yn wir yn achos ardal leol Merthyr Tudful hefyd – wedi'i alinio â gofal plant mewn lleoliadau.

- Helpu i sicrhau bod teuluoedd lleol yn gallu cael mynediad i ofal plant yn lleol sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu galluogi i wneud dewis go iawn ynghylch gwaith a'u **cyflogadwyedd**
- Canfod y cyflenwad a'r galw i'r dyfodol mewn perthynas â rhaglen Dechrau'n Deg Merthyr Tudful (oedd yn cefnogi 41% o'r boblogaeth 0-4 oed yn ardal yr awdurdod lleol yn 2017) – ac o ganlyniad **llywio'r trefniadau perthnasol ar gyfer comisiynu gofal plant i'r dyfodol**
- Canfod gofynion gofal plant rhieni, gofaluwr a gwarcheidwaid, o ran *faint, o ba fathau, ar ba adegau, ac ym mha ardaloedd lleol ym Merthyr Tudful*, a phennu unrhyw ofynion penodol eraill sydd gan y rhieni hynny, gan gynnwys mynediad at y tri math o leoedd addysg gynnar sy'n cael eu hariannu
- Pennu i ba raddau yr effeithiodd pandemig COVID-19 ar y canlynol: (a) y *cyflenwad* blynyddoedd cynnar a gofal plant (sy'n cyfateb i ardaloedd lleol penodol); (b) y galw am ofal plant ar safleoedd ac (o ganlyniad); (c) cynaliadwyedd darparwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant presennol
- Nodi a chynnwys mesurau yn y cynllun gweithredu i gryfhau, gwella a chynyddu'r ddarpariaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg
- Canfod i ba raddau mae nanis a darparwyr gofal plant amgen yn y cartref yn cael eu cyflogi mewn gwirionedd yn ardaloedd lleol Merthyr Tudful²
- Llywio Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ymhellach, fel ei fod yn *rhagweithiol ac yn arloesol* wrth archwilio a sicrhau cyllid i gefnogi mentrau lleol a chenedlaethol a sicrhau bod teuluoedd yn cael eu hannog i hawlio'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael

Mae Cynllun Gweithredu'r Asesiad Gofal Plant (gweler tudalen 126) yn ymgorffori cydnabyddiaeth hollbwysig fel a ganlyn:

- Bydd parhau i gyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth ymhlith partneriaid a rhanddeiliaid lleol Merthyr Tudful yn ffordd ymlaen sy'n golygu bod modd diwallu anghenion gofal plant y gymuned
- Bydd COVID-19 yn parhau i effeithio ar y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar yn lleol, yn arbennig o bersbectif cynaliadwyedd
- Bydd arian grant yn parhau i fod yn ffactor oddi mewn i'r uchelgais o gynnal darparwyr gofal plant presennol
- Dylid annog lleoliadau, lle bo hynny'n briodol ac yn gyflawnadwy, i gofrestru gyda Gofal Plant Di-dreth a'r Cynnig Gofal Plant, er mwyn cadw ffioedd mor fforddiadwy â phosibl i deuluoedd sy'n byw yn ardal leol Merthyr Tudful, gan gynnwys y teuluoedd niferus yno sy'n profi anfantais gymharol

² Yn 2022 nid oedd 0 nanis yn gweithredu ym Merthyr Tudful.

O ran cyd-destun pellach, yn gyntaf mae thema darpariaeth i blant dwy oed yn bendant ar agenda awdurdodau lleol bellach; gan fod Llywodraeth Cymru, ym mis Tachwedd 2021, wedi addo cynnig gofal plant am ddim i bob plentyn dwy oed o fewn y tair blynedd nesaf, yn ogystal â chynlluniau i roi hwb i ofal plant cyfrwng Cymraeg³.

Ar hyn o bryd, dim ond plant dwy oed o gefndir difreintiedig yng Nghymru sy'n gallu hawlio 12.5 awr yr wythnos o ofal plant am ddim o dan y rhaglen Dechrau'n Deg⁴, ond dadorchuddiodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru gynllun i ehangu'r cynnig 'gofal plant am ddim' i bob plentyn dwy oed.

Yn ail, a chan roi sylw i'r sector y tu allan i'r ysgol yng Nghymru, yn hydref 2021, cyhoeddodd Clybiau Plant Cymru adroddiad dan y teitl: *Demand for Childcare, and the state of the out of school childcare: re-opening?*⁵ Roedd yr adroddiad hwn – a ddaeth i fodolaeth o ganlyniad i 2,050 o gyfweiliadau â rhieni yng Nghymru ac ymgynghori â chynrychiolwyr o'r ddarpariaeth tu allan i'r ysgol – yn argymhell y canlynol

- Dylai manteision chwarae a ddewisir yn rhydd a defnydd o ofal plant 'rheoledig' gael eu hyrwyddo'n fwy (gan Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, CWLWM a gweithwyr proffesiynol eraill)
- Dylai cyfleoedd cyllido hygyrch barhau ar gyfer y sector gofal plant ar hyd y ffordd at y 'normal newydd'
- Mae angen dull cyfannol o ymdrin â pholisïau a blaenoriaethau yn awr ac yn y dyfodol, gan sicrhau nad yw mentrau'n effeithio ar gynaliadwyedd y sector gofal plant y tu allan i'r ysgol
- Mae angen cefnogi gwelliannau parhaus i safon yn y sector gofal plant trwy barhau â chyfleoedd hyfforddi a ariannir
- Yn ddefnyddol dylai fod mwy o gefnogaeth i fwy o blant a theuluoedd gael mynediad i ofal plant cofrestredig trwy gynlluniau fforddiadwyedd parhaus (ac estynedig).

Yn olaf, ac yn allweddol o ran cyd-destun, ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd Senedd Cymru yr adroddiad: *Gwarchod y dyfodol: y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio*⁶. Argymhellion allweddol yr adroddiad hwn oedd:

- Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun i ddarparu gofal di-fwilch i bawb, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol sydd â lle i bawb sydd am fanteisio arnynt

³ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-11/cooperation-agreement-2021.pdf> - tudalen 5.

⁴ Ym Merthyr Tudful mae hyn yn cyfateb i 40% o'r boblogaeth 0-4 oed sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg.

⁵ <https://www.clybiauplantcymru.org/uploads/files/%5BENG%5D%20State%20of%20Sector%20Report.pdf>

⁶ <https://business.senedd.wales/documents/s122062/Report.pdf>

- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'n bwriadu ymdrin â'r meini prawf cymhwysedd yn y Cynnig Gofal Plant fel ei fod yn haws i rieni sy'n cael eu cyflogi yn ystod oriau annodweddiadol, er enghraifft gwaith ansicr, gwaith shifftiau neu gontractau oriau sero, gael mynediad i ddarpariaeth
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gefnogaeth gofal plant sydd ar gael i rieni newydd. Gallai'r dulliau gweithredu posibl gynnwys: ysgrifennu at rieni newydd neu hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael pan fydd rhieni'n cofrestru genedigaeth eu plentyn; a darparu gwybodaeth i rieni mewn da bryd, cyn i gyfnod mamolaeth ddod i ben, i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am ofal plant
- Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer rhoi sylw i'r bwloch gofal plant rhwng diwedd cyfnod mamolaeth a chymhwysedd i'r Cynnig Gofal Plant. Dylai hyn gynnwys amserlenni dangosol, a gwerthusiad o'r ffactorau ariannol ac ymarferol y byddai angen eu cymryd i ystyriaeth wrth roi sylw i'r bwloch hwn
- Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynlluniau i osod mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion, gan fod y dilyniant o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg gynradd gyfrwng Gymraeg yn uwch pan fydd hynny'n digwydd
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau ar gyfer gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu adnoddau mewn ieithoedd cymunedol heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg, ac yn ogystal â'r ieithoedd hynny
- Er mwyn ymdrin â *phryderon cyffredinol* ynghylch diffyg amrywiaeth ethnig yn y sector, bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer uned anghysondeb hil newydd er mwyn datblygu sylfaen o dystiolaeth ynghylch lefel cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu gofal plant
- Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun sy'n gofyn bod pob darparwr gofal plant yn dilyn hyfforddiant ymwybyddiaeth amrywiaeth a diwylliannol, fel yr hyn sy'n cael ei ddatblygu gan Cwlwm, ac yn sicrhau bod hynny'n dod yn rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y sector
- Bod Llywodraeth Cymru'n cyflwyno cynllun ar gyfer datblygu a chryfhau'r ddarpariaeth gofal plant i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys cynyddu faint o arian sydd ar gael trwy Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant i Gymru er mwyn gwella'r ddarpariaeth i blant ag anabledau a/neu anghenion ychwanegol neu gymhleth
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut bydd yn sicrhau bod cyllid digonol ar gael i ehangu'r Rhaglen Dechrau'n Deg o dan y Cytundeb Cydweithredu, fel bod modd i bob plentyn dwy oed gael mynediad llawn i'r ddarpariaeth
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb gynllun i gyflwyno cynnydd digonol yn y tâl yr awr i ddarparwyr o dan y Cynnig Gofal Plant fel bod modd codi'r tâl i'r staff, ac amserlen ar gyfer talu'r Cyflog Byw Go lawn i bob gweithiwr gofal plant, gan ddysgu oddi wrth Lywodraeth yr Alban wrth ymgorffori hynny yn eu gwaith i ehangu gofal plant
- Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun i sicrhau bod ymgyrch recriwtio Gofal Cymdeithasol Cymru, sydd ar droed, yn cyrraedd ac yn denu grwpiau fel lleiafrifoedd ethnig a siaradwyr Cymraeg sy'n cael eu tangynrychioli yn y gweithlu gofal plant.

Cadarnheir bod yr Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant drafft wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer cyfnod ymgynghori o 28 diwrnod cyn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ar 23 Mai, 2022. Cafwyd 23 o ymatebion i'r ymgynghoriad 28 diwrnod, ystyriwyd yr ymatebion hynny, a buont yn llywio'r fersiwn derfynol hon a gyflwynwyd.

2 Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori

Fel rhan o gynhyrchu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Merthyr Tudful 2022, cafwyd ymgynghori ansoddol a meintiol strwythuredig gydag ystod eang o randdeiliaid, partneriaid, gweithwyr proffesiynol ac addysgwyr – gan gynnwys plant a phobl ifanc⁷, rhieni/gofalwyr, darparwyr gofal plant, personau â diddordeb mewn gofal plant a'u cynrychiolwyr, cyflogwyr lleol, a phersonau oedd yn eu cynrychioli nhw a sefydliadau cyflogwyr, awdurdodau lleol cymdogol a sefydliadau addysgol, gan gynnwys yr ysgolion oddi mewn i'r fwrdeistref.

Ceir manylion pellach ynghylch y partneriaid penodol yr ymgynghorwyd â nhw er mwyn cynhyrchu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant cadarn a chynhwysfawr, oedd yn crynhoi sbectrwm eang o adborth a safbwyntiau, yn cychwyn ar dudalen 43 o'r ddogfen hon.

O ran adborth gan yr awdurdod lleol a'i swyddogion a'i weithwyr proffesiynol perthnasol, ymgynghorwyd â'r canlynol:

- Y rhai sy'n gyfrifol am weithredu polisi a rhaglenni cyfrwng Cymraeg
- Cynrychiolwyr gwasanaethau ieuenctid
- Y rhai sy'n gweithio gydag oedolion ar thema cyflogadwyedd a hyfforddiant
- Cynrychiolwyr Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Merthyr Tudful
- Y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd sydd â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn dod i gysylltiad â nhw
- Cynrychiolwyr ysgolion a chynllunio lleoedd mewn ysgolion
- Y rhai sydd â chyfrifoldeb am gynllunio datblygiadau tai newydd
- Y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd difreintiedig, yn arbennig mewn rhannau o ward y Gurnos a ward Penydarren, gan gynnwys ar themâu megis rhaglen Dechrau'n Deg, rhianta a gwasanaethau cymdeithasol
- Ysgolion a gynhelir
- Cynghorwyr

Yn gynnar yn 2022, cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ymgynghoriad penodol â'i bartner allweddol Cwlwm, gan sicrhau adborth cynrychioliadol o'r fan honno yn ogystal ar ffurf barn partneriaid y grŵp trofswol, *gan gynnwys*:

⁷ Yn 2022 roedd CBSMT hefyd yn cynnal Asesiad Digonolrwydd Chwarae, a chynhyrchodd y prosiect hwn y rhan fwyaf o'r ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar y cyd, gan gynnwys ar thema gofal plant a gweithgareddau tu allan i'r ysgol.

- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Mudiad Meithrin
- Cymdeithas Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol Cymru (NDNA Cymru)
- Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru).

Ar ben hynny, gofynnodd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 am adborth gan ddwy fforwm: (a) Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a (b) Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Gyfan Merthyr Tudful.

Yn ei hanfod, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn hyderus ei fod wedi ymgynghori'n eang a chan flaengynllunio, o ran pa randdeiliaid a phartneriaid ddylai gyfrannu at gynhyrchu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant cadarn yn 2022 – gan gymryd i ystyriaeth bwysigrwydd cymharol Cynllun Gweithredu 2022-2027 ar Ddigonolrwydd, h.y. yn arbennig wrth i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant lleol barhau i atgyfodi wedi'r heriau a achoswyd gan bandemig COVID-19 yn 2020-2022.

3 Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Cyflwynodd Deddf Gofal Plant 2006 ddyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau gofal plant digonol yn eu hardal i alluogi rhieni i dderbyn gwaith neu barhau i weithio, neu i ddilyn addysg a hyfforddiant er mwyn cael gwaith. Wrth benderfynu a yw'r ddarpariaeth gofal plant yn ddigonol i ddiwallu'r gofynion hyn, mae'n rhaid i awdurdodau lleol Cymru roi sylw i'r canlynol: darpariaeth gofal plant sy'n cynnwys defnydd o'r Gymraeg. Roedd hyn yn naturiol yn gofyn bod awdurdodau lleol yn cyflawni rôl ganolog yn natblygiad darpariaeth gofal plant Gymraeg a dwyieithog yn eu hardaloedd, mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol.

Ar ben hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESPs) ar 27 Ionawr 2021⁸. Mae'r canllawiau hyn yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran sut bydd awdurdodau lleol, gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynllunio ar gyfer dilyniant addysg gyfrwng Gymraeg i gefnogi gwreiddu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Disgwylir i awdurdodau lleol osod targed 10 mlynedd troswaol a fydd yn amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn y plant Blwyddyn 1 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol.

Wrth wneud hyn, dylai awdurdodau lleol nodi a chynllunio mesurau i gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant gyfrwng Gymraeg yn yr ardal, i sicrhau llwybr di-fwlch at addysg Gymraeg a sicrhau bod y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer rhieni/gofalwyr a darpar rienni/ofalwyr yn darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg yng nghartref y teulu. I gefnogi'r broses gynllunio, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu data perthnasol i awdurdodau lleol, gan gynnwys nifer y Cylchoedd Meithrin yn ardal yr awdurdod lleol a nifer a chanran y plant sy'n trosglwyddo o Gylch Meithrin i addysg gynradd Gymraeg.

Dangosodd ffigurau a gyhoeddwyd gan StatsWales ym mis Medi 2021 mai ardal leol Merthyr Tudful sydd ag un o'r cyfraddau isaf o ran poblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg (18%). Fodd bynnag, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ymroddedig i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion yn

⁸ Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) (Newidiwyd) (Coronafeirws) 2020 (S.I. 2020/1194 (W. 271)) ("Rheoliadau 2020") a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020 yn gwneud newidiadau i ddyddiad cychwyn y cylch WESP nesaf. Mae gofyn bod awdurdodau lleol yn paratoi a chyflwyno'r Cynllun WESP 10 mlynedd cyntaf i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo erbyn 31 Ionawr 2022 fan bellaf, gyda'r Cynllun 10 mlynedd cyntaf yn cychwyn ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032. Bydd arweinyddion Gofal Plant a Chwarae mewn awdurdodau lleol am nodi'r newidiadau hyn; er mwyn sicrhau bod yr ymgysylltu ag arweinwyr WESP yr awdurdod lleol a rhanddeiliaid allweddol yn digwydd ar adeg gyfleus yn y cylch cynllunio a chynnwys amcanion yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 sydd wedi'u cysylltu'n glir â chynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer twf a dilyniant mewn addysg gyfrwng Gymraeg a'r targed 10 mlynedd o ran plant Blwyddyn 1. Hefyd mae gofyniad bod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cymryd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yr awdurdod lleol i ystyriaeth. Bydd cyfleoedd i awdurdodau lleol ddiweddarau ac ailgyflwyno eu WESPs i Lywodraeth Cymru os nodir unrhyw anawsterau neu gyfleoedd fel rhan o'u hadolygiadau blynyddol, a bydd modd crynhoi'r newidiadau cysylltiedig yn y diweddariadau blynyddol i'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

ymwneud â'r iaith Gymraeg yn ei ardal leol. Mae'n parhau i weithio'n galed i sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn wir yn cael ei rhoi ar bob lefel lle gwneir penderfyniadau am ariannu darpariaeth gofal plant gyfrwng Gymraeg a dwyieithog.

Ceir cyfeiriad at y bwriad hwn yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol (WESP) – sydd i'w weld yn:

<https://www.merthyr.gov.uk/resident/schools-and-learning/welsh-in-education-strategic-plan/>

Tabl 1 – Metreg ynghylch nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth Gymraeg yn ardal leol Merthyr Tudful

| Enw'r awdurdod lleol | Nifer y preswylwyr | Canran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg | Nifer y lleoedd gofal plant DD a ariannir yn yr awdurdod lleol | Nifer y lleoliadau Cylch Meithrin cofrestredig | Nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar draws yr ALL | Canran y plant sy'n cael mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd | Nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol | Nifer y lleoedd derbyn cyfrwng Cymraeg sydd ar gael | Canran y plant sy'n mynychu'r ysgol yn 7 oed ar hyn o bryd |
|----------------------|--------------------|---|--|--|--|--|--|---|--|
| Merthyr | 60,424 | 18% | 218 o leoedd wedi'u rhag-ariannu | 2, ond 3 yn fuan (19 o blant) | 62 ar hyn o bryd (81 pan fydd y ddarpariaeth newydd yn agor) | 4.5% | 2 Ysgol Gynradd Gymraeg | 116 | Cyfrwng Saesneg – 668 (74.5%) Cyfrwng Cymraeg – 116 (12.9%) Cyfanswm yn yr ysgol – 784 Heb gofrestru mewn ysgol – 113 (12.6%) Cyfanswm nifer y plant 7 oed - 897 |

Yn ei hanfod, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ymroddedig i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg trwy gadw at yr Egwyddorion Tywys canlynol:

- Mae gan unigolion yr hawl i ddelio gyda ni yn Gymraeg
- Rhaid lleoli'r Gymraeg i'w darllen yn gyntaf (ar y chwith neu uwchben y Saesneg)
- Hawliau iaith i'r staff
- Mae ansawdd gwasanaeth ac agwedd gadarnhaol yn bwysig
- Rhaid i ni gynnig gwasanaethau Cymraeg i roi dewis iaith
- Bydd manteision addysg ddwyieithog yn cael eu hyrwyddo

Mae ein hawdurdod lleol hefyd yn cadw'r ffeithiau canlynol mewn cof (ac yn barod i weithredu'n egniol ynghylch unrhyw ddatblygiadau y mae galw amlwg amdanynt), sef, ar thema gofal plant:

- Bod iaith y ddarpariaeth yn cael ei gweld fel ffactor pwysig gan rai rhieni ac yn dylanwadu ar **ddewisiadau** rhai rhieni – ac yn ei hanfod, ni ddylai diffyg opsiynau gofal plant cyfrwng Cymraeg fod yn rhwystr i rieni a theuluoedd o'r fath
- Y dylai barhau i gasglu gwybodaeth er mwyn canfod a chynnal gwaelodlin o ddarpariaeth gofal plant Gymraeg a dwyieithog, gan gynnwys trwy ddata a dderbyniwyd gan AGGCC fel rhan o'r Datganiad blynyddol Hunanasesu Gwasanaeth
- Y dylai ein Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd barhau i ddarparu gwybodaeth i rieni a darpar rieni ynghylch manteision magu plant yn ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg yng nghartref y teulu
- Y dylid gwneud rhieni a darpar rieni sy'n byw yn ardal leol Merthyr Tudful (yn rhagweithiol) yn ymwybodol o fentrau perthnasol sy'n ceisio annog rhieni newydd i siarad Cymraeg â'u plant neu gynnig cyfle i rieni a gofaluwr fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu mewn awyrgylch Cymraeg anffurfiol.

Yn ei Gynllun Strategol cyfredol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg mae'r awdurdod lleol yn cyflwyno uchelgais o gynnal prosesau systematig ar gyfer mesur y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth addysgol statudol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn amlinellu ymrwymiad clir iawn i ymchwilio i sut byddai unrhyw opsiynau newydd yn rhoi sylw i ddymuniadau rhieni i gael mwy o hyblygrwydd yn argaeledd y ddarpariaeth, gan gynnwys mewn lleoliadau Cymraeg a dwyieithog.

Mae'r Cynllun yn naturiol yn esbonio ymrwymiad arall: gweithio mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin a Chylchoedd Meithrin i barhau i gynnig cymorth yn Gymraeg ym mhob lleoliad blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Gellir ychwanegu bod yr awdurdod lleol yn dal yn frwd ynghylch: hyrwyddo mentrau iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a helpu teuluoedd i brofi gofal plant ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r tu hwnt, ac ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin a godir gan rieni ynghylch addysg Gymraeg.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn bwriadu *parhau* i fonitro unrhyw alw cynyddol am ddarpariaeth gofal plant Gymraeg a dwyieithog yn y dyfodol, trwy sylwi ar unrhyw rai o'r canlynol:

- Cynnydd yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg ifanc
- Cynnydd yn niferoedd y plant sy'n derbyn addysg gyfrwng Gymraeg ar hyn o bryd
- Newidiadau i Strategaeth Addysg Gyfrwng Gymraeg Llywodraeth Cymru a Strategaeth y Gymraeg
- Unrhyw ddatblygiadau economaidd ar raddfa fawr
- Canlyniadau arolygon a gynhaliwyd rhwng 2022 a 2027 i asesu'r galw gan rieni am addysg gyfrwng Gymraeg.

Yn ddull pellach o gyflwyno canlyniadau'r ymchwil a gychwynnwyd er mwyn llywio a chynhyrchu'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn, yn hydref 2021, gwahoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gynrychiolwyr o ddarparwyr gofal plant mewn lleoliadau, trwy arolwg strwythuredig dros y ffôn, i nodi a oedden nhw'n hapus bod gan eu lleoliad nifer penodedig o staff oedd yn rhugl yn y Gymraeg. Dywedodd 63% o'r darparwyr gofal plant perthnasol eu bod yn hapus, a dywedodd 37% nad oedden nhw'n hapus. O'r darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar (h.y. darparwyr Gofal Dydd Llawn a darparwyr sesiynol) a ddywedodd nad oeddent yn hapus, dywedodd 33% eu bod yn cael trafferth i recriwtio staff oedd yn siarad Cymraeg.

Gwahoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hefyd gynrychiolwyr WESP i ddarparu eu hadborth fel rhan o'i ymgynghoriad ar gyfer Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022. Ymatebodd chwe chynrychiolydd i arolwg ar-lein ac mewn ymateb i'r cwestiwn: *Ydych chi'n meddwl bod digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws ardal leol Merthyr Tudful i ddiwallu anghenion teuluoedd o bob cefndir?*

- Dywedodd 0 o'r cynrychiolwyr WESP: Ydw
- Dywedodd 4: Nac ydw
- Dywedodd 2: Ddim yn gwybod

Ar ben hynny, mewn ymateb i'r cwestiwn: *nodwch isod unrhyw newidiadau rydych chi'n meddwl bod angen eu gwneud i ofal plant Cyfrwng Cymraeg ar draws ardal leol Merthyr Tudful?* roedd yr adborth yn cynnwys:

"Creu cyfleuster yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg i blant sy'n codi'n 2 oed".

"Mae cynnydd yn y ddarpariaeth gofal plant gyfrwng Gymraeg i blant 0-5 oed ac ar ôl ysgol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys meithrinfeydd preifat, gwarchodwyr plant annibynnol, Cylchoedd Meithrin, gofal ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau, ar draws y sir".

Ac, [yn fy marn i]:

"Does dim digon o ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, boed hynny'n feithrinfeydd dydd, o fewn cyrraedd rhesymol i rai cymunedau".

"Mae angen mwy o gylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg ar draws y dref i ddiwallu'r galw cynyddol am addysg gyfrwng Gymraeg... gydag ysgol arall yn agor yn y dyfodol" – ac yn yr un modd:

“Does dim digon o ddarpariaeth/amrywiaeth yn y ddarpariaeth, na digon o wybodaeth yn cael ei rhannu am ofal addysg trwy gyfrwng y Gymraeg”.

Mewn ymateb i'r cwestiwn: *nodwch isod unrhyw flaenoriaethau strategol rydych chi'n teimlo y dylai tîm blynyddoedd cynnar a gofal plant yr Awdurdod Lleol ganolbwyntio arnyn nhw – gan gynnwys yng nghyswllt darparu Cymraeg – roedd yr adborth yn cynnwys:*

“Hoffwn i weld mwy o gyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg i'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sector gofal plant, a chymryd camau i gynyddu ymwybyddiaeth o ofal plant fel gyrfa i siaradwyr Cymraeg”.

“Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau eu bod yn cynllunio'n ofalus gyda phartneriaid i wella'r ystod o ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg sydd ar gael a sicrhau marchnata cyson. Hefyd dylai 'timau iechyd' ymwneud yn fwy â marchnata manteision gofal ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg”.

“Yn ddelfrydol gellid gwneud mwy i annog mwy o fyfyrwyr i ymrestru ar gyrsiau gofal plant cyfrwng Cymraeg yng Ngholeg Merthyr. Yna gallen ni annog y myfyrwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg ar leoliadau gwaith gofal plant cyfrwng Cymraeg yn gynnar, er mwyn cynyddu eu hyder”.

Yn olaf, gellir nodi bod rhieni a gofalwyr wedi cael gwahoddiad, fel rhan o'r ymchwil ar gyfer yr Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn, i roi adborth ar destun gofal plant cyfrwng Cymraeg trwy sesiwn e-ymgyngori benodol a hwyluswyd ym mis Ionawr 2022. Cafwyd adborth gan rieni Cymraeg eu hiaith a Saesneg eu hiaith⁹ – ac roedd yr enghreifftiau o adborth gan rieni (ar thema anawsterau) ynghylch gofal plant cyfrwng Cymraeg yn cynnwys:

“Rwy'n bwriadu anfon fy mhlentyn 2 oed i'r Cylch Meithrin pan fydda i'n gallu fforddio hynny”.

“Rydw i am i'm plentyn fynychu ar gyfer y profiadau cymdeithasol a chwarae, ochr yn ochr â'r ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg, gan fod yna neb gartre sy'n siarad Cymraeg”.

“Roeddwn i'n gobeithio anfon fy merch hynaf i'r Cylch Meithrin, ond oherwydd datblygiad lleferydd doedden nhw ddim eisiau ei llethu hi â 2 iaith”.

“Byddai'n dda cael mwy o ddarpariaethau ar ôl ysgol, wedi'u cysylltu â chwarae a phrofiadau cymdeithasol (yn hytrach na dosbarth Cymraeg penodol) lle gallan nhw ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel rhan o'u profiad”.

⁹ Daeth cyfanswm o 4 rhiant i'r e-sesiwn.

4 Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd

- 4.1 Mae'r adran sy'n dilyn yn amlinellu metreg sylfaenol sy'n cyfateb i'r cyflenwad o ofal plant yn ardal leol Merthyr Tudful – gan gynnwys manylion sy'n canolbwyntio ar y canlynol: (a) nifer y lleoedd sydd ar gael/fesul math a nifer y darparwyr gofal plant sydd ar gael ar draws yr ardal leol. Mae Tabl 2 isod yn dangos nifer y lleoedd hygyrch ym mhob un o'r 11 ward yn yr ardal leol – yn ôl y tri math o ofal plant, h.y.: 1. gofal plant blynyddoedd cynnar, e.e. lleoliadau Gofal Dydd Llawn a chylchoedd chwarae (gan gynnwys Cylchoedd Meithrin); 2. gofal plant cofrestredig; 3. darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol. (Nid oes unrhyw gyfleusterau creche yn gweithredu yn yr ardal.)

Tabl 2 - Y cyflenwad sylfaenol o leoedd gofal plant AGC cofrestredig ar draws ardal leol Merthyr Tudful ym mis Mai 2022 – fesul Ward

Ffynhonnell: AGC/CBSMT

| Enw'r Ward | Nifer y Darparwyr Gofal Plant Gofal Dydd Llawn a leolir yn y ward | Nifer y Lleoedd Gofal Dydd Llawn yn y ward | Nifer y Darparwyr Gofal Sesiynol a leolir yn y ward | Nifer y Lleoedd Gofal Sesiynol yn y ward | Nifer y Gwarchodwyr Plant Cofrestredig a leolir yn y ward | Nifer y Lleoedd gyda Gwarchodwyr Plant Cofrestredig yn y ward | Nifer y Darparwyr Gofal Plant y tu allan i'r Ysgol a leolir yn y ward | Nifer y Lleoedd Gofal Plant y tu allan i'r Ysgol (heb fod mewn ysgol) yn y ward | Cyfanswm y Lleoedd Gofal Plant a gofrestrwyd gydag AGC | Nifer y Darparwyr Gofal Plant Gofal Dydd Llawn a leolir yn y ward sydd hefyd yn hwyluso gofal plant y tu allan i'r ysgol – gan gynnwys gofal plant ar ôl ysgol |
|-------------------------|---|--|---|--|---|---|---|---|--|--|
| Bedlinog | 1 | 24 | 0 | 0 | 1 | 6 | 0 | 0 | 30 | 0 |
| Cyfarthfa | 1 | 72 | 2 | 39 | 1 | 10 | 1 | 24 | 145 | 0 |
| Dowlais | 2 | 38 | 1 | 19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 57 | 0 |
| Gurnos | 1 | 48 | 2 | 56 | 0 | 0 | 0 | 0 | 104 | 1 |
| Bro Merthyr | 1 | 16 | 0 | 36 | 0 | 0 | 1 | 52 | 104 | 1 |
| Parc | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Penydarren | 1 | 19 | 0 | 0 | 1 | 6 | 0 | 0 | 25 | 0 |
| Plymouth | 4 | 114 | 1 | 19 | 3 | 13 | 0 | 0 | 146 | 3 |
| Y Dref | 1 | 49 | 0 | 0 | 1 | 6 | 0 | 0 | 55 | 1 |
| Treharris | 3 | 51 | 0 | 0 | 1 | 6 | 1 | 30 | 87 | 1 |
| Y Faenor | 1 | 19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 19 | 0 |
| Cyfanswm Merthyr Tudful | 17 | 450 | 6 | 169 | 8 | 47 | 3 | 106 | 772 | 7 |

Mewn cysylltiad â Thabl 2 uchod, dylid nodi'r canlynol:

- 1/Mae cofrestriad AGC fesul sesiwn, ac mae rhai darparwyr gofal plant yn gallu cynnig 2 sesiwn y dydd, (h.y. mae Seren Bach yn sesiynol ac wedi cofrestru ar gyfer 36 o leoedd, mae'n cynnal sesiynau bore a phrynhawn, felly mae cyfanswm o 72 o leoedd).
- 2/Y lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar sy'n rhedeg sesiynau bore a phrynhawn yw: Cylch Meithrin Twyncarmel, Toddlers @ CYD, Seren Bach a Busy Bees.
- 3/Mae disgwyl i ddarpariaethwyr eraill agor ym mis Medi 2022: (a) mae Building Blocks (a leolir yn ward Cyfarthfa) ar gau ar hyn o bryd, ond gallai ailagor ym mis Medi 2022 a; (b) byddai Little Learners a Dwylo Bach (yn ward Dowlais) yn cynnwys 19 o leoedd yr un, a byddai gan Bobl Bach (hefyd yn ward Dowlais) 19 o leoedd. Hefyd mae Cylch Meithrin newydd i fod i agor yn ward y Gurnos ddiwedd Mehefin 2022.
- 4/Cofrestriad AGC Canolfan Plant a Theuluoedd y Drindod yw 52, sy'n cwmpasu'r tri darpariaeth mewn un adeilad: 16 o leoedd ar gyfer Gofal Dydd Llawn, 24 o leoedd cyn ysgol (yn y bore) a 12 o leoedd mewn Cylch (yn y prynhawn).
- 5/O ran cofrestriad blaenorol gydag AGC: daeth cofrestriad Gofal Sesiynol Galon/Plantbach i ben ym mis Ebrill 2022.
- 6/Mae gan Plant Hapus gofrestrriad AGC ar gyfer 19 o leoedd Gofal Dydd Llawn.

Yn ei hanfod bu gostyngiad o 7.5% yn y lleoedd gyda Darparwyr Gofal Dydd Llawn, Darparwyr Gofal Sesiynol, a Gwarchodwyr Plant Cofrestredig ers proses Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017.

Dylid nodi hefyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ymwybodol bod nifer o leoliadau/feithrinfeydd gofal plant blynyddoedd cynnar hefyd yn hwyluso elfen o ofal plant tu allan i'r ysgol, yn arbennig lleoedd gofal plant ar ôl ysgol. Mae'r lleoliadau hyn wedi'u dynodi'n ddarparwyr gofal dydd llawn gan AGC, ac felly, er mwyn sicrhau bod yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn yn amlinellu'r cyflenwad sy'n cyfateb i prif ddynodiad AGC, ni chynhwyswyd lleoedd o'r fath yn Nhabl 2 ar dudalen 17 uchod. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys:

- Yn ward y Gurnos: meithrinfa Funtazia PCH, sy'n hwyluso darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau
- Yn ward Bro Merthyr: Trinity Childcare and Family Centre, sy'n hwyluso darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau
- Yn ward Plymouth: Little Lambs Pentrebach, sy'n hwyluso darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau
- Yn ward Plymouth: Funtazia PCH, sy'n hwyluso darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau
- Yn ward Plymouth: Cylch Meithrin Pentrebach, sy'n hwyluso darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau
- Yn ward y Dref: Meithrinfa Ddydd Pili Pala, sy'n hwyluso darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau
- Yn ward Treharris: Little Lambs Treharris, sy'n hwyluso darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau

Mae Tabl 3 isod yn nodi nifer y lleoedd hygyrch ym mhob LSOA o fewn yr ardal – yn ôl y tri math o ofal plant, h.y.: 1. gofal plant blynyddoedd cynnar, e.e. lleoliadau Gofal Dydd Llawn a Darparwyr Gofal Sesiynol (gan gynnwys Cylchoedd Meithrin); 2. gofal plant cofrestredig; 3. darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol.

Tabl 3 – Y cyflenwad sylfaenol o leoedd gofal plant â chofrestriad AGC ar draws ardal leol Merthyr Tudful ym mis Mai 2022 – yn ôl LSOA
Ffynhonnell: AGC/CBSMT

| Enw'r LSOA | Darpariaeth Gofal Plant (Cofrestriad AGC) | Nifer Cofrestredig o Leoedd (yn ôl cofrestriad AGC) |
|---------------|---|---|
| Bedlinog 1 | Bedlinog | amh |
| Bedlinog 2 | Cylch Chwarae Trelewis | 24 Cofrestriad AGC |
| Cyfarthfa 1 | Cylch Meithrin Twyncarmel | 19 Cofrestriad AGC |
| Cyfarthfa 2 | Toddlers @ Coed y Dderwen | 20 Cofrestriad AGC |
| Cyfarthfa 3 | Here We Grow Day Nursery | 72 Cofrestriad AGC |
| Cyfarthfa 3 | Building Blocks | 19 Cofrestriad AGC |
| Cyfarthfa 4 | Amh | amh |
| Dowlais 1 | Amh | amh |
| Dowlais 2 | Bobl Bach | 19 Cofrestriad AGC |
| Dowlais 2 | Little Learners | 19 Cofrestriad AGC |
| Dowlais 3 | Amh | amh |
| Dowlais 4 | Dwylo Bach | 18 Cofrestriad AGC |
| Gurnos 1 | Meithrinfa Ddydd Funtazia – Gurnos | 48 Cofrestriad AGC |
| Gurnos 2 | Cylch Meithrin y Gurnos | amh |
| Gurnos 3 | Busy Bees | 20 Cofrestriad AGC |
| Bro Merthyr 1 | Amh | amh |
| Bro Merthyr 2 | Canolfan Deulu'r Drindod – Cyn Ysgol | 52 Cofrestriad AGC |
| Bro Merthyr 2 | Canolfan Deulu'r Drindod – Gofal Dydd | |
| Bro Merthyr 2 | Canolfan Deulu'r Drindod – Cylch Meithrin Aberfan | |
| Bro Merthyr 3 | Amh | amh |
| Parc 1 | Amh | amh |
| Parc 2 | Amh | amh |

| | | |
|-----------------------------|---|---|
| Parc 3 | Amh | amh |
| Penydarren 1 | Amh | amh |
| Penydarren 2 | Plant Hapus | 19 Cofrestrriad AGC |
| Enw'r LSOA | Darpariaeth Gofal Plant (Cofrestrriad AGC) | Nifer Cofrestredig o Leoedd (yn ôl cofrestrriad AGC) |
| Penydarren 3 | Amh | amh |
| Penydarren 4 | Amh | |
| Plymouth (Merthyr Tudful) 1 | Meithrinfa Ddydd Little Lambs – Pentrebach | 19 Cofrestrriad AGC |
| Plymouth (Merthyr Tudful) 1 | TEDS | 19 Cofrestrriad AGC |
| Plymouth (Merthyr Tudful) 2 | Amh | amh |
| Plymouth (Merthyr Tudful) 3 | Little Rascals | 24 Cofrestrriad AGC |
| Plymouth (Merthyr Tudful) 3 | Cylch Meithrin Pentrebach | 19 Cofrestrriad AGC |
| Plymouth (Merthyr Tudful) 3 | Meithrinfa Ddydd Funtazia – Pentrebach | 52 Cofrestrriad AGC |
| Y Dref 1 | Amh | amh |
| Y Dref 2 | Pili Pala | 49 Cofrestrriad AGC |
| Y Dref 3 | Amh | amh |
| Y Dref 4 | Amh | amh |
| Treharris 1 | Amh | amh |
| Treharris 2 | Amh | amh |
| Treharris 3 | Amh | amh |
| Treharris 4 | Nursery Rhymes | 20 Cofrestrriad AGC |
| Treharris 4 | Cylch Meithrin Treharris | 12 Cofrestrriad AGC |
| Treharris 4 | Meithrinfa Ddydd Little Lambs – Treharris | 19 Cofrestrriad AGC |
| Y Faenor 1 | Amh | amh |
| Y Faenor 2 | Little Acorns | 19 Cofrestrriad AGC |

Gellir nodi, o blith y 23 o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar yn ardal leol Merthyr Tudful, fod (yn ôl manylion cofrestru AGC) 17 o ddarparwyr Gofal Dydd Llawn a 6 darparwr Gofal Sesiynol. Mae 4 o'r 23 lleoliad yma yn ddarparwyr Cylch Meithrin gweithredol. Gellir nodi hefyd nad oes 0 nanis yn gweithredu, yn ôl pob golwg, yn ardal leol Merthyr Tudful.

- 4.2 Mae Tabl 4 isod yn nodi union nifer y plant a oedd yn cyrchu/mynychu lle gofal plant wedi hynny, yn ôl y math(au) o ofal plant, ym mhob ward **yn hydref 2021**.

Tabl 4 - Nifer y plant oedd yn mynychu darpariaeth(au) gofal plant ffurfiol ar draws ardal leol Merthyr Tudful yn hydref 2021, yn ôl lleoedd cofrestredig, lleoedd newydd posibl i blant 0-4 oed a fydd yn ofynnol yn ôl digwyddiad datblygiadau tai newydd – a nifer y rhestrau aros yn hwyr yn 2021

Ffynhonnell: Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant Merthyr Tudful 2021-2022 – cyfweiliadau strwythuredig gyda darparwyr gofal plant ac SASS 2022 ac AGC

| Enw'r ward | Nifer y lleoedd Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar cofrestredig (h.y. y cyfuniad o leoedd Gofal Dydd Llawn a Gofal Sesiynol) | Nifer y plant sy'n amlwg yn mynychu Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar (h.y. Gofal Dydd Llawn a Gofal Sesiynol) yn hydref 2021 | Nifer y plant ychwanegol 0-4 oed a allai ddod yn sgîl Anheddau Newydd yn ôl fformwla tai newydd CBSMT (gweler 11.15) | Nifer y plant ar restr aros gyda Darparwyr Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar yn y ward dan sylw |
|--------------------------------|--|--|--|--|
| Bedlinog | 24 | 19 (79% yn llawn) | 6 | 3 |
| Cyfarthfa | 111 | 111 (100% yn llawn) | 47 | 0 |
| Dowlais | 57 | 51 (89% yn llawn) | 7 | 0 |
| Gurnos | 104 | 82 (79% yn llawn) | 31 | 0 |
| Bro Merthyr | 52 | 28 (53% yn llawn) | 8 | 0 |
| Parc | 0 | Amh | 0 | n/a |
| Penydarren | 19 | 19 (100% yn llawn) | 8 | 0 |
| Plymouth | 133 | 99 (70% yn llawn) | 91 | 2 |
| Y Dref | 49 | 21 (43% yn llawn) | 41 | 0 |
| Treharris | 51 | 48 (94% yn llawn) | 59 | 3 |
| Y Faenor | 19 | 8 (42% yn llawn) | 2 | 2 |
| Cyfanswm Merthyr Tudful | 619 | 524 (84% yn llawn) | 300 | 10 |

4.3 Roedd data SASS Gorffennaf 2021 yn dangos bod cyfanswm o 70 o blant ag anghenion ychwanegol, ar draws holl ddarparwyr gofal plant Merthyr Tudful, yn mynychu darpariaeth gofal plant.

- Dywedodd 100% o'r darparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad oedd ag anabledd gwybyddol a dysgu

- Dywedodd 96% o ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad oedd ag anhawster ymddygiad, emosiynol a datblygiad cymdeithasol
- Dywedodd 100% o'r ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad oedd ag anhawster cyfathrebu a rhyngweithio
- Dywedodd 79% o'r ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad oedd ag anabledd synhwyrdd a/neu gorfforol.

4.4 Roedd Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS Gorffennaf 2021 hefyd yn dangos bod yr holl ddarparwyr gofal plant yn cyflwyno gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg yn Gylchoedd Meithrin. Yr unig ddwy iaith amlwg yr oedd gofal plant yn cael ei ddarparu trwyddynt oedd Cymraeg a/neu Saesneg. Ar ben hynny, amlygodd yr arolwg a gynhaliwyd gyda ddarparwyr gofal plant ym Merthyr Tudful yn hydref 2021 mai 13% (yn unig) o'r ymatebwyr oedd â chynlluniau ar waith i ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg roedden nhw'n eu cynnig yn ystod y 18 mis nesaf, h.y. hyd at wanwyn 2023.

4.5 Mae modd gweld rhagor o fanylion am y cyflenwad o ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg – a darpariaeth y Cynnig Gofal Plant - yn Adran 16. Yn gyflwyniad i'r fetreg hon, mae Tabl 5 isod yn dangos nifer y lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg oedd i weld ar gael ym mis Chwefror 2022, fesul pob un o'r 11 ward a hefyd (yn unol â Chanllawiau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant), *y trefniadau comisiynu*.

Tabl 5 - nifer y lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg oedd i weld ar gael ym mis Hydref 2021

Ffynhonnell: CBS Merthyr Tudful – Chwefror 2022

| Enw'r Ward | Nifer y lleoedd Dechrau'n Deg a gomisiynwyd ac a ragariannwyd oedd ar gael yn y ward | Nifer y plant oedd yn cael mynediad i leoedd gofal plant a ariannwyd gan Dechrau'n Deg |
|-------------|--|--|
| Bedlinog | 8 | 16 |
| Cyfarthfa | 44 | 41 |
| Dowlais | 23 | 30 |
| Gurnos | 76 | 71 |
| Bro Merthyr | 15 | 31 |
| Parc | amh | Amh |
| Penydarren | 31 | 26 |
| Plymouth | 8 | 26 |
| Y Dref | Amh | Amh |

| | | |
|-----------|----|----|
| Treharris | 13 | 25 |
| Y Faenor | 0 | 3 |

Mae Tabl 5 yn dangos, yn unol â demograffeg sosio-economaidd yr ardal benodol honno, mai ward y Gurnos oedd yn cyfrif am y nifer amlaf o leoedd gofal plant a ragariannwyd ym mis Chwefror 2022. Gellir nodi hefyd y bydd y rhaglen Dechrau'n Deg yn prynu lleoedd ychwanegol ar y pryd os bydd plant Dechrau'n Deg cymwys ychwanegol yn gallu hawlio lle ar unrhyw adeg.

Mae Tabl 6 isod yn dangos mai'r ward sy'n cyfrif am y nifer uchaf o blant 2-3 oed preswyl yw ward Cyfarthfa, gyda ward y Dref yn dilyn o ran amllder – tra bod y rhieni cymwys ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg yn fwyaf tebygol o fod yn byw yn ward y Gurnos. Mae'r Tabl yn dangos sut gallai nifer y plant 2-3 oed gynyddu'n unol â rhagfynegiad o 2.8% (gweler 11.2 isod) a sut byddai hynny'n cael ei adlewyrchu o ran cyfraddau hygyrchedd petai argaeledd lleoedd gofal plant, i'r garfan oed hon, yn parhau ar lefelau 2022 yn yr ardal leol.

Tabl 6 – Cyfraddau hygyrchedd a ragwelir ar gyfer lleoedd gofal plant i rai 2-3 oed yn wardiau Merthyr Tudful

| Enw'r ward | Nifer y plant 2 3 oed sy'n byw ym Merthyr Tudful yn 2022 (ONS 2020) | Nifer y plant 2 3 oed y rhagwelir y byddant yn byw ym Merthyr Tudful yn 2027 2028 | Amcan o nifer y lleoedd gofal plant hygyrch yn y ward ar gyfer y garfan oed hon yn 2022 | Cyfradd hygyrchedd gofal plant yn 2027 <i>o ragdybio bod y cyflenwad o ofal plant yn parhau'n ddisymud, heb newid/gynyddu</i> | Uwch neu Is na chyfradd hygyrchedd gyfartalog Merthyr Tudful yn 2027? | Cyfanswm nifer yr Anheddau Newydd a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod 2022 2031 mewn datblygiadau tai newydd ac a yw'r ward yn cyfrif am nifer Uwch neu Is na'r cyfartaledd |
|-------------|---|---|---|---|---|---|
| Bedlinog | 89 | 91 | 30 | 33/100 o blant | Is | Is |
| Cyfarthfa | 214 | 220 | 121 | 55/100 o blant | Uwch | Uwch |
| Dowlais | 166 | 171 | 57 | 33/100 o blant | Is | Is |
| Gurnos | 154 | 160 | 104 | 65/100 o blant | Uwch | Uwch |
| Bro Merthyr | 93 | 97 | 52 | 53/100 o blant | Uwch | Is |
| Parc | 88 | 91 | 0 | 0/100 o blant | Is | Is |

| | | | | | | |
|--------------------|--------------|--------------|------------|-----------------------|------|------|
| Penydarren | 136 | 140 | 25 | 18/100 o blant | Is | Is |
| Plymouth | 105 | 108 | 146 | 100/100 o blant | Uwch | Uwch |
| Y Dref | 182 | 187 | 55 | 29/100 o blant | Is | Uwch |
| Treharris | 152 | 157 | 57 | 36/100 o blant | Is | Uwch |
| Y Faenor | 74 | 76 | 19 | 25/100 o blant | Is | Is |
| Cyfansymiau | 1,453 | 1,500 | 665 | 44/100 o blant | | |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020 ar gyfer Wardiau 2020 ac ALLau 2021 yng Nghymru a Lloegr yn ôl Blwyddyn Oed Unigol a Rhyw

Mae Tabl 6 yn dangos mai'r ddau ward y gellir eu hystyried yn flaenoriaeth o ran ffocws i'r Awdurdod Lleol yw: (a) Y Dref a; (b) Treharris, lle mae'r gyfradd hygrychedd o ran lleoedd gofal plant blynyddoedd cynnar yn **is** na chyfartaledd ardal leol Merthyr Tydfil ac mae nifer y tai newydd y bwriedir eu darparu yn **uwch** na chyfartaledd ardal leol Merthyr Tydfil.

- 4.6 Mewn ymateb i Ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS Gorffennaf 2021, dywedodd 67% o'r darparwyr/lleoliadau gofal plant perthnasol, h.y. darparwyr gofal dydd llawn, darparwyr sesiynol a gwarchodwyr plant, eu bod yn cofrestru er mwyn hwyluso rhieni/gofalwyr i gael mynediad i Ofal Plant Di-dreth. Dywedodd y rhai oedd heb gofrestru droeon eu bod "yn cynnig lleoedd a ariannir gan Dechrau'n Deg yn unig" (neu eiriau cyfatebol). O ran *hyrwyddo* Gofal Plant Di-dreth, dywedodd 67% o'r darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar (hefyd) eu bod yn mynd ati i wneud hynny. Dywedodd 77% o'r darparwyr gofal dydd llawn a'r darparwyr sesiynol a ymatebodd fod rhieni'r plant roeddent yn gofalu amdanynt (ym mis Gorffennaf 2021) (hyd y gwyddent) yn derbyn gofal plant di-dreth neu'n defnyddio talebau gofal plant.
- 4.7 Mae Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016 yn rhoi cyfarwyddyd y dylai'r Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant grynhoi ystod oed y plant sy'n gallu mynychu'r ystod o fathau o ofal plant – a chyflwynir y fetreg hon yn Nhabl 7 isod.

Tabl 7 – Nifer y darparwyr gofal plant yn ardal leol Merthyr Tudful y mae grwpiau oed penodol o blant yn cael mynediad iddynt yn gynnar yn 2022

Ffynhonnell: Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant Merthyr Tudful 2021-2022 – cyfweiliadau strwythuredig gyda darparwyr gofal plant

| Y math o ddarparwr gofal plant | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 0 12 mis ac 1 flwydd oed | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 2 oed | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 3 4 oed | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 5 18 oed |
|--------------------------------|---|--|--|---|
| Darparwyr Gofal Dydd Llawn | 7 | 7 | 17 | 17 |

| | | | | |
|----------------------------------|---|---|---|---|
| Gofal Sesiynol | 0 | 7 | 7 | 0 |
| Gwarchodwyr Plant Cofrestredig | 4 | 5 | 3 | 6 |
| Gofal Plant y tu allan i'r Ysgol | 0 | 0 | 0 | 3 |

- 4.8 Pan gynhaliwyd yr un arolwg yn hydref 2021, gwahoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar i nodi a oedd ganddynt restr aros. (Dim ond) 17% o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar, h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr sesiynol, ddywedodd fod ganddyn nhw restr aros ac 1 gwarchodwr plant cofrestredig (yn unig) ddywedodd fod ganddyn nhw restr aros. Ar ben hynny, gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant perthnasol nodi a oedd maint eu rhestr aros wedi newid mewn unrhyw fodd o gymharu â gwanwyn 2021.

Tabl 8 - I ba raddau roedd rhestrau aros wedi newid yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth 2021 a Hydref 2021

Ffynhonnell: Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant Merthyr Tudful 2021-2022 – cyfweiliadau strwythuredig gyda darparwyr gofal plant

| Dosbarthiad | Canran y darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a nododd hyn | Canran y gwarchodwyr plant cofrestredig a nododd hyn |
|---|---|--|
| Ydy – mae wedi lleihau | 75% | 0 |
| Ydy – mae wedi cynyddu | 25% | 0 |
| Nac ydy – mae wedi aros fwy neu lai yr un maint | 0 | 100% |

- 4.9 Yn hydref 2021, gwahoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful bob darparwr gofal plant i nodi a oedd ganddyn nhw leoedd gwag.
- Dywedodd 75% o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar fod ganddyn nhw leoedd gwag
 - Dywedodd (canran gymharol is, sef) 30% o'r gwarchodwyr plant cofrestredig fod ganddyn nhw leoedd gwag
 - Dywedodd 33% [h.y. 1] o'r darparwyr gofal plant tu allan i'r ysgol fod ganddyn nhw leoedd gwag.

Yn achos y darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar oedd â lleoedd gwag, y nifer ar gyfartaledd oedd 7.5. Yn achos y gwarchodwyr plant cofrestredig oedd â lleoedd gwag, y nifer ar gyfartaledd oedd 2.5. Mae Tabl 9 yn dangos nifer y darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a nododd fod ganddynt: (a) rhestrau aros; a (b) lleoedd gwag fesul ward yn hydref 2021.

Tabl 9 – Nifer y darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a nododd fod ganddynt: (a) rhestr aros a; (b) lleoedd gwag fesul ward yn hydref 2021

| Ward | Grwpiau/Lleoeliadau Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar | | | | Sefyllfa Net Rhestrau Aros yn erbyn Lleoedd Gwag (hydref 2021) |
|-------------|--|-----------------------------|---|----------------------|--|
| | Nifer y lleoliadau a ddywedodd fod ganddynt restr aros | Nifer y plant ar restr aros | Nifer y lleoliadau a ddywedodd fod ganddynt leoedd gwag | Nifer y lleoedd gwag | |
| Bedlinog | 1 | 3 | 1 | 5 | +2 le gwag |
| Cyfarthfa | 0 | 0 | 3 | 16 | +16 o leoedd gwag |
| Dowlais | 0 | 0 | 2 | 4 | +4 lle gwag |
| Gurnos | 0 | 0 | 3 | 22 | +22 o leoedd gwag |
| Bro Merthyr | 0 | 0 | 1 | 8 | +8 lle gwag |
| Parc | amh ¹⁰ | amh | amh | amh | Amh |
| Penydarren | 0 | 0 | 1 | 3 | +3 lle gwag |
| Plymouth | 1 | 2 | 4 | 41 | +39 o leoedd gwag |
| Y Dref | 0 | 0 | 1 | 28 | +28 o leoedd gwag |
| Treharris | 1 | 3 | 1 | 3 | Dim mwyafrif |
| Y Faenor | 1 | 2 | 1 | 4 | +2 le gwag |

Mae Tabl 9 yn dangos, o ran lefelau llenwi a darparwyr/lleoeliadau gofal plant blynyddoedd cynnar, mai'r sefyllfa at ei gilydd oedd bod y lleoedd gwag (nifer y lleoedd gwag) yn gorbwyso nifer y plant ar restrau aros.

Gellir nodi hefyd mai'r unig ward lle roedd gan warchodwr plant presennol le gwag *neu* restr aros ar ddiwedd 2021 oedd ward Treharris.

4.10 Casglodd arolwg hydref 2021 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyda darparwyr gofal plant eglurhad ynghylch y cyfraddau safonol fesul awr a diwrnod.

¹⁰ Nid oes darparwyr perthnasol wedi'u lleoli yn y ward yma.

Yn achos y 24 o ddarparwyr/leoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar yr ymgynghorwyd â nhw – y ffi dyddiol a nodwyd ar gyfartaledd oedd £37.82 a'r ffi dyddiol a nodwyd amlaf gan ddarparwr oedd £46.50.

Yn achos y deg gwarchodwr plant cofrestredig – y ffi fesul awr ar gyfartaledd oedd £4.98 a'r ffi dyddiol mwyaf cyffredin oedd £4.50.

Yn achos y tri darparwr gofal plant y tu allan i'r ysgol – y ffi fesul awr ar gyfartaledd oedd £6.83.

4.11 Casglodd arolwg hydref 2021 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyda darparwyr gofal plant hefyd gadarnhad ynghylch amserau agor.

Yn achos y 24 o ddarparwyr/leoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar – yr amser agor ar gyfartaledd oedd 8:40am a'r amser agor mwyaf cyffredin oedd 9:00am. Yr amser gorffen ar gyfartaledd oedd 14:45pm a'r amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 18:00pm.

Yn achos y 10 gwarchodwr plant cofrestredig – yr amser cychwyn ar gyfartaledd oedd 7:42am a'r amser cychwyn mwyaf cyffredin oedd 7:00am. Yr amser gorffen ar gyfartaledd oedd 17:45pm a'r amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 18:00pm. (Dim ond un gwarchodwr plant ddywedodd eu bod yn gorffen ar ôl 18:00pm ac roedd hynny am 19:00pm – awr yn ddiweddarach).

Yn achos y tri darparwr/lleoliad gofal plant tu allan i'r ysgol – yr amser agor ar gyfartaledd (a'r mwyaf cyffredin) i'w clwb ar ôl ysgol oedd 15:00pm. Amser gorffen y clwb ar ôl ysgol ar gyfartaledd oedd 17:18pm a'r amser gorffen mwyaf cyffredin (dau o'r tri lleoliad) oedd 17:00pm.

4.12 Wrth ddychwelyd at Ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS Gorffennaf 2021 fel ffynhonnell, o'r 22 darparwr/lleoliad gofal plant blynyddoedd cynnar a ymatebodd i'r arolwg hwnnw, dywedodd 14% (bryd hynny) eu bod yn derbyn cyllid i ddarparu lleoedd addysg blynyddoedd cynnar rhan amser, a bod dau o'r darparwyr hyn yn ward Plymouth.

4.13 Yn hydref 2021, gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i nodi a oeddent wedi profi neu dystio i unrhyw dueddiadau (newydd) gwerth eu nodi o ran y galw am: (a) y mathau o leoedd roedden nhw'n eu cynnig neu; (b) y mathau o oriau yn eu lleoliad. Dywedodd 65% o'r darparwyr gofal plant eu bod wedi profi hynny, ac yn nhrefn amllder, dyma nhw:

- Rhieni'n gofyn am fwy o hyblygrwydd, gan gynnwys cyfateb i oriau shifftiau
- Roedd mwy o rieni wedi bod yn gweithio gartref
- Roedd (mwy o'r) rhieni yn gofyn am ddiwrnodau llawn
- Roedd mwy o alw am sesiynau bore, o gymharu â sesiynau prynhawn

5 Anghenion Rhieni/Gofalwyr – y galw am ofal plant

Mae'r naratif isod yn amlinellu canlyniadau dadansoddiad o arolwg rhieni Llywodraeth Cymru, yr oedd ffenestr o 5-wythnos i ymateb iddo ym mis Hydref 2021 a dechrau Tachwedd 2021. Lluniwyd yr arolwg hwn gan Lywodraeth Cymru, a hefyd ei allu i sicrhau ei fod yn cynnwys rhai o'r ffactorau cysylltiedig â'r galw y dylid ymdrin â hwy mewn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, yn ôl Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016. Er mwyn ymdrin â rhai o'r themâu cyfeiriedig hyn, bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn trefnu ac yn hwyluso cyfres o sesiynau grŵp e-ffocws ddiwedd 2021 a dechrau 2022, ac mae'r adran isod yn cyfuno dadansoddiad o arolwg rhieni Llywodraeth Cymru a'r themâu (ar sail y galw) a amlygwyd yn ystod y sesiynau hynny.

5.1 Roedd yr ymatebion i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn cyfateb i 11 ward Merthyr Tudful fel a ganlyn.

Tabl 10 - Ardal breswyl y rhieni/gofalwyr oedd yn ymateb

| Enw'r Ward | Nifer y rhieni/gofalwyr a ymatebodd | Canran o'r Cyfanswm |
|------------------|-------------------------------------|---------------------|
| Bedlinog | 6 | 3% |
| Cyfarthfa | 33 | 16.5% |
| Dowlais | 15 | 7.5% |
| Gurnos | 20 | 10% |
| Bro Merthyr | 17 | 8.5% |
| Parc | 6 | 3% |
| Penydarren | 19 | 9.5% |
| Plymouth | 19 | 9.5% |
| Y Dref | 20 | 10% |
| Treharris | 9 | 4.5% |
| Y Faenor | 14 | 7% |
| Ward heb ei nodi | 22 | 11% |

| | | |
|-------------------------|-----|------|
| Cyfanswm Merthyr Tudful | 200 | 100% |
|-------------------------|-----|------|

- 5.2 O ran y math o aelwyd(ydd), yr ymateb a ddarparwyd amlaf gan y rhieni/gofalwyr a ymatebodd oedd eu bod: yn rhannu cyfrifoldeb am fy mhlentyn/mhlant gyda rhywun rwy'n byw gyda nhw (68.5% o ymatebwyr), a dilynwyd hynny o ran amlder gan riant/gofalwr yn dweud bod ganddynt gyfrifoldeb unigol am eu plentyn/plant (mewn gwirionedd, roedd 20% yn unig rieni).
- 5.3 Nifer cyfartalog y plant oedd yn cael eu magu gan yr holl ymatebwyr, i bob golwg, oedd 1.89 (0.19 yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig) – a ward y Gurnos oedd yn cyfrif am y nifer cyfartalog uchaf o blant a nodwyd (2.3), gyda ward y Dref yn dilyn o ran amlder (2.0).
- 5.4 Y garfan oed yr oedd y rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn eu magu amlaf, i bob golwg, oedd plant 5-8 oed, gyda 2 flwydd oed yn dilyn [60 o blant]. I bob golwg roedd gan 60% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd o leiaf un plentyn 0-4 oed ac i bob golwg roedd gan 55% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd o leiaf un plentyn 5-18 oed. Y ward oedd yn cyfrif am y nifer uchaf o ymatebion gan rieni/gofalwyr oedd â phlant 2, 3 a/neu 4 oed oedd Cyfarthfa.
- 5.5 Dywedodd 9.5% o'r gofalwyr/rhieni a ymatebodd eu bod yn magu/gofalu am o leiaf un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu salwch hirdymor. Dywedodd 90% o'r ymatebwyr hynny fod ganddyn nhw blentyn oedd angen (mwy fyth o) gymorth gyda'u dysgu.

Ym mis Rhagfyr 2021, hwylusodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sesiwn e-ymgynghori gyda gofawyr plant a phobl ifanc oedd ag anghenion dysgu ychwanegol. Dyma'r adborth allweddol a ddarparwyd gan y gofawyr a fu'n mynychu'r sesiwn hon:

- O ran gofal plant y tu allan i'r ysgol, roedd dibyniaeth amlwg ar draws yr ardal leol ar Glwb ar ôl Ysgol Kidz Den
- Mae heriau gofal plant yn cael effaith ar ofalwyr a chyflogadwyedd – e.e. roedd yr adborth perthnasol yn cynnwys:
“Oherwydd dwy neu dair o sesiynau awr gyda gwahanol wasanaethau cefnogi, roedd rhaid i mi gymryd cam yn ôl yn fy ngyrfa i gadw at apwyntiadau fy mab. Rydw i am fod yno i'm mab, ond mae [gofal plant] yn effeithio ar bopeth”.

“Tasen i'n mynd nôl i waith amser llawn yn y dyfodol, byddai angen o hyd i fi ystyried ei anghenion cefnogi un-i-un, oherwydd petai'r lleoliad yn fy ngalw i, oherwydd problem gyflenwi, byddai'n rhaid i fi ollwng fy ngwaith”.

“Mae fy mhrofiad cychwynnol cyffredinol o ofal plant wedi fy nigalonni, ac rwy'n teimlo mod i wedi cael fy ngadael i lawr yn fawr. Mae'n gallu bod yn lle unig”.
- Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Merthyr Tudful yn “wych”, ond fe allai gynnig “cefnogaeth fwy penodol i rieni/blant sydd ag anghenion ychwanegol”.
- Mae heriau gofal plant yn effeithio ar allu gofawyr i astudio, ac roedd yr adborth ar y thema yma'n cynnwys:
“Fel rhan o'm hastudiaethau TAR mae rhaid i mi wneud lleoliad ddydd Mercher neu ddydd Iau yn y Brifysgol, yn dysgu'r myfyrwyr... ac yna mae rhaid i mi gyrraedd adre erbyn 2pm. Mae gofal plant yn 'arafu fy astudiaethau' achos dyw e ddim yn rhwydd cwblhau'r holl oriau ar leoliad, ac mae oriau cyfyngedig i gyflawni'r astudiaethau”.

“Mae astudio'n anodd iawn yn ystod y gwyliau, achos mae fy ngŵr yn dod adre o'r gwaith wedi ymlâdd, ac rwyf fi wedi ymlâdd hefyd... felly mae cael hyd i amser i gwblhau aseiniadau yn dod yn her fawr. Does gennym ni ddim cefnogaeth yn ystod gwyliau'r ysgol, felly mae pwysau gwirioneddol arnon ni achos bod gennym ni ddim rhieni [cu] cefnogol”.

5.6 Nododd yr holl rieni/ofalwyr a ymatebodd i Lywodraeth Cymru beth oedd eu statws cyflogaeth ar hyn o bryd.

Tabl 11 - Statws cyflogaeth y rhieni/gofawyr a ymatebodd

| Statws Cyflogaeth | Canran o'r rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Chwilio am swydd – ond ddim yn gweithio eto | 7% |
| Cyflogedig | 65% |
| Hunangyflogedig | 4% |
| Mewn addysg neu hyfforddiant | 7% |
| Ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am swydd | 11% |
| Yn methu gweithio | 6% |

Roedd yn amlwg bod gan 70% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd bartner, a disgrifiwyd eu statws cyflogaeth gan yr ymatebwyr fel a ganlyn:

Tabl 12 - Statws cyflogaeth partneriaid

| Statws Cyflogaeth | Canran o'r rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Chwilio am swydd – ond ddim yn gweithio eto | 3.5% |
| Cyflogedig | 55% |
| Hunangyflogedig | 9% |
| Mewn addysg neu hyfforddiant | 1% |
| Ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am swydd | 1% |
| Yn methu gweithio | 1% |
| Amherthnasol (achos bod dim partner gen i) | 29.5% |

5.7 Mae Tabl 13 yn nodi digwyddiad y rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn nodi incwm gros eu haelwyd fesul wythnos (cyn didyniadau/treth).

Tabl 13 - Digwyddiad incwm gros aelwydydd fesul wythnos (cyn didyniadau/treth)

| Incwm wythnosol yr aelwyd | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd | Y math o ofal plant <i>ffurfiol</i> a gyrchwyd amlaf, yn ôl yr hyn a ddywedwyd |
|---------------------------|---|--|
| Hyd at £100 | 3% | Meithrinfa Ysgol |
| £100 i £149 | 8% | Meithrinfa Ysgol |
| £150 i £249 | 5.5% | Meithrinfa Ysgol |
| £250 i £349 | 13% | Meithrinfa Ddydd Breifat |
| £350 i £500 | 10% | Meithrinfa Ddydd Breifat |
| £500 i £580 | 6% | Clwb Brechwast |
| £581 i £750 | 10% | Clwb Brechwast |
| £750 i £999 | 12% | Meithrinfa Ddydd Breifat |
| Mwy na £1,000 | 8% | Clwb Brechwast |
| Dewis peidio dweud | 25.5% | Meithrinfa Ysgol |

5.8 Mae Tabl 14 yn nodi digwyddiad y rhieni/gofalwyr a ymatebodd gan nodi cefndiroedd ethnig penodol.

Tabl 14 - Ethnigrwydd y rhieni/gofalwyr a ymatebodd

| Ethnigrwydd a Nodwyd | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Gwyn | 95% |
| Grwpiau ethnig cymysg/lluosog | 2% |
| Asiaid/Asiaid Prydeinig | 1% |
| Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig | 1% |

| | |
|-------------------|----|
| Grŵp ethnig arall | 1% |
| Heb ddweud | 0 |

5.9 Dywedodd 68% o'r *holl* rieni/ofalwyr a ymatebodd (oedd ag o leiaf un plentyn 3 a/neu 4 oed) eu bod yn cael mynediad i le addysg gynnar a ariannwyd mewn ysgol neu feithrinfa neu gylch chwarae sesiynol. O ran y Cynnig Gofal Plant, amlinellodd y rhieni/gofalwyr a ymatebodd oedd ag o leiaf un plentyn 3 a/neu 4 oed eu defnydd fel a ganlyn¹¹.

¹¹ Gan fod y mwyafrif o'r plant meithrin yn derbyn y cynnig Meithrin Cyfnod Sylfaen amser llawn yn nhymor yr hydref, bydd y nifer sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yn nhymor yr hydref yn llai nag yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf.

Tabl 15 - Manteisio ar y Cynnig Gofal Plant gan rhieni/ofalwyr yn hydref 2021

| Statws o ran y Cynnig Gofal Plant | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd (yn ôl oedran targed y Cynnig Gofal Plant) |
|---|--|
| Ydw, rwy'n cael mynediad iddo yn ardal leol Merthyr Tudful | 12% |
| Ydw, rwy'n cael mynediad iddo, (ond) y tu allan i Ferthyr Tudful | 1% |
| Nac ydw, ond efallai byddaf yn cael mynediad iddo'n fuan yn y dyfodol | 4.5% |
| Nac ydw, a does gen i ddim cynlluniau i wneud hynny | 6.5% |
| Ddim yn siŵr | <1% |
| Ddim yn defnyddio | 75% |

- 5.10 Dywedodd 19.5% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd oedd ag o leiaf un plentyn 2 a/neu 3 oed eu bod yn cael mynediad i le (gofal plant) Dechrau'n Deg, gyda ward y Gurnos – yn achos yr arolwg hwn (fel y disgwylid, o ystyried ei lefelau cymharol o anfantais sosio-economaidd a nifer y lleoedd a gomisiynwyd) – yn cyfrif am amllder uchaf rhieni/gofalwyr o'r fath oedd yn cael mynediad i leoedd.
- 5.11 Mae Tabl 16 isod yn nodi pa mor aml roedd rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn nodi eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant **yn ystod y tymor**.

Tabl 16 - Pa mor aml y nododd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant **yn ystod y tymor**

| Mathau o ofal plant cofrestredig neu heb ei gofrestru | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Gwarchodwr plant | 2.5% |
| Clwb cyn Ysgol neu Glwb Brecwast | 16% |
| Clwb ar ôl Ysgol | 13.5% |
| Meithrinfa Ddydd Breifat | 18.5% |
| Meithrinfa yn yr Ysgol | 9.5% |
| Cylch Chwarae Sesiynol | 11.5% |
| Cylch Meithrin | 3.5% |
| Creche Gollwng Plant | 0 |
| Nani | 0 |
| Au-Pair | 0 |
| Teulu/ffrindiau (am dâl) | 1% |
| Teulu/ffrindiau (di-dâl) | 40.5% |
| Nodwyd <i>dim yn ystod y tymor</i> | 1% |

5.12 I gyfateb i hyn, mae Tabl 17 isod yn nodi pa mor aml y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant **yn ystod y gwyliau**.

Tabl 17 - Pa mor aml y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant yn ystod y gwyliau

| Mathau o ofal plant cofrestredig neu heb ei gofrestru | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd | Y gwahaniaeth o gymharu â chanrannau yn ystod y tymor |
|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 1.5% | -1% |
| Clwb Gwyliau neu Gynllun Chwarae | 5% | amh |
| Meithrinfa Ddydd Breifat | 19% | +1.5% |
| Ysgol Breifat Ragbaratoadol | 0 | amh |
| Cylch Chwarae Sesiynol | 4.5% | -7% |
| Cylch Meithrin | 1% | -2.5% |
| Meithrinfa Ddydd/Gollwng Plant | 1% | +1% |
| Nani/Au-Pair | 0 | Dim gwahaniaeth |
| Cynllun chwarae | 2% | amh |
| Teulu/ffrindiau (am dâl) | 6% | +5% |
| Teulu/ffrindiau (di-dâl) | 40.5% | Dim gwahaniaeth |
| Nodwyd <i>dim yn ystod gwyliau'r ysgol</i> | 20% | amh |

5.13 Gwahoddwyd pob rhiant/gofalwr a ymatebodd i nodi faint roedden nhw'n ei wario mewn wythnos nodweddiadol ar ofal plant (am dâl, oedd heb ei ariannu):

Y swm a nodwyd amlaf oedd £10.00-£49.00/yr wythnos gan 15% o'r holl rieni a ymatebodd.

Y wardiau oedd yn cyfrif am y nifer uchaf o rieni a nododd: £100.00 yr wythnos oedd Plymouth a'r Dref, sydd fel ei gilydd yn yr ardal ddaearyddol ganolog.

Gellir nodi y gofynnwyd i bob rhiant/gofalwr nodi a oedden nhw'n derbyn unrhyw gymorth at gostau eu gofal plant a bod...

- 11% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd wedi dweud: (ydw) elfen gofal plant Credyd Treth Gweithio/Credyd Cynhwysol
- 12% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd wedi dweud: (ydw) talebau Gofal Plant/Gofal Plant Di-dreth
- <1% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd wedi dweud: (ydw, y) Grant Gofal Plant i Fyfyrrwyr
- 0 o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd wedi dweud: (ydw) cyfraniad gan Gyflogwr

5.14 Gwahoddwyd pob rhiant/gofalwr a ymatebodd i nodi am faint o oriau roedden nhw'n defnyddio gofal plant, ar gyfartaledd, mewn wythnos nodweddiadol.

O'r rhieni hynny a ymatebodd i'r cwestiwn:

Yn ystod y tymor:

Nifer cyfartalog yr oriau a nodwyd gan rhieni/ofalwyr oedd yn byw ym Merthyr Tudful oedd 3.5/yr wythnos

Nifer yr oriau a nodwyd amlaf oedd 0/yr wythnos, gydag 15 awr/yr wythnos yn dilyn

Y wardiau oedd yn cyfrif am y cyfartaledd wythnosol uchaf (a nodwyd) oedd: Y Dref a Phenydarren

Yn ystod y gwyliau:

Nifer cyfartalog yr oriau a nodwyd gan rhieni/ofalwyr oedd yn byw ym Merthyr Tudful oedd 2.6/yr wythnos

Nifer yr oriau a nodwyd amlaf oedd 0/yr wythnos, gyda 20 awr/yr wythnos yn dilyn.

Y ward oedd yn cyfrif am y cyfartaledd wythnosol uchaf (a nodwyd) oedd: ward Plymouth

5.15 Gwahoddwyd rhieni/gofalwyr i nodi pa mor fodlon oedden nhw ar hyn o bryd ar eu sefyllfa gofal plant bresennol.

Tabl 18 - Lefelau boddhad


| Pa mor fodlon oedd rhiant/gofalwr: | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|------------------------------------|---|
| Bodlon iawn | 52% |
| Gweddol fodlon | 19.5% |
| Gweddol anfodlon | 3.5% |
| Anfodlon iawn | 2% |

| | |
|---------------------------|-------|
| (Wedi dweud) Amherthnasol | 7.5% |
| Heb ddweud | 12.5% |

Roedd y gyfran uchaf o'r rhieni/gofalwyr a nododd: Gweddol anfodlon neu Anfodlon iawn yn byw yn ward Plymouth, gan amlaf.

5.16 Gwahoddwyd yr holl rieni/ofalwyr a ymatebodd i nodi oedden nhw'n gallu siarad, darllen a/neu ysgrifennu Cymraeg.

Diagram 1 - Digwyddiad galluoedd yn y Gymraeg



Yn y pen draw, dywedodd 9% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn cyrchu gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, ac roedd y rhieni/gofalwyr hyn yn byw yn ward y Dref gan amlaf.

- 5.17 Gwahoddwyd pob rhiant/gofalwr a ddywedodd nad oeddent – yn hydref 2021 – yn defnyddio unrhyw ofal plant i nodi pam, gan gynnwys digwyddiad rhwystrau. Mae manylion pellach – gan gynnwys adborth ansoddol – ar y ddeinameg allweddol a’r ffactor yma i’w gweld yn Adran 15 o’r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn.

Tabl 19 - Amllder y rhesymau a nodwyd ynghylch pam nad oedd rhiant/gofalwr yn cael mynediad at ofal plant/cymorth gyda gofal plant

| Rhesymau | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|--|---|
| Mae’r plentyn ar restr aros darparwr ac rydyn ni’n aros i le fod ar gael | 2.5% |
| Rwy’n defnyddio gofal plant anffurfiol fel aelod o’r teulu neu ffrind | 16.5% |
| Rwy’n dewis peidio defnyddio unrhyw ofal plant | 3% |
| Rwy’n rhiant sy’n aros gartre a does dim angen gofal plant arnaf fi | 8% |
| Mae fy mhlant yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain | <1% |
| Does dim gofal plant o safon ddigonol | 1.5% |
| Does dim darpariaeth addas yn y Gymraeg | 1.5% |
| Dim darpariaeth addas yn ein hiaith ni, sef iaith heblaw’r Gymraeg neu’r Saesneg | 0 |
| Nid yw’r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion | 4% |
| Mae cost gofal plant yn rhy ddrud | 13% |
| Mae amserau gofal plant yn anaddas | 3.5% |
| Does dim gofal plant ar gael sy’n addas ar gyfer oedran fy mhientyn | 2% |
| Mae problem o ran trafndiaeth | 2% |
| Does dim gofal plant lle mae angen hynny arnaf fi | 2.5% |
| Does dim gofal plant sy’n gallu darparu ar gyfer anghenion penodol fy mhientyn | 3% |
| Rwy’n defnyddio gofal plant ar sail ad hoc yn unig, ac mae’n amhosibl cynllunio | 4% |
| Arall | 10.5% |

Yr ymateb Arall gan amlaf oedd: rwyf ar gyfnod mamolaeth. Un ymateb a nodwyd sawl tro oedd: mae cost gofal plant yn rhy ddrud, a nodwyd hynny amlaf gan rieni/ofalwyr oedd yn byw yn ward y Dref.

- 5.18 Gwahoddwyd yr holl rieni/ofalwyr a ymatebodd i nodi i ba raddau roedden nhw'n cytuno neu (yn lle hynny) yn anghytuno â detholiad o osodiadau ynghylch darpariaeth gofal plant.

Tabl 20 - Meddyliau cyffredinol rhieni ynghylch agweddau ar ofal plant yn ardal leol Merthyr Tudful


| Gosodiad | Cytuno'n Bendant | Tueddu i Gytuno | Tueddu i Anghytuno | Anghytuno'n Bendant | Amherthnasol i fi |
|--|------------------|-----------------|--------------------|---------------------|-------------------|
| Rwy'n fodlon ar fy ngofal plant yn ystod y tymor | 48% | 19% | 5% | 4.5% | 23% |
| Rwy'n fodlon ar fy ngofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol | 6% | 14% | 6.5% | 39% | 34.5% |
| Mae safon gofal plant yn uchel | 44% | 2% | 3.5% | 4% | 46.5% |
| Mae dewis da o ofal plant yn fy ardal i | 13% | 22% | 17% | 22% | 26% |
| Mae gofal plant wedi'i leoli'n dda | 32% | 23% | 11% | 6.5% | 27.5% |
| Mae gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlentyn | 37.5% | 22% | 5% | 6.5% | 29% |
| Byddwn i'n hoffi i'm plentyn fynychu mwy o ofal plant Eofrestredig | 21% | 24% | 13% | 5.5% | 36.5% |
| Mae gofal plant yn rhy ddrud | 47% | 18% | 6.5% | 1.5% | 27% |
| Byddai'n well gen i ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer gofal plant | 17% | 19% | 22% | 5.5% | 36.5% |
| Mae gen i broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n annibynadwy | 8% | 6% | 13.5% | 19% | 53.5% |
| Mae gofal plant yn fy rhwystro rhag cael mynediad i gyflogaeth a hyfforddiant | 21% | 12% | 12% | 12.5% | 42.5% |
| Rwy'n gwybod ble mae cael gwybodaeth am ofal plant | 26% | 23% | 16% | 12.5% | 22.5% |
| Rwy'n gwybod ble mae cael gwybodaeth am gymorth ariannol | 16% | 18% | 23% | 21% | 22% |

Nodwyd yr ymateb *cytuno'n bendant*: mae gofal plant yn rhy ddrud, amlaf gan rieni/ofalwyr oedd yn byw yn ward y Dref a ward Penydarren. Nodwyd yr ymateb – *cytuno*: mae gofal plant yn fy rhwystro rhag cael mynediad i gyflogaeth neu hyfforddiant, amlaf gan rieni/ofalwyr oedd yn byw yn ward Plymouth.

- 5.19 Ar thema debyg, gwahoddwyd rhieni/gofalwyr i nodi a oedd materion cysylltiedig â gofal plant wedi effeithio arnyn nhw neu [unrhyw] bartner yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: nododd 32% fod gofal plant wedi: achosi problemau yn y gwaith; nododd 12.5% fod gofal plant wedi: eu hatal rhag parhau mewn gwaith; nododd 17% fod gofal plant wedi: eu hatal rhag gweithio/cael swydd; nododd 9.5% fod gofal plant wedi: eu hatal rhag cael mynediad i hyfforddiant.

5.20 Cafwyd ymateb allweddol olaf gan rieni/ofalwyr i'r cwestiwn: *Ydych chi'n rhagweld y bydd angen mwy neu lai o ofal plant arnoch chi yn ystod y blynyddoedd nesaf?*

Diagram 2 - Ystyried a fydd mwy neu lai o ofal plant yn cael ei gyrchu yn ystod y 2 flynedd nesaf



Roedd y rhieni/gofalwyr hynny a nododd: Mwy, gan amlaf yn byw yn ward y Gurnos, gyda ward Cyfarthfa'n dilyn o ran amllder. Y tri math o ofal plant *ffurfiol* lle nododd rhieni 'Mwy' yn eu cylch amlaf oedd:

1. Meithrinfa Ddydd Breifat (20% o'r holl rieni a ymatebodd)
2. Clwb ar ôl Ysgol (17%)
3. Clwb Brecwast/Cyn Ysgol (16%)

6 Canlyniadau'r Ymgynghori â Rhanddeiliaid

Mae Canllawiau Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant Llywodraeth Cymru 2016 yn rhoi cyfarwyddyd y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori â rhanddeiliaid lleol a sefydliadau partner i ganfod eu persbectif ar flaenoriaethau sy'n cyd-fynd â sicrhau digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal. Dylai'r rhanddeiliaid hyn gynnwys cyrff troswaol cenedlaethol sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gynorthwyo'r awdurdod lleol, h.y.: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

O ganlyniad, mae Adran 7 o Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Merthyr Tudful 2022 yn amlinellu adborth a dderbyniwyd trwy gyfres o e-gyfweliadau rhithwir gyda rhanddeiliaid allweddol, partneriaid a gweithwyr proffesiynol ddiwedd 2021 a dechrau 2022, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

- Cwlwm, a roddodd adborth ar ran: Mudiad Meithrin; Blynyddoedd Cynnar Cymru; Clybiau Plant Cymru Kids Clubs; Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru) a PACEY Cymru
- Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg
- Tîm Cyflogadwyedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Tîm Datblygu Economaidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Tîm Plant ac Anabledd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Teuluoedd yn Gyntaf Merthyr Tudful – Iechyd Meddwl Pobl Ifanc
- Cynrychiolwyr gwasanaethau chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Hwb Cymunedol y Twyn
- Hwb Cymuned Gymreig Merthyr Tudful
- Merthyr Tudful Actif
- Pontio'r Bwlch/Bridging the Gap¹²
- Tîm Ymwelwyr Iechyd Merthyr Tudful
- Canolfan Byd Gwaith Merthyr Tudful

¹² Gweler: <https://www.autism.org.uk/directory/b/bridging-the-gap>

6.1 Cryfderau canfyddedig: gofal plant yn ardal leol Merthyr Tudful

- 6.1.1 Roedd partneriaid yn gyson yn canmol ac yn siarad o blaid rôl yr Awdurdod Lleol, yn arbennig eu parodrwydd i ymateb yn ystod pandemig COVID-19, eu rôl o ran dyrannu grantiau ar thema cynaliadwyedd, a'u cefnogaeth ymroddedig i'w partneriaid a'r sector gofal plant.
- 6.1.2 Amlinellodd tri phartner sut byddai gweithredu'r côd Anghenion Dysgu Ychwanegol (newydd)¹³, a ddylai gychwyn o ddifri ddechrau 2022, yn gam cadarnhaol ar gyfer plant a theuluoedd o'r fath ar draws Merthyr Tudful, yn bennaf oherwydd eu bod nhw'n credu y byddai mwy o weithio ar y cyd, strwythur mwy systematig a mwy o ddarparu adnoddau penodol ar thema ADY.
- 6.1.3 Roedd un partner o'r farn bod cynnydd wedi digwydd yn ardal leol Merthyr Tudful wrth i'r rhai oedd yn gweithio oriau shifftiau gael eu cefnogi mewn ffordd well trwy fath penodol o fenter gweithio hyblyg: sef bod rhai cyflogwyr lleol (ac yn Ne-orllewin Cymru) yn dechrau ystyried gweithredu patrymau shifftiau hwylus i rieni (neu fel y dywedid weithiau 'i blant'), fel bod modd gollwng plant yn yr ysgol/eu casglu oddi yno. Ochr yn ochr â hyn, amlygodd yr Adran Gwaith a Phensiynau sut roedden nhw wedi bod yn cydweithio'n agos â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Dinas Casnewydd (a Wilko yn lleol) a Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun bysiau fflecsi ¹⁴ sy'n darparu trafndiaeth i'r rhai sydd angen hynny gyrraedd ystadau diwydiannol tu allan i'r dref ar gyfer amserau cychwyn patrymau shifftiau cynnar. Cyflwynwyd y cynllun ym mis Gorffennaf 2021, ac i bob golwg mae adolygiadau'n parhau i ystyried lleoliadau eraill yn Ne-ddwyrain Cymru (megis Merthyr Tudful), gydag uchelgais o sicrhau bod lleoliadau fel Merthyr Tudful 'yn cyrraedd y gwaith' trwy "*addasu'r ffordd orau o gefnogi patrymau shifftiau*".

¹³ Gweler tudalen 6 am gamau Ionawr 1^{af} 2022 yn: <https://gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2021/12/5/1639744540/implementing-additional-learning-needs-and-education-tribunal-wales-act-2018-practitioner-guide.pdf>

¹⁴ <https://www.newport.gov.uk/en/Council-Democracy/News/articles/2021/July-2021/New-fflecsi-bus-services-reaching-across-Newport.aspx>

6.2 Meysydd canfyddedig ar gyfer gwelliant: gofal plant yn ardal leol Merthyr Tudful

6.2.1 Cynnig dau o'r partneriaid oedd bod gofyn (yn eu barn nhw) meddwl yn fwy strategol ynghylch cefnogaeth well/y gefnogaeth orau i deuluoedd o gefndiroedd a chymunedau difreintiedig unwaith byddai plentyn/plant wedi symud allan o'r ystod oed 3-4 oed – a hynny o ran teuluoedd/rhieni oedd yn byw mewn cymunedau (cymwys) Dechrau'n Deg a'r rhai oedd yn byw tu allan i gymunedau o'r fath, hyd yn oed os oedd hynny'n golygu ehangu cwmpas cyllid a glustnodwyd ar gyfer Dechrau'n Deg. Gellir nodi hefyd fod partner arall o'r farn ei bod yn bwysig na ddylai'r teuluoedd hynny oedd yn cael mynediad i raglen Dechrau'n Deg (gan gynnwys yr elfen gofal plant) fynd yn orddibynnol arni, ac na ddylai gael yr effaith o ddileu eu cymhelliad o ran uchelgais a gorwelion, gan gynnwys eu hagwedd at gyflogaeth bosibl.

Ar ben hynny, ar thema rhaglen Dechrau'n Deg – ailadroddwyd y term 'loteri côd post', yn arbennig yng nghyswllt teimlad o degwch ymhlith teuluoedd a rhwystredigaeth ynghylch sut roedd rhai teuluoedd a allai elwa o'r rhaglen – a'r elfen gofal plant oedd yn rhan ohoni – yn 'colli cyfleoedd'.

6.2.2 Roedd adborth amrywiol ynghylch sut mae gofal plant wedi effeithio ar un o themâu allweddol cyflogadwyedd. Amlygodd rhai gweithwyr proffesiynol fetreg oedd yn dangos – yn eu profiad nhw – nad oedd mater gofal plant wedi effeithio'n amlwg ar allu rhieni i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a/neu gyfleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, roedd achosion mwy mynych o weithwyr proffesiynol a phartneriaid, sydd hefyd yn dod i gysylltiad rheolaidd â theuluoedd, yn amlinellu sut roedden nhw wedi gweld rhieni'n sôn am ofal plant addas (a fforddiadwy, ffurfiol) fel rhywbeth oedd yn eu rhwystro rhag cael mynediad i gyflogaeth, astudio neu gyfle hyfforddi. Disgrifiodd un partner o'r fath hyn fel *"derbyn ymholiadau gan rieni sy'n cael trafferthion oherwydd gwaith"*.

Yn yr un modd amlygodd dau bartner sut (yn eu barn nhw, mewn geiriau cyfatebol) *"mae'n bosib bod swyddi isafswm cyflog ym Merthyr Tudful yn cael eu gweld fel rhai anymarferol i'w hystyried oherwydd y posibilrwydd o orfod talu tuag at ofal plant"*.

Roedd un partner oedd yn gweithio yn y sector cyflogaeth yn credu bod problem lle gallai diffyg gofal plant tu allan i 8am – 6pm fod yn achosi 'bwlch' yn y farchnad lafur leol nad oedd modd ei lenwi ond trwy wella'r proffil neu hygyrchedd y ddarpariaeth trwy fabwysiadu agwedd fwy hyblyg o ran oriau 'agor'. Amlygodd partner arall oedd yn gweithio yn y sector cyflogaeth a hyfforddiant ddealltwriaeth eu sefydliad fod *"rhai"* gweithwyr proffesiynol o'r gweithlu gofal plant wedi gadael y sector hwnnw i weithio mewn dau sector arall penodol: 1. Y sector manwerthu a 2. Y sector lletygarwch, oherwydd eu bod yn gallu ennill cyflog uwch mewn galwedigaethau o'r fath.

Credai un partner y gellid yn ddelfrydol roi pwyslais mwy amlwg ar annog pobl ifanc i weithio yn y sector gofal plant lleol ei hun, gan gynnwys pan fydden nhw'n gadael Coleg Merthyr Tudful â chymhwyster perthnasol, i atal pobl ifanc uchelgeisiol o'r fath rhag cael eu denu gan atyniadau canfyddedig sectorau eraill.

- 6.2.3 Dewisodd pedwar partner yr ymgynghorwyd â nhw amlygu heriau oedd yn gysylltiedig â gofal plant addas ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Amlinellodd un partner o'r fath ganfyddiad bod:

'Teimlad' ym Merthyr... bod diffyg darparwyr/darpariaeth gwasanaeth a fyddai'n addas ar gyfer plant ag anabledau corfforol. Mae'r gwasanaethau cyfredol sydd ar gael yn gyfyngedig, dydyn nhw ddim yn hyblyg, ac yn aml byddan nhw'n cau yn ystod gwyliau'r ysgol pan fo'r angen mwyaf am eu cymorth''.

Credai tri phartner fod gofal plant y tu allan i'r ysgol – er gwaethaf y rôl proffil uchel a gwaith un darparwr sefydledig – yn faes darpariaeth i ardal leol Merthyr Tudful a allai gael ei wella, yng ngoleuni'r ffaith bod y pandemig wedi cael effaith ar lesiant rhai plant a bod plant y nodwyd bod ganddynt ADY *"wedi bod yn cael eu gadael ymhellach ar ôl"* yn ystod y pandemig (yng ngeiriau un partner o'r fath).

- 6.2.4 Ailadroddodd dau bartner eu canfyddiad bod yna raddau o eglurder ac amlygrwydd (yn eu barn nhw) i leoedd gofal plant a ariannwyd a chyllid ar gyfer gofal plant, iddyn nhw ac o bosib i deuluoedd; ac roedden nhw'n ystyried yn gyffredinol bod lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg yn gynnig cymharol glir, bod y Cynnig Gofal Plant yn *weddol* glir, a bod Gofal Plant Di-dreth yn gymharol aneglur.

- 6.2.5 Amlygodd tri phartner eu canfyddiad bod gofal plant y tu allan i'r ysgol yn ardal leol Merthyr Tudful mewn gwirionedd yn troi cryn dipyn o gwmpas ysgolion (o ran clybiau ar thema ysgol), ac y gallai unrhyw ddarpariaethau newydd a ddatblygid mewn gwirionedd fabwysiadu ffocws ar y garfan oed uwchradd – i bob pwrpas er mwyn archwilio ymhellach adnoddau a allai gynnig gweithgareddau traddodiadol (heb fod mewn ysgol) i'w cyflawni y tu allan i'r ysgol – yn ôl y galw a nodwyd. Ar thema gysylltiedig, amlygodd tri phartner hefyd sut y dylid sicrhau nifer mwy o weithgareddau gofal plant y tu allan i'r ysgol a chlybiau (heb fod yn yr ysgol) yn yr ardal leol yn eu barn (anecdotaidd neu reng flaen) nhw, eto gyda'r garfan ar drothwy'r arddegau yn cael ei nodi fel blaenoriaeth ar gyfer ehangu darpariaeth o'r fath. Gwnaeth un partner osodiad oedd yn cynrychioli barn pobl eraill wrth ddweud bod *"gofal plant y tu allan i'r ysgol yn yr ysgol fel petai wedi 'diflannu' ers y pandemig"*.

- 6.2.6 Mae pedwar darparwr gofal plant Cymraeg yn gweithredu yn ardal leol Merthyr Tudful. Amlygodd dau bartner *"ymdeimlad"* [anecdotaidd] fod argaeledd gofal plant wedi lleihau (o ran nifer y lleoedd a'r darparwyr) ers yr Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant blaenorol yn 2017. Fe wnaethon nhw esbonio mai dyma oedd eu *"teimlad"* a'i fod yn gysylltiedig â phroffesiwn gwarchod plant yn arbennig. Esboniodd PACEY Cymru

eu bod yn croesawu'r cyfle i barhau i weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i hyrwyddo gwarchod plant fel opsiwn gyrfa, ac y byddent eto yn parhau i geisio cynyddu nifer y gwasanaethau gwarchod plant Cymraeg a dwyieithog yn lleol. Amlinellodd y sefydliad hefyd sut bydden nhw'n croesawu'r cyfle i barhau i weithio gyda'r Awdurdod Lleol i hyrwyddo'r cymorth a'r hyfforddiant o ran datblygu'r iaith Gymraeg sydd ar gael i warchodwyr plant cofrestredig.

Esboniodd cynrychiolwyr PACEY Cymru hefyd sut roedd eu sefydliad yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, Canolfan Byd Gwaith, PaCE, Gyrfa Cymru ac asiantaethau eraill i greu diddordeb a chynyddu recriwtio er mwyn dod yn warchodwr plant sydd *"nid yn unig yn darparu opsiynau gofal plant ehangach i deuluoedd yn eu hardal leol ond yn cefnogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith"...*

- 6.2.7 ...Ymhellach ar thema'r proffesiwn gwarchod plant, amlinellodd cynrychiolwyr PACEY Cymru eu pryder ynghylch dirywiad cyffredinol mewn niferoedd gwarchod plant ar draws Cymru, a bod ganddynt ymwybyddiaeth – trwy eu gwaith mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – bod nifer *"isel iawn"* o warchodwyr plant yn yr ardal leol. Eu hadborth penodol oedd *"rydyn ni'n deall bod angen cynyddu nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig, gan gynnwys gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal honno. Mae PACEY Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwarchod plant fel dewis gyrfa ac opsiwn gofal plant i deuluoedd er mwyn cefnogi cynaliadwyedd, nifer y gwarchodwyr plant ac argaeledd dewis o ofal plant i rieni. Rydyn ni wedi cwrdd â'r awdurdod lleol i drafod gweithio mewn partneriaeth ar y nod hwn, ac rydyn ni'n croesawu'r cyfle i barhau â'r dull hwn o weithredu mewn partneriaeth i hyrwyddo gwarchod plant"*.

Amlinellodd PACEY Cymru sut roedden nhw wedi cefnogi recriwtio gwarchodwyr plant Cymraeg/dwyieithog ym Merthyr Tudful. Mewn perthynas â'r gwaith hwn, roedd yn amlwg bod PACEY Cymru wedi estyn allan at y Fenter Iaith ac asiantaethau eraill i greu diddordeb a chynyddu'r recriwtio i fod yn warchodwr plant yn y gymuned Gymraeg ei hiaith/dysgwyr Cymraeg, gyda'r nod o ddarparu opsiynau gofal plant ehangach ar gyfer teuluoedd Cymraeg eu hiaith yn eu hardal leol.

- 6.2.8 Rhoddodd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Merthyr Tudful (gweler: <https://www.merthyrfis.org/>) adborth oedd yn dangos bod ei ymholiadau yn 2021 yn tueddu i ganolbwyntio'n gyson ar ofal plant y tu allan i'r ysgol, yn arbennig argaeledd darpariaeth clwb brechwast a darpariaeth clwb ar ôl ysgol. Dilynwyd y rhain o ran amllder gan ymholiadau oedd yn canolbwyntio ar fodolaeth gwarchodwyr plant oedd yn gallu gollwng plant yn yr ysgol a'u casglu ar ôl diwrnod ysgol, ac roedd elfen o gysylltiad rhwng yr holl ymholiadau perthnasol hyn a gofal di-fwlch.

6.3 Gweithredu/blaenoriaethau strategol canfyddedig: gofal plant yn ardal leol Merthyr Tudful

- 6.3.1 Amlygodd tri phartner yr hyn roedden nhw'n ei weld fel blaenoriaeth, sef bod sector gwarchod plant ardal leol Merthyr Tudful yn cael ei "*adfywio*" yn unol â dealltwriaeth bod nifer o warchodwyr plant sefydledig yn nesáu at oed a sefyllfa lle gallen nhw (hefyd) fod yn ystyried ymddeol.
- 6.3.2 Amlinellodd dau bartner eu canfyddiad y gellid gwella argaeledd y ddarpariaeth gwarchod plant ffurfiol ar y penwythnosau. Roedden nhw'n cysylltu'r ystyriaeth hon â'r ffaith eu bod yn credu y gallai diffyg opsiynau gofal plant ffurfiol ar adegau o'r fath fod yn atal rhai rhieni rhag cael cyflogaeth yn y sector manwerthu ar Sadwrn a/neu Sul – i bob pwrpas, yn llesteirio'u cyflogadwyedd.
- 6.3.3 Cynigiodd un partner y gallai'r Adran Gwaith a Phensiynau a phrosiectau partner fel Gofal Plant a Chyflogaeth Rhieni (PaCE) a Chymunedau dros Waith (CfW) gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth perthnasol i bobl oedd am weithio yn y sector gofal plant, gan lunio cwrs hyfforddi parhaus i helpu i (ad)lenwi unrhyw fylchau oedd yn dod i'r amlwg yn y gweithlu. Awgrymodd partner arall fod angen cyflwyno pobl ifanc i'r posibilrwydd o yrfae fel gweithwyr gofal plant a chwarae proffesiynol pan oedden nhw yn eu harddegau cynnar, ac y dylai honno fod yn uchelgais strategol y gallai'r awdurdod lleol helpu i roi momentwm iddi.
- 6.3.4 Amlinellodd dau bartner sut roedd COVID-19, yn eu profiad nhw, yn wir wedi cael effaith ar ddatblygiad a ffordd o fyw rhai plant, gan gynnwys o ran gweithgareddau corfforol a chwaraeon y tu allan i'r ysgol. Roedd un partner o'r farn bod angen ailsefydlu'r ffocws ar fyw'n iach a llesiant plant oedd yn bodoli cyn COVID, yn arbennig mewn cysylltiad â'r (nifer cynyddol o) cyfleoedd yn ystod gwyliau'r ysgol ac i roi sylw i'r posibilrwydd bod rhai teuluoedd yn llithro i ffyrdd disymud o fyw. Yn wir, crewyd cysylltiad rhwng effeithiau COVID-19 ar gyfraddau gordewdra yn ystod plentyndod a sut roedd gan y sector gofal plant tu allan i'r ysgol yn ardal Merthyr Tudful rôl i'w chwarae i ymdrin â'r mater yma. Credai partner arall fod bwch posibl o ran y cyfleoedd ar thema gweithgarwch corfforol i'r grŵp oed 10-12 oed "*ar drothwy'r arddegau*" o ran beth oedd ar gael ac yn hygyrch yn ardal leol Merthyr Tudful. Mewn cyferbyniad diddorol, credai un partner y dylai gofal plant fel sector, gan gynnwys gweithgareddau gofal plant y tu allan i'r ysgol, archwilio i ba raddau gallai ddod yn "*fwy medrus o ran technoleg*" er mwyn cynnal diddordeb plant mewn mynd i glybiau gwyliau, cynlluniau chwarae a chlybiau/darpariaethau tu allan i'r ysgol sydd heb fod mewn ysgolion.

6.4 Canlyniadau'r Ymgynghori â Phobl Ifanc

Yn gynnar yn 2022, comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ymgynghoriad meintiol ac ansoddol gyda phlant a phobl ifanc sy'n byw ar draws y sir ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a phrosiect cysylltiedig: cynhyrchu Asesiad Digonolrwydd Chwarae, y mae cyfarwyddyd bod holl awdurdodau lleol Cymru i'w gynhyrchu, yn debyg i'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Roedd yr ymgynghoriad meintiol yn ymgorffori cwestiynau penodol sy'n gysylltiedig â thema gofal plant y tu allan i'r ysgol, a'r enw arno oedd Arolwg Chwarae Mawr Disgyblion Ysgolion Cynradd. Ymatebodd cyfanswm o 454 o blant 5-17 oed i'r arolwg, a chrynoir eu hadborth (perthnasol i'r ddogfen hon) isod.

6.4.1 Mae Tabl 21 isod yn amlinellu pa mor aml roedd y garfan hon o blant a phobl ifanc yn dweud eu bod yn cael mynediad i fath penodol o ofal plant tu allan i'r ysgol – nad oedd wedi'i leoli mewn ysgol roedden nhw'n ei fynychu.

Tabl 21 – Amllder defnydd mathau o ofal plant tu allan i'r ysgol

| Math o ofal plant tu allan i'r ysgol (heb fod mewn ysgol leol) | Canran yn cael mynediad iddo |
|---|---------------------------------|
| Clwb ar ôl Ysgol | 8% |
| Clwb Brecwast | 3% |
| Clwb Gwyliau | <1% |
| Gwarchodwr Plant | <1% |
| Dim o'r uchod | 88% |

Mae Tabl 21 yn dangos, pan fyddai plentyn 5-17 oed oedd yn byw ym Merthyr Tudful yn dweud eu bod yn cael mynediad i fath o ofal plant ffurfiol tu allan i'w hysgol – clwb ar ôl ysgol oedd hynny gan mwyaf.

Roedd 40% o'r holl ymatebwyr yn cael mynediad i fath o ofal plant tu allan i'r ysgol yn yr ysgol roedden nhw'n ei mynychu: boed hynny'n glwb ar ôl ysgol, yn glwb brecwast, a/neu'n gynllun chwarae yn ystod y gwyliau.

6.4.2 Gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc a fu'n cyfranogi a oedden nhw byth yn derbyn gofal plant anffurfiol gan ffrindiau a theulu pan nad oedden nhw yn yr ysgol.

Tabl 22 – Amllder defnydd mathau o ofal plant anffurfiol cysylltiedig â'r teulu

| Math o ofal plant anffurfiol | Canran y plant a'r bobl ifanc sydd i weld yn derbyn hyn |
|------------------------------|---|
| Tadcu/Mamgu | 60% |
| Brawd neu chwaer hŷn | 26.5% |
| Rhywun arall yn fy nheulu | 33% |
| Ffrindiau i'm rhieni | 17% |
| Cymdogion i'm rhieni | 6% |

6.4.3 Gwahoddwyd yr holl blant a phobl ifanc i nodi pa fathau o weithgareddau a chlybiau roedden nhw'n eu hoffi orau pan nad oedden nhw yn yry ysgol. Er bod tuedd i'r ymatebion i'r thema hon ymwneud â chwarae, mae'n werth nodi mai'r pum gweithgaredd a nodwyd amlaf gan y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd oedd:

- Mynd allan a threulio amser gyda ffrindiau (46%)
- Pêl-droed (28%)
- Gweithgareddau chwaraeon eraill (20%)
- Rygbi (16%)
- Chwarae gêmâu cyfrifiadur (8.5%)

6.4.4 Gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc sut bydden nhw'n hoffi i bobl ymgynghori â nhw ar faterion a themâu fel gweithgareddau tu allan i'r ysgol. Dywedodd 37% o'r plant a'r bobl ifanc y bydden nhw'n hoffi mwy o ymgynghori ar-lein. Dywedodd 57% o'r plant a'r bobl ifanc y bydden nhw'n hoffi i ymchwilwyr ddod i'w hysgol i ymgynghori â nhw, a doedd 6% ddim yn siŵr.

6.4.5 Yn olaf, o ran perthnasedd, gofynnwyd i blant a phobl ifanc nodi sut roedden nhw'n teimlo erbyn hyn ynghylch mynd i leoedd a chlybiau, oherwydd COVID-19.

Tabl 23 – Plant a phobl ifanc a'u meddyliau ynghylch COVID-19

| Gosodiad | Canran y plant a'r bobl ifanc a ddywedodd hyn |
|--|---|
| Rwy'n poeni amdano fe – gallai wneud i fi feddwl ddwywaith am fynd i glybiau a gweithgareddau | 13% |
| Rydw i yn meddwl am y peth – ond fydd e ddim yn fy stopio rhag mynd i glybiau a gweithgareddau | 40% |
| Dydw i ddim wir yn meddwl am y peth | 47% |

6.5 Canlyniadau'r Ymgynghori ag Ysgolion a Choleg Merthyr Tudful

Cyfarwyddyd Canllawiau Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant Llywodraeth Cymru 2016 yw y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori â'u rhanddeiliaid lleol, ac y dylai hynny gynnwys ysgolion lleol a cholegau addysg bellach (os oes rhai) – yn achos yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn: Coleg Merthyr Tudful.

Yn ardal leol Merthyr Tudful, mae yna¹⁵:

- 21 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg
- 2 ysgol gynradd gyfrwng Gymraeg
- 3 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg
- 1 Ysgol Arbennig

Ym mis Ionawr 2021, gwahoddwyd yr holl ysgolion sy'n rhan o ardal Merthyr Tudful i gwblhau arolwg ar-lein oedd yn canolbwyntio ar thema gofal plant a barn ynghylch themâu penodol cysylltiedig â'r pwnc. Cyflwynodd cyfanswm o 17 o ysgolion (60%) ymateb, a chrynoir eu hadborth isod.

Tabl 24 - yr ysgolion a ymatebodd oedd:

| Ysgol | Ward |
|------------------------------|------------|
| Ysgol Gynradd Gwaunfarren | Penydarren |
| Ysgol Gymunedol Abercanaid | Plymouth |
| Ysgol Gymunedol Twynyrodyn | Y Dref |
| Ysgol Gynradd Dowlais | Dowlais |
| Ysgol Gymunedol Troedyrhiw | Plymouth |
| Ysgol Gynradd Gellifaelog | Penydarren |
| Ysgol Gynradd Coed-y-Dderwen | Cyfarthfa |

¹⁵ Mae bwriad i agor ysgol newydd Gatholig ddi-fwlch (3-16 oed) yn y Gurnos yn ystod cylch cynllunio'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

| | |
|--------------------------------------|--------|
| Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful | Y Dref |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Aloysius | Gurnos |

| Ysgol | Ward |
|-----------------------------|-----------|
| Ysgol Gynradd y Goetre | Gurnos |
| Ysgol Gynradd Edwardsville | Treharris |
| Ysgol Arbennig Greenfield | Plymouth |
| Ysgol Gynradd y Santes Fair | Y Dref |

6.5.1 Roedd adborth gan gynrychiolwyr o'r ysgolion a ymatebodd yn dangos mai clwb brecwast di-dâl yw'r math mwyaf cyffredin o ofal plant ffurfiol a leolir mewn ysgol yn ardal Merthyr Tudful.

6.5.2 Gwahoddwyd holl gynrychiolwyr yr ysgolion (perthnasol) i nodi oedden nhw'n credu ei fod yn fuddiol (i'r ysgol) sicrhau gofal plant ar y safle: Dywedodd rhyw 50% o'r ysgolion fod hynny'n wir, gydag un yn unig yn nodi *nad oedden nhw'n cael hynny'n fuddiol*, ac mai dyna'r rheswm pam roedden nhw wedi gweithio gyda darparwyr gofal plant lleol i gychwyn gwasanaeth gollwng a chasglu. Ymhlith yr adborth arall penodol ar destun gofal plant ar y safle *roedd*:

"Mae'n gwneud y 'broses' ddi-fwlch yn haws i'r rhieni... ac mae'r disgyblion yn dod yn gyfarwydd â'r lleoliad".

"Mae'n rhoi mwy o opsiynau a chyfleuster i'n rhieni".

"Mae'r gofal plant ar y safle yn helpu i 'gadw disgyblion o'r ardal ddalgylch'. Fe wnaethon ni ystyried ehangu ein cyfleuster gofal plant cyn y pandemig ond 'doedd yr angen ddim yno' i'w wneud yn ariannol ddichonadwy".

"Mae'n helpu i ddatblygu cysylltiadau cynnar rhwng teuluoedd a'r ysgol".

6.5.3 Dim ond tri chynrychiolydd o ysgolion (yr oedd dau ohonynt yn ward Penydarren) ddywedodd fod COVID-19 wedi bod yn arwyddocaol o ran gallu eu gofal plant i weithredu, ac yn y ddau achos roedd hyn yn cyfeirio at glwb brecwast a/neu glwb ar ôl ysgol. Dywedodd un ymatebydd o'r fath *"nad oedd y clwb brecwast wedi agor am gyfnod o amser, gan ein bod ni'n teimlo mai'r peth gorau oedd gofalu nad oedd y disgyblion yn cymysgu"* – a rhoddodd ysgol arall ymateb tebyg wrth nodi *"roedd yn heriol oherwydd na allai'r disgyblion gymysgu"*.

6.5.4 I ddychwelyd at thema gollwng plant yn yr ysgol a'u casglu oddi yno, mae Tabl 25 yn dangos pa mor aml roedd darparwyr penodol yn gweithio gydag ysgol i roi hyn ar waith.

Tabl 25 - Pa mor aml roedd mathau penodol o ddarparwyr gofal plant ffurfiol yn trefnu i ollwng plant yn yr ysgol neu eu casglu oddi yno

| Math o ofal plant | Canran yr ysgolion a nododd eu bod yn gweithio gyda darparwr o'r fath i drefnu gollwng neu gasglu plant |
|-------------------------------------|---|
| Gwarchodw(y)r plant | 46% |
| Meithrinfa Ddydd/Meithrinfeydd Dydd | 53% |
| Cylch Chwarae/Cylch Meithrin | 6% |
| Ddim yn siŵr | 6% |
| Arall | 13% |

Tabl 26 - Achosion o gasglu a gollwng plant gan ddarparwyr gofal plant

| Enw'r Ward | Nifer y gwarchodwyr plant sy'n gollwng/casglu mewn ysgol(ion) yn y ward | Nifer y darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar sy'n gollwng/casglu mewn ysgol(ion) yn y ward | Cyfanswm yr achosion o ollwng/gasglu plant a drefnwyd mewn (nifer o) ysgolion |
|-------------|---|---|---|
| Bedlinog | 2 | 3 | 5 |
| Cyfarthfa | 2 | 5 | 7 |
| Dowlais | 1 | 2 | 3 |
| Gurnos | 0 | 3 | 3 |
| Bro Merthyr | 1 | 1 | 2 |
| Parc | 0 | 0 | 0 |
| Penydarren | 3 | 3 | 6 |
| Plymouth | 4 | 5 | 9 |
| Y Dref | 1 | 2 | 3 |
| Treharris | 4 | 4 | 8 |

| | | | |
|-------------------------|----|----|----|
| Y Faenor | 1 | 3 | 4 |
| Cyfanswm Merthyr Tudful | 19 | 31 | 50 |

6.5.5 Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr o ysgolion i nodi a oedd angen – yn eu barn/profiad personol – am fwy o fathau penodol o leoedd gofal plant yn eu hardal leol/gyfagos. Mae Tabl # yn cyflwyno eu hymatebion wedi’u crynhoi.

Tabl 27 - Pa mor aml roedd cynrychiolwyr yn credu’n bersonol bod ‘angen’ mwy o fathau o ofal plant yn ardal leol eu hysgol

| Math o ofal plant | Canran y cynrychiolwyr ysgol a ddywedodd bod angen | Canran y cynrychiolwyr ysgol a ddywedodd nad oedd angen | Canran y cynrychiolwyr ysgol a ddywedodd eu bod nhw ddim yn gwybod |
|-----------------------------------|--|---|--|
| Clwb ar ôl Ysgol | 66% | 0 | 34% |
| Meithrin Di-fwlch | 40% | 6% | 54% |
| Cylch Chwarae/Cylch Meithrin | 33% | 6% | 61% |
| Gofal Plant yn ystod y Gwyliau | 66% | 6% | 28% |
| Clwb Brecwast am ddim | 13% | 60% | 27% |
| Lleoedd gofal plant Dechrau’n Deg | 27% | 27% | 46% |

Mae Tabl 27 yn dangos y math o ddarpariaethau tu allan i'r ysgol lle roedd cynrychiolwyr ysgol yn credu (o ran barn bersonol) bod angen mwy o leoedd. Nodwyd hefyd fod ateb 'Ddim yn Gwybod' neu 'Nac oes' yn tueddu i ddigwydd droeon gan ysgolion yn ward Plymouth.

- 6.5.6 Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr ysgol i nodi a allai fod gan safle eu hysgol – hyd eithaf eu gwybodaeth – unrhyw fannau ar gael lle gellid o bosib sefydlu darpariaeth gofal plant newydd: atebodd 33% fod hyn ar gael (roedd 3 o'r ysgolion hyn hefyd yn ward Plymouth) gan ychwanegu at yr ymateb hwn, *fel a ganlyn*:

“Gellid defnyddio'r lle yn 'ddarpariaeth feithringar'. Ystafell ddosbarth yw hyn sy'n cael ei defnyddio ar ffurf amserlen ar hyn o bryd, yn lle ychwanegol i'n disgyblion Cyfnod Sylfaen. Mae'r gofod yn cynnwys mynediad i fuarth y Cyfnod Sylfaen ac mae o fewn cyrraedd i'r toiledau”.

“Byddwn i'n hapus i'm safle gael ei ddefnyddio'n lleoliad ar gyfer clwb ar ôl ysgol/gwyliau i blant a phobl ifanc ag ADY”.

Cadarnhaodd pawb o'r ymatebwyr a roddodd ateb cadarnhaol – gan gynnwys y cynrychiolwyr o dair ysgol yn ward Plymouth – y bydden nhw'n falch o dderbyn cyngor a chefnogaeth gyda datblygiad posibl o'r fath, gan gynnwys yng nghyswllt ad-drefnu ac osgoi dadleoli.

- 6.5.7 Gwahoddwyd holl gynrychiolwyr yr ysgolion i nodi a oedden nhw'n ymwybodol o fodolaeth Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Merthyr Tudful. Dywedodd 40% eu bod yn ymwybodol o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Merthyr Tudful – ac roedd yn amlwg nad oedd 60% yn ymwybodol ohono (gyda phob un o'r ysgolion yn ward Penydarren yn rhoi'r ateb hwn).
- 6.5.8 O ran Coleg Merthyr Tudful, cadarnhaodd cynrychiolwyr o'r feithrinfa ar y safle: Meithrinfa Ddydd *Here We Grow*, fod y coleg wedi cofrestru ydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac ar agor i fyfyrwyr, teuluoedd Dechrau'n Deg a'r holl blant yn y gymuned. Mae'n amlwg bod y feithrinfa yn cynnig lleoedd yn y coleg, a bod y ffioedd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol teulu. Wrth gofrestru ar gyfer cwrs Coleg, gall myfyriwr wneud cais am le yn y feithrinfa. Dyrannir y sesiynau i gyd-fynd ag amserlen y myfyriwr, a lle bo modd, bydd y feithrinfa hefyd yn cynnig sesiynau ar gyfer amser astudio. Ar ben hynny, mae'r feithrinfa yn hyrwyddo Gofal Plant Di-dreth, lleoedd y Cynnig Gofal Plant, y cynllun dechrau cynnar a sesiynau cefnogaeth lefel uwch.

6.6 Canlyniadau'r Ymgynghori â Chyflogwyr

Cyfarwyddyd Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn 2016 oedd y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori â chyflogwyr lleol, gan gynnwys cyflogwyr bach, canolig a mawr. Roedd yr uchelgais hon yn arbennig o bwysig ar gyfer Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022, o ystyried y newidiadau i sut roedd y farchnad lafur yn gweithredu o ganlyniad i bandemig COVID-19. Yn ei hanfod, gwelwyd yn genedlaethol gynnydd yn nifer y cyflogeion sy'n gweithio gartref/nad ydynt yn gweithio mewn gweithle/swyddfa penodol. Yn rhesymegol mae'r cynnydd hwn yn y nifer sy'n gweithio'n hyblyg gartref wedi golygu bod rhai rhieni/gofalwyr (hefyd) wedi bod yn darparu gofal plant yn eu cartref, yn arbennig yn achos plant cyn oed ysgol, yn hytrach na defnyddio darparwyr gofal plant ffurfiol, (yn arbennig) fel meithrinfa gofal dydd llawn neu warchodwr plant.

O ganlyniad, canolbwyntiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gasglu adborth gan ei sector cyflogaeth amrywiol, a bu'n hyrwyddo ac yn rhoi cyhoeddusrwydd eang i arolwg ar-lein.

Ymatebodd pum cyflogwr i'r arolwg hwn, yn amrywio mewn maint o'r awdurdod lleol, sy'n cyflogi 2,371 o bobl, a chartref gofal sy'n cyflogi 12 o bobl. Mae'r holl adborth gan y cyflogwyr a ymatebodd wedi'i grynhoi yn yr adran isod.

Ceir rhagor o fanylion am y farchnad lafur yn ardal leol Merthyr Tudful yn adran 11 o'r Asesiad hwn.

Yn ôl ystadegau a gyhoeddwyd gan NOMIS ym mis Medi 2021, mae'r fetreg ganlynol yn berthnasol i'r sector busnes yn ardal leol Merthyr Tudful¹⁶.

| Mentrau | Nifer ym Merthyr Tudful |
|-----------------------------|-------------------------|
| Micro 0-9 o gyflogeion | 1,175 |
| Bach 10-49 o gyflogeion | 125 |
| Canolig 50-249 o gyflogeion | 20 |
| Mawr 250+ o gyflogeion | 5 |
| Unedau Lleol | |
| Micro 0-9 o gyflogeion | 1,380 |
| Bach 10-49 o gyflogeion | 280 |
| Canolig 50-249 o gyflogeion | 45 |
| Mawr 250+ o gyflogeion | 10 |

6.6.1 Manylion logisteg allweddol ynghylch y cyflogeion a ymatebodd

Canran gyfartalog y cyflogeion benyw ym mhob sefydliad a ymatebodd oedd 64%, (a'r ganran uchaf oedd 100%.)

Canran gyfartalog y cyflogeion gwryw ym mhob sefydliad a ymatebodd oedd 36%, (a'r ganran uchaf oedd 82%.)

Mae Tabl 28 yn nodi canran y gweithluoedd cyflogwyr sydd (hyd eithaf eu gwybodaeth) â phlant 0-18 oed.

Tabl 28 - Canrannau'r gweithluoedd oedd â phlant 0-18 oed

| Dywedodd y cyflogwr, hyd eithaf eu gwybodaeth, mai dyma ganran eu gweithlu oedd â phlant 0 18 oed | Canran y cyflogwyr |
|---|--------------------|
| Dim | 0 |
| Hyd at 25% | 0 |
| Hyd at 50% | 0 |
| Hyd at 75% | 50% |
| Fy holl gyflogeion | 0 |
| Ddim yn gwybod | 50% |

¹⁶ Mae'r tabl yn ddadansoddiad o fusnesau ar lefel Menter ac Uned Leol. Menter yw'r cyfuniad lleiaf o unedau cyfreithlon (fel arfer wedi'i seilio ar TAW a/neu gofnodion PAYE) sydd â rhywfaint o ymreolaeth mewn Grŵp Menter. Yr enw ar safle unigol (er enghraifft ffatri neu siop) mewn menter yw uned leol.

Gwahoddwyd yr holl gyflogwyr o ardal leol Merthyr Tudful a ymatebodd i nodi a oedden nhw'n gweithredu/galluogi mathau penodol o oriau gwaith afreolaidd ar gyfer eu cyflogeion/gweithlu.

Tabl 29 - Nifer y cyflogwyr a ymatebodd oedd yn gweithredu mathau o drefniadau gweithio hyblyg

| Math o drefniant gweithio hyblyg | Canran o'r cyflogwyr sy'n ei gynnig |
|----------------------------------|-------------------------------------|
| Penwythnosau | 75% |
| Patrymau Shifftiau | 50% |
| Gwaith gyda'r hwyr ar ôl 6pm | 50% |
| Dros nos | 25% |
| Gweithio cyn 8am | 75% |
| Gweithio ar wyliau banc | 50% |
| Gweithio oriau blynyddol | 0 |
| Oriau blynyddol | 0 |
| Oriau cywasgedig | 25% |
| Rhannu Swydd | 0 |
| Oriau hyblyg | 25% |
| Rhan amser | 75% |
| Oriau yn ystod y tymor yn unig | 0 |
| Lleihau oriau yn wirfoddol | 0 |
| Egwyl gyrfa | 25% |
| Pythefnos 9-diwrnod | 0 |
| Arall/Erail | 0 |

Gwahoddwyd yr holl gyflogwyr a ymatebodd o ardal leol Merthyr Tudful i nodi a oeddent wedi gweld newid, yn ystod pandemig COVID-19, yn y ffordd mae eu cyflogeion yn defnyddio trefniadau gweithio hyblyg? Dywedodd 75% fod hynny wedi digwydd – a bod y newidiadau a welwyd yn cynnwys:

- Mwy o awydd i weithio gartref a gweithio oriau hyblyg, yn arbennig o amgylch amserau ysgol – ac yn yr un modd
- Galw cynyddol am weithio hyblyg i helpu gyda gofal plant

6.6.2 Barn pobl ynghylch gofal plant yn ardal leol Merthyr Tudful

Gwahoddwyd cynrychiolwyr cyflogwyr i nodi a oedd digon o ddarpariaeth gofal plant cofrestredig ffurfiol – yn eu barn bersonol – ar draws yr ardal leol.

Dywedodd 0 eu bod yn credu bod digon; dywedodd 50% eu bod yn credu nad oedd digon – a dywedodd 50% eu bod nhw ddim yn gwybod.

Gofynnwyd i'r cyflogwyr a ymatebodd: Pa mor aml byddwch chi'n profi problemau oherwydd nad yw cyflogeion yn parhau i weithio yn eich sefydliad ar ôl cyfnod mamolaeth/tadolaeth?

Yr ymateb a gafwyd amlaf oedd bod hyn yn digwydd weithiau – dywedodd 75% o'r ymatebwyr hynny.

6.6.3 Effeithiau COVID-19

Gwahoddwyd cynrychiolwyr y cyflogwyr i nodi a allen nhw gyferbynnu canran eu cyflogeion ym Merthyr Tudful a oedd yn gweithio gartref cyn y pandemig ac ar ôl y pandemig.

- Y ganran ar gyfartaledd oedd yn gweithio gartref cyn pandemig COVID-19 oedd 10% a'r;
- Ganran ar gyfartaledd oedd yn gweithio gartref ar ôl pandemig COVID-19 oedd 60%

Gofynnwyd i'r cyflogwyr a ymatebodd: Hyd eithaf eich gwybodaeth, a oes unrhyw rai o'ch cyflogeion sy'n rhieni wedi **stopio defnyddio gofal plant cofrestredig** (megis meithrinfa, gwarchodwr plant neu glwb ar ôl ysgol) o ganlyniad i COVID-19? Dywedodd 25% o'r cynrychiolwyr eu bod yn gwybod bod hynny wedi digwydd – a dywedodd 25%, yn eu profiad nhw, fod pandemig COVID-19, wedi'i gyfuno â heriau gofal plant, wedi bod yn *uniongyrchol* gyfrifol am un neu fwy o'u cyflogeion yn gadael eu swydd.

6.6.4 Cefnogaeth ariannol a gofal plant

Dywedodd 50% o gyflogwyr eu bod yn cynnig manteision cysylltiedig â gofal plant i'w cyflogeion, sef naill ai:

- Talebau gofal plant neu;
- Gymorth ariannol tuag at ofal plant


O ran gwybodaeth a chymorth ariannol:

- Dywedodd 0 o'r cyflogwyr eu bod yn rhoi gwybod i'w cyflogeion/gweithlu am raglen/leoedd gofal plant Dechrau'n Deg
- Dywedodd 50% o'r cyflogwyr eu bod yn rhoi gwybod i'w cyflogeion/gweithlu am y Cynnig Gofal Plant


Gwahoddwyd cynrychiolwyr cyflogwyr i nodi a oedden nhw'n ymwybodol o fodolaeth Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Merthyr Tudful. Dywedodd 25% eu bod (gan gynnwys, yn unol â'r disgwyl, gynrychiolwyr CBS Merthyr Tudful) – fodd bynnag, nododd 75% nad oeddent.

7 Dosbarthiad Daearyddol


7.1 Delwedd 1 – Lleoliad 24 o leoliadau/ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar – h.y. darparwyr gofal dydd llawn, darparwyr gofal dydd sesiynol a Chylchoedd Meithrin



7.2 Delwedd 2 – Lleoliad yr 8 gwarchodwr plant cofrestredig



7.3 Delwedd 3 – Lleoliad y 3 darparwr gofal plant y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol




8 Cynaliadwyedd

Mae COVID-19 wedi cael effaith amlwg ar y sector gofal plant ledled Cymru. Arweiniodd y pandemig yn naturiol at angen i bob math o ddarparwyr gofal plant, gan gynnwys y rhai ym Merthyr Tudful, ailwampio, gwerthuso ac addasu eu modelau busnes. Dadansoddir effeithiau pandemig COVID-19 yn fanylach yn Adran 10 (tudalennau 77-81) o'r Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn.

Mae'r naratif a'r dadansoddiad isod yn cyflwyno canlyniadau arolwg strwythuredig hydref 2021, gyda (37) o ddarparwyr gofal plant ar draws ardal leol Merthyr Tudful sy'n canolbwyntio ar thema cynaliadwyedd, gan gynnwys adolygiad o sut mae'n amlwg bod cyllid cynaliadwyedd wedi cynnal y sector.

8.1 Fel rhan o arolwg CBS Merthyr Tudful gyda darparwyr gofal plant yn hydref 2021, gwahoddwyd pob lleoliad i nodi a oedd eu busnes wedi profi (neu'n parhau i brofi) anawsterau o ganlyniad i COVID-19.


Diagram 3 - Digwyddiad anawsterau a brofwyd gan leoliadau/ddarparwyr grŵp o ganlyniad i COVID-19



Mae Diagram 4 yn dangos adborth cronol darparwyr/leoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a gofal plant tu allan i'r ysgol ynghylch digwyddiad unrhyw anawsterau neu heriau a brofwyd o ganlyniad i COVID-19. Y lleoliad oedd yn cyfrif am y nifer uchaf o achosion lle nododd

darparwr ‘colli refeniw/refeniw’n gostwng’ oedd ward Plymouth. Y lleoliad oedd yn cyfrif am y nifer uchaf o achosion lle nododd darparwr ‘effaith ar nifer y plant’ hefyd yn ward Plymouth.

Diagram 4 - Digwyddiad yr anawsterau oedd yn cael eu profi gan warchodwyr plant cofrestredig o ganlyniad i COVID-19



8.2 Gwahoddwyd holl ddarparwyr gofal plant ffurfiol CBS Merthyr Tudful i nodi beth fyddai'r *prif* effeithiau parhaus, yn eu barn nhw, ar eu busnes a'i **gynaliadwyedd** yn ystod y 12 mis nesaf, oherwydd COVID-19?

Y pum gosodiad a wnaed amlaf oedd (yn nhrefn amllder):

1. Pryderon ynghylch nifer y plant oedd yn cyrchu darpariaeth yn lleihau ymhellach
2. Pryderon ynghylch costau PPE (ac yn arbennig costau cysylltiedig â glanhau) yn parhau'n ffactor
3. Pryderon ynghylch recriwtio staff ac yn amlach *gollu* staff
4. Rhieni'n gyffredinol am gael "*llai*" o oriau
5. Pryderon ynghylch gorbryder staff mewn perthynas â COVID-19

8.3 Gan ganolbwyntio i ddechrau ar y sector mwyaf yn y Fwrdeistref, dim ond dau o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar (o'r 24) a ddywedodd yn hydref 2021 fod rhaid iddyn nhw newid eu model busnes o ganlyniad i bandemig COVID-19. Yn y ddau achos, yr addasiad oedd "*bod ar agor am lai o oriau*".

Wedi hynny, gwahoddwyd holl ddarparwyr gofal plant Merthyr Tudful i nodi a fydden nhw/a fyddai eu lleoliad yn elwa o gyngor, cefnogaeth a/neu hyfforddiant gyda modelu busnes tymor byr a/neu ganolig. Dywedodd 35% y bydden nhw, a:

- Dywedodd 27% y bydden nhw'n croesawu cefnogaeth, hyfforddiant a chynngor gyda strategaethau cynaliadwyedd a modelu busnes
- Dywedodd 21% y bydden nhw'n croesawu cefnogaeth, hyfforddiant a chynngor gyda marchnata traddodiadol
- Dywedodd 24% y bydden nhw'n croesawu cefnogaeth, hyfforddiant a chynngor gyda marchnata rhithwir

8.4 Dywedodd 25% o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar Merthyr Tudful fod ganddyn nhw ryw fath o gynllun(iau) i barhau i roi hwb o'r newydd i gynhyrchu incwm – cynlluniau a ailadroddwyd – yn ogystal â dychwelyd at lefelau llenwi cyn COVID-19, oedd:

- Mynd ar ôl polisi marchnata mwy egniol
- Newid o gynnig sesiynau i fodel Gofal Dydd Llawn

- 8.5 Gofynnwyd hefyd i bob un o ddarparwyr gofal plant ardal leol Merthyr Tudful mewn grwpiau/lleoliadau ffurfiol: oedd ganddyn nhw unrhyw gynlluniau/fwriadau i gynyddu eu capasiti/ddatblygu darpariaeth newydd yn ystod y 2 flynedd oedd i ddod? Nododd 22% fod ganddynt gynlluniau, ac o'u cyfuno roedd hynny'n creu cyfanswm o 47 lle newydd, y gellid eu categorio fel a ganlyn yn ôl y wardiau:

| Darparw(y)r Ward wedi'u lleoli yn y canlynol | Nifer y lleoedd newydd a gynigir gyda darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar | Nifer y lleoedd newydd a gynigir gyda darparwyr gofal plant tu allan i'r ysgol |
|--|--|--|
| Treharris | 5 | 10 |
| Y Faenor | 8 | 8 |
| Dowlais | 8 | - |
| Gurnos | 8 | - |
| Cyfansymiau | 29 | 18 |

- 8.6 Yn hydref 2021, dywedodd 7.5% o'r darparwyr gofal plant ffurfiol ym Merthyr Tudful: (a) darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant tu allan i'r ysgol, eu bod wedi cael mynediad i'r Cynllun Benthyciadau Amharu ar Fusnes oherwydd y Coronafeirws (COVID-19). Dywedodd 7.5% o'r darparwyr gofal plant ffurfiol ym Merthyr Tudful hefyd: (a) darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant tu allan i'r ysgol, eu bod wedi cael mynediad i'r Cynllun Benthyciadau Ymadfer wedi'r Coronafeirws. Roedd yr adborth a gafwyd *droeon* ynghylch y ddau gynllun yn cynnwys:


"Roedd y ddau yn hawdd cael mynediad iddynt..."

"... roedd y taliad o gymorth i gynnal ein busnes"

- 8.7 Fodd bynnag dywedodd (llawer mwy) 81% o ddarparwyr gofal plant cofrestredig Merthyr Tudful: (a) darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant tu allan i'r ysgol, eu bod wedi cael mynediad i'r Cynllun (allweddol) Cadw Swyddi yn ystod y Coronafeirws (CJRS).


8.8 Gofynnwyd i'r holl ddarparwyr gofal plant *perthnasol* (gweler 8.7 uchod): (a) darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant tu allan i'r ysgol pa mor hyderus oedden nhw yn hydref 2021 y bydden nhw'n medru cadw eu tîm cyfredol o staff o ganlyniad i ddod â'r Cynllun Cadw Swyddi yn ystod y Coronafeirws i ben.

Diagram 5 - Lefelau hyder ynghylch cadw staff



8.9 Yn dilyn hynny, mae Diagram 6 isod yn dangos yr ymatebion a gafwyd gan ddarparwyr gofal plant cofrestredig: (a) darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant tu allan i'r ysgol ynghylch cymhwysedd i dderbyn Cymorthdal/gwyliau Trethi Busnes oherwydd COVID-19.


Diagram 6 - Ymatebion gan leoliadau a grwpiau Merthyr Tudful ynghylch cymhwysedd i dderbyn Cymorthdal Trethi Busnes



Gellir nodi mai un yn unig o'r 24 darparwr gofal plant blynyddoedd cynnar a ymatebodd a ddywedodd eu bod yn ymwybodol bod y cynllun Cymorthdal Trethi Busnes wedi cael ei estyn am 3 blynedd hyd fis Mawrth 2025. Dywedodd y 23 arall nad oedden nhw'n ymwybodol o'r ffaith hon.

8.10 Amlygwyd thema ymwybyddiaeth o'r gallu i dderbyn grantiau cynaliadwyedd oedd yn deillio o Lywodraeth Cymru a CBS Merthyr Tudful gyda darparwyr gofal plant mewn lleoliadau.

Diagram 7 - Adborth ar ymwybyddiaeth o gymhwysedd i dderbyn grantiau cynaliadwyedd



Cafwyd adborth gan y darparwyr hynny a fu'n cyrchu grant – gan gynnwys o ran y cyfraniad at gefnogi cynaliadwyedd – ac roedd hynny'n cynnwys:

“Roedd system dda, ac roedd yn hawdd iawn cyrchu ein grant”.¹⁷

“Roedd yn hanfodol i helpu i gynnal ein busnes”.

¹⁷ Gan amlaf nododd y darparwr hyn fel grant 'awdurdod lleol'.

“Roedd y taliad yn gymorth mawr gyda chost PPE”.

8.11 Yn hydref 2021, gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i gadarnhau cyfnod o amser oedd yn cyfateb i'r cyfnod pryd yr oedden nhw'n disgwyl parhau i ddarparu gofal plant:

Diagram 8 - Ymatebion gan: (a) darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant tu allan i'r ysgol ynghylch am faint o amser roedden nhw'n disgwyl parhau mewn busnes





Diagram 9 - Ymatebion gan warchodwyr plant cofrestredig ynghylch faint o amser roedden nhw'n disgwyl parhau mewn busnes



8.12 Gwahoddwyd pob darparwr gofal plant cofrestredig i grynhoi manylion ynghylch cynlluniau yn ymwneud â **chynaliadwyedd** yn ystod y 18 mis nesaf (hyd at wanwyn 2023).

Tabl 30 - Digwyddiad cynlluniau cysylltiedig â thema cynaliadwyedd parhaus a chefnogaeth i deuluoedd, hyd at wanwyn 2023

| Cynyddu eich ffioedd am leoedd/darpariaeth y telir amdanynt? | | |
|---|-----------------------------------|---|
| Oes, cynlluniau ar waith = 38% | Dim cynlluniau, ond efallai = 33% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd = 29% |
| Gellir nodi bod pedwar <i>darparwr gofal plant blynyddoedd cynnar</i> yn ward Plymouth wedi nodi bod ganddynt gynlluniau ar waith. | | |
| Gwellar ddarpariaeth ymhellach ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol? | | |
| Oes, cynlluniau ar waith = 13% | Dim cynlluniau, ond efallai = 46% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd = 41% |
| Gellir nodi bod dau o'r tri <i>darparwr gofal plant blynyddoedd cynnar</i> a nododd fod ganddynt gynlluniau ar waith wedi'u lleoli yn ward Dowlais. | | |

| Estyn eich oriau agor? | | |
|--|-----------------------------------|---|
| Oes, cynlluniau ar waith = 4% | Dim cynlluniau, ond efallai = 17% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd = 79% |
| Gellir nodi bod dau o'r pedwar <i>darparwr gofal plant blynyddoedd cynnar</i> a nododd 'dim cynlluniau, ond efallai', wedi'u lleoli yn ward Penydarren. | | |
| Ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig? | | |
| Oes, cynlluniau ar waith = 13% | Dim cynlluniau, ond efallai = 17% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd = 70% |
| Unwaith eto, gellir nodi bod dau o'r pedwar <i>darparwr gofal plant blynyddoedd cynnar</i> a nododd 'dim cynlluniau, ond efallai', wedi'u lleoli yn ward Penydarren. | | |
| Helpu i ymateb yn well i anghenion gweithwyr shifftiau/rhai sy'n gweithio tu allan i oriau swyddfa nodweddiadol? | | |
| Oes, cynlluniau ar waith = 13% | Dim cynlluniau, ond efallai = 21% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd = 66% |
| Gellir nodi bod dau o'r tri <i>darparwr gofal plant blynyddoedd cynnar</i> a nododd fod ganddynt gynlluniau ar waith wedi'u lleoli ar echelin ddaeryddol Plymouth/Bro Merthyr. | | |

8.13 Yn ei hanfod, gwahoddwyd pob un o (gynrychiolwyr) y darparwyr gofal plant ym Merthyr Tudful i nodi beth byddai eu lleoliad yn ei groesawu fwyaf ar ffurf cefnogaeth, cyngor ac arweiniad **parhaus** gan CBS Merthyr Tudful yn ystod y flwyddyn i ddod, 2022. Y tri math o adborth a gafwyd fwyaf (yn nhrefn amllder) oedd:

1. Hyfforddiant, gan gynnwys ar gyfer datblygu dulliau o adrodd
2. Cefnogaeth farchnata i helpu i gynyddu lefelau llenwi
3. Cadw darparwyr yn ymwybodol ynghylch grantiau (cynaliadwyedd)

8.14 Roedd SASS (Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth) Gorffennaf 2021 hefyd yn rhoi cipolwg gwerthfawr yng nghyswllt thema cynaliadwyedd. Er enghraifft:

Dywedodd 58% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd eu bod wedi gorfod cau ar ryw adeg – hyd at y cyfnod dan sylw – o ganlyniad i COVID-19, a

Gwahoddodd Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) 2021 ddarparwyr gofal plant i ymateb i'r cwestiwn canlynol: *Oherwydd COVID, ydych chi'n gweithredu ar gapasiti llawn ar hyn o bryd?* Nododd 77% o ddarparwyr gofal plant: Ydyn, a nododd 23%: Nac ydyn.

- 8.15 *Yn olaf, yng nghyswllt thema cynaliadwyedd, gellir nodi bod 4 o wasanaethau gofal plant a chwarae wedi'u cofrestru ym Merthyr rhwng 1 Mawrth 2020 a 28 Chwefror 2022. Roedd un o'r rhain yn ofal tu allan i'r ysgol, a'r 3 arall yn ofal dydd llawn. Cafodd 11 o wasanaethau eu canslo rhwng yr un dyddiadau, un gofal y tu allan i'r ysgol, 2 gofal dydd llawn, 3 gofal dydd sesiynol a 5 gwarchodwr plant.*

9 Dadansoddiad Trawsffiniol

- 9.1 Dylid nodi mai ardal Awdurdod Lleol Merthyr Tudful sydd â'r boblogaeth leiaf yng Nghymru. Mae'r siroedd sy'n ffinio â hi yn cynnwys: Powys, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili.
O ganlyniad mae'n bwysig cymryd i ystyriaeth nifer y rhieni/gofalwyr sy'n byw yn ardal leol Merthyr Tudful sy'n cael mynediad i ofal plant mewn mannau eraill – ac fel arall.
- 9.2 Mewn ymateb i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021:
Ni ddywedodd 0 o'r rhieni a oedd yn amlwg yn byw yn ardal leol Merthyr Tudful eu bod wedi cael mynediad i le wedi'i ariannu mewn addysg gynnar mewn ardal awdurdod lleol arall. Ar ben hynny, ni ddywedodd 0 o'r rhieni a oedd yn amlwg yn byw yn yr ardal leol eu bod wedi cael mynediad i Gynnig Gofal Plant mewn ardal awdurdod lleol arall.
- 9.3 Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Merthyr Tudful yn parhau i feddu ar fanylion darparwyr gofal plant a darparwyr gwasanaeth yn ardal eu Hawdurdod Lleol, ac i gydweithio'n agos iawn â GGDau cymdogol; mae hefyd wedi cyfeirio teuluoedd at gymheiriaid mewn ardaloedd eraill.

10 COVID-19

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cydnabod effaith pandemig COVID-19 ar y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar yn lleol, yn arbennig o bersbectif cynaliadwyedd. Ar adeg cynhyrchu'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant mae'n amlwg bod effeithiau gwaethaf y pandemig yn dechrau mynd heibio sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yr ardal leol, sy'n tystio i'w wydnwch, ei statws, ac effeithiolrwydd ei waith i sicrhau iechyd a diogelwch teuluoedd a phlant. Mae hefyd yn ffaith bod gan CBS Merthyr Tudful rôl hyfyw a gweladwy (fel y gwelir o ymatebwyr darparwyr gofal plant i arolwg ategol yn hydref 2021 sydd wedi llywio'r ddogfen hon) wrth helpu i gynghori a chynnal y sector. Fodd bynnag, mae rhai elfennau'n parhau, ac awgrymodd rhai o'r partneriaid a'r rhanddeiliaid y cynhaliwyd cyfweiliadau gyda nhw ar gyfer yr ymchwil sydd wedi llywio'r Asesiad hwn, fod: (a) sector gwarchod plant Merthyr Tudful a; (b) sector gofal plant tu allan i'r ysgol Merthyr Tudful wedi cael trafferth ailsefydlu sefyllfa oedd yn cyfateb i ba mor weladwy ydoedd cyn mis Mawrth 2020 a'i gyfraniad i'r sector gofal plant ffurfiol.

Mae CBS Merthyr Tudful hefyd o'r farn ei fod yn bwysig i'r ddogfen hon gydnabod sut effeithiodd COVID-19 ar holl sector gofal plant a blynyddoedd cynnar y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, daeth dogfen gan Senedd y Deyrnas Unedig, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, *Impact of COVID-19 on early education and childcare*¹⁸ i'r casgliad bod:

- Pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y sector mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cau lleoliadau dros dro ac yn barhaol, llai o alw am leoedd gofal plant a heriau i'r gweithlu
- Roedd sefyllfa ariannol darparwyr gofal plant eisoes yn "wan" mewn sawl rhan o'r sector cyn y pandemig. Er gwaethaf cefnogaeth y llywodraeth i'r sector yn ystod COVID-19, mae cyfnodau ar gau a llai o alw wedi cynyddu'r pwysau ariannol ac mae 'rhanddeiliaid' wedi mynegi pryderon ynghylch effaith hirdymor y pandemig ar gynaliadwyedd ariannol
- Cyn y pandemig, roedd anawsterau hirdymor wrth recriwtio a chadw staff, yn arbennig staff â lefel uchel o gymwysterau. Gwaethydwyd hyn gan y pandemig, ac mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon y gallai hyn beryglu safon gofal plant yn y tymor hir
- Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod newidiadau o ran mynediad i ofal plant blynyddoedd cynnar wedi cael effaith ar blant cyn ysgol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a iechyd meddwl, datblygiad corfforol a pharodrwydd i fynd i'r ysgol.

¹⁸ <https://post.parliament.uk/impact-of-covid-19-on-early-childhood-education-care/>

- Mae effeithiau negyddol ar ddatblygiad a iechyd meddwl plant yn sgîl newidiadau mynediad i ofal plant blynyddoedd cynnar yn fwy tebygol yn achos plant difreintiedig (y mae nifer sylweddol ohonynt ym Merthyr Tudful) a phlant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledau (SEND), yn ogystal â phlant agored i niwed.

O ran y sector gofal plant yn benodol yng Nghymru, daeth adroddiad haf 2021: Sgyrsiau Cenedlaethol: gyda'r sector Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru, i gasgliad allweddol, sy'n berthnasol i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant ar draws Merthyr Tudful, sef bod: *“y sefyllfa ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yn teimlo'n ansicr iawn, mae'n amhosib gwybod a fydd y galw am ofal plant yn cynyddu'n fuan, neu a fydd diweithdra cynyddol a pharhau i weithio gartref yn arwain at ostyngiad yn y galw. Mae'r ansicrwydd hwn, ynghyd â straen uniongyrchol y pandemig, wedi dylanwadu ar forâl, er gwaethaf lefelau cymhelliad ac ymroddiad uchel y sector i'r plant maen nhw'n gweithio gyda nhw”*. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion, yr oedd yr ymatebion i'r ymchwil a wnaed i lywio Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Merthyr Tudful 2022 wedi'u cadarnhau, i amrywiol raddau, gan gynnwys y canlynol:

- Hoffai'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant gael eu gweld fel gweithwyr proffesiynol a bod yn gyfartal â rhannau eraill o'r gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant. Dylid ystyried parhau i hyrwyddo a chefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatblygu gweithlu gofal plant a gwaith chwarae medrus, gyda'r proffesiwn yn uchel ei barch ac yn cael ei gydnabod am ei rôl hollbwysig yn cefnogi datblygiad plant.
- Dylai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill allweddol ddarparu sicrwydd parhaus ac anogaeth i weithwyr gofal plant proffesiynol bod eu llesiant corfforol a meddyliol yn bwysig ac yn cael eu gwerthfawrogi.
- Dylai [Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill] (barhau i) gydnabod yr heriau, y risgiau a'r ansicrwydd a brofwyd gan y sector o ran staffio a chynaliadwyedd, a gweithio i gynnig cefnogaeth glir a chyson
- Yn ddelfrydol mae angen cyfraddau tâl uwch i helpu i atal gweithwyr proffesiynol rhag gadael y sector.

Fodd bynnag, nawr gall naratif yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn ganolbwyntio ar yr hyn yr oedd darparwyr gofal plant yn ardal leol Merthyr Tudful yn ei amlinellu yng nghyswllt COVID-19 yn ail hanner 2021, ac mewn rhai achosion, i mewn i 2022:

10.1 Mae ymchwil genedlaethol ddiweddar yn dangos bod iechyd meddwl a **llesiant**: (a) perchnogion a (b) staff ar bob lefel mewn busnesau gofal plant yn teimlo effaith yr heriau a grewyd gan COVID-19. Fel rhan o arolwg hydref 2021 gyda darparwyr gofal plant yn ardal leol Merthyr Tudful, bu'r awdurdod lleol yn holi a oedd darpariaethau/lleoliadau wedi gweld unrhyw enghreifftiau o broblemau iechyd meddwl cysylltiedig â COVID-19, gan gynnwys rhai yn ymwneud â straen a gorbryder ynghylch cynaliadwyedd (cysylltiedig â COVID)?

Dywedodd 32% o'r ymatebwyr gwirioneddol oedd yn cynrychioli darparwyr gofal plant (yn nodweddiadol gwarchodwyr plant, perchnogion a rheolwyr) eu bod hwy yn bersonol wedi profi heriau iechyd meddwl a/neu orbryder.

Soniodd 40% o'r ymatebwyr am enghreifftiau o aelodau tîm yn profi heriau iechyd meddwl a/neu orbryder.
Dyweddodd 28% o'r ymatebwyr na chafwyd unrhyw enghreifftiau o aelodau'r tîm yn profi heriau iechyd meddwl a/neu orbryder.

Darparodd ymatebwyr perthnasol enghreifftiau o gefnogaeth, help neu gyngor yr hofffen nhw i'r Cyngor Bwrdeistref eu darparu i'r sector yng nghyswllt y mater hwn, a'r tri a nodwyd amlaf (yn nhrefn amllder) oedd:


1. (Parhau i) hwyluso hyfforddiant a chwrs ar bwnc iechyd meddwl a llesiant
2. Hyrwyddo llinell gymorth iechyd meddwl, neu gyfeirio ymlaen at adnodd sydd eisoes yn bodoli
3. Parhau i hyrwyddo ymdeimlad o 'werth' yn rôl gweithwyr gofal plant proffesiynol

10.2 Gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i nodi sut bydden nhw'n dosbarthu'n gyffredinol deimladau eu rhieni/teuluoedd o ran eu plentyn/plant yn dod/dychwelyd i'w lleoliad, yng nghyswllt COVID-19.

Dyweddodd 92% o'r ymatebwyr fod: Y mwyafrif i weld yn hapus nawr, gyda'r 3% arall y nodi: mae'n rhaniad gweddol gyfartal rhwng y rhai sydd o blaid, a'r rhai sy'n dal i bryderu.

10.3 Gofynnwyd i'r holl ddarparwyr gofal plant a ymatebodd i arolwg hydref 2021 nodi a oeddent wedi gwneud unrhyw newidiadau contractiol gydag unrhyw rieni/ofalwyr o ganlyniad i COVID-19?

Diagram 10 – Digwyddiad y newidiadau contractiol a wnaed gan ddarparwyr gofal plant Merthyr Tudful yng nghyswllt COVID-19



Gellir nodi mai'r eglurhad a roddwyd gan amlaf gan y darparwyr gofal plant a ymatebodd gan ddweud: ydym, rydyn ni wedi addasu'r ffioedd rydyn ni'n eu codi, oedd (geiriau megis): *“os oes rhaid i'r lleoliad gau oherwydd COVID-19, codir 0 tâl”*.

10.4 Gofynnwyd i'r holl ddarparwyr gofal plant a ymatebodd i arolwg hydref 2021 nodi a fydden nhw'n croesawu rhagor o gyngor neu gefnogaeth ar ffurf polisi/asesiad risg 'diogelu eich lleoliad rhag COVID-19' neu brotocol/bolisi staff a rhieni.

Ni ddywedodd neb ohonynt y bydden nhw, a'r teimlad cynhenid oedd bod yr holl ddarparwyr gofal plant bellach yn fedrus o ran ymateb i unrhyw sefyllfaoedd COVID-19 allai godi.

10.5 Ar ben hynny, amlygodd yr ymatebion i Ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) Gorffennaf 2021 y canlynol:

Dywedodd 58% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd eu bod wedi gorfod cau ar ryw adeg – hyd at y pwynt hwnnw – o ganlyniad i COVID-19.

Dyweddodd 35% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd eu bod wedi gweld achos(ion) cadarnhaol o COVID-19 cyn mis Gorffennaf 2019, gyda phawb heblaw un darparwr o'r fath yn nodi bod o leiaf un aelod o staff wedi cael COVID-19 (hefyd, yn ogystal â'u plant).

Dyweddodd rhai (6% yn unig) o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd fod COVID-19 wedi effeithio ar eu cymarebau staffio a'u bod wedi colli staff – o ganlyniad i COVID-19.

11 Poblogaeth, Demograffeg a Phroffil Sosio-economaidd

Mae'r adran sy'n dilyn yn chwarae rhan hanfodol o ran llywio Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 – yn arbennig o safbwynt y galw. Mae'n dadansoddi data demograffig a sosio-economaidd cyfoes a pherthnasol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y galw (ystadegol) posibl yn y dyfodol am ddarpariaeth a lleoedd blynyddoedd cynnar a gofal plant yn ystod y cyfnod 2022-2027.

Yn ei hanfod mae'r adran hon yn hanfodol i ddarparu cyd-destun i'r adran sy'n dadansoddi'r bylchau (13).

11.1 Mae Tabl 30 yn amlinellu'r boblogaeth o blant a phobl ifanc 0-14 oed fesul ward yn ardal leol Merthyr Tudful, fel y rhagfynegir yn Amcangyfrifon Poblogaeth Canol-2020 ar gyfer Wardiau 2020 ac ALLau 2021 yng Nghymru a Lloegr yn ôl Blwyddyn Oed Sengl a Rhyw.

Tabl 30 – Y boblogaeth 0-14 oed yn wardiau Merthyr Tudful

| Enw'r Ward | O dan 2 oed | 2 oed | 3 4 oed | 5 7 oed | 8 11 oed | 12 14 oed | Cyfansymiau |
|--------------------|--------------|------------|--------------|--------------|--------------|--------------|---------------|
| Bedlinog | 106 | 39 | 96 | 155 | 199 | 132 | 727 |
| Cyfarthfa | 161 | 103 | 215 | 341 | 437 | 290 | 1,547 |
| Dowlais | 159 | 80 | 171 | 226 | 276 | 226 | 1,138 |
| Gurnos | 148 | 72 | 149 | 276 | 361 | 243 | 1,249 |
| Bro Merthyr | 82 | 50 | 105 | 139 | 180 | 132 | 688 |
| Parc | 76 | 40 | 99 | 111 | 171 | 148 | 645 |
| Penydarren | 134 | 67 | 143 | 273 | 362 | 225 | 1,204 |
| Plymouth | 84 | 50 | 101 | 207 | 241 | 174 | 857 |
| Y Dref | 140 | 101 | 169 | 243 | 356 | 290 | 1,299 |
| Treharris | 149 | 66 | 157 | 210 | 274 | 197 | 1,053 |
| Y Faenor | 67 | 43 | 72 | 92 | 140 | 121 | 535 |
| Cyfansymiau | 1,306 | 711 | 1,477 | 2,273 | 2,997 | 2,178 | 10,942 |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol-2020 ar gyfer Wardiau 2020 ac ALLau 2021 yng Nghymru a Lloegr yn ôl Blwyddyn Oed Sengl a Rhyw

Mae Tabl 31 isod yn dangos dull amgen o sicrhau cyfatebiaeth rhwng y boblogaeth 0-14 oed a'r LSOAs.

Tabl 31 – Poblogaeth 0-14 oed ardal leol Merthyr Tudful fesul ward

Ffynhonnell: ONS 2020

| LSOA | 0 2 oed | 3 4 oed | 5 7 oed | 8 11 oed | 12 14 oed | Cyfanswm 0 14 oed |
|---------------------------------------|---------|---------|---------|----------|-----------|-------------------|
| W01001289 Bedlinog 1 | 48 | 31 | 49 | 58 | 53 | 239 |
| W01001290 Bedlinog 2 | 97 | 65 | 106 | 141 | 79 | 488 |
| W01001291 Cyfarthfa 1 | 86 | 46 | 97 | 129 | 85 | 443 |
| W01001292 Cyfarthfa 2 | 77 | 76 | 107 | 132 | 79 | 471 |
| W01001293 Cyfarthfa 3 | 52 | 57 | 69 | 88 | 61 | 327 |
| W01001294 Cyfarthfa 4 | 49 | 36 | 68 | 88 | 65 | 306 |
| W01001295 Dowlais 1 | 69 | 51 | 63 | 53 | 53 | 289 |
| W01001296 Dowlais 2 | 43 | 36 | 44 | 63 | 47 | 233 |
| W01001297 Dowlais 3 | 71 | 41 | 53 | 78 | 66 | 309 |
| W01001298 Dowlais 4 | 56 | 43 | 66 | 82 | 60 | 307 |
| W01001299 Gurnos 1 | 83 | 55 | 79 | 114 | 70 | 401 |
| W01001300 Gurnos 2 | 62 | 40 | 101 | 104 | 77 | 384 |
| W01001301 Gurnos 3 | 75 | 54 | 96 | 143 | 96 | 464 |
| W01001302 Bro Merthyr 1 | 53 | 45 | 47 | 49 | 41 | 235 |
| W01001303 Bro Merthyr 2 | 41 | 31 | 38 | 61 | 48 | 219 |
| W01001304 Bro Merthyr 3 | 38 | 29 | 54 | 70 | 43 | 234 |
| W01001305 Parc 1 | 31 | 18 | 31 | 55 | 39 | 174 |
| W01001306 Parc 2 | 45 | 33 | 45 | 70 | 54 | 247 |
| W01001307 Parc 3 | 40 | 48 | 35 | 46 | 55 | 224 |
| W01001308 Penydarren 1 | 46 | 30 | 75 | 116 | 73 | 340 |
| W01001309 Penydarren 2 | 43 | 39 | 99 | 92 | 64 | 337 |
| W01001310 Penydarren 3 | 51 | 35 | 52 | 76 | 42 | 256 |
| W01001311 Penydarren 4 | 61 | 39 | 47 | 78 | 46 | 271 |
| W01001312 Plymouth (Merthyr Tudful) 1 | 41 | 23 | 54 | 54 | 43 | 215 |
| W01001313 Plymouth (Merthyr Tudful) 2 | 33 | 26 | 61 | 70 | 43 | 233 |

| LSOA | 0 2 oed | 3 4 oed | 5 7 oed | 8 11 oed | 12 14 oed | Cyfanswm 0 14 oed |
|---------------------------------------|---------|---------|---------|----------|-----------|-------------------|
| W01001314 Plymouth (Merthyr Tudful) 3 | 60 | 52 | 92 | 117 | 88 | 409 |
| W01001315 Y Dref 1 | 65 | 35 | 39 | 50 | 55 | 244 |
| W01001316 Y Dref 2 | 72 | 49 | 107 | 165 | 122 | 515 |
| W01001317 Y Dref 3 | 44 | 38 | 46 | 79 | 70 | 277 |
| W01001318 Y Dref 4 | 60 | 47 | 51 | 62 | 43 | 263 |
| W01001319 Treharris 1 | 47 | 46 | 36 | 58 | 41 | 228 |
| W01001320 Treharris 2 | 43 | 15 | 53 | 55 | 47 | 213 |
| W01001321 Treharris 3 | 56 | 47 | 58 | 89 | 55 | 305 |
| W01001322 Treharris 4 | 69 | 49 | 63 | 72 | 54 | 307 |
| W01001324 Y Faenor 2 | 71 | 47 | 47 | 74 | 74 | 313 |

Mae Tabl 31 yn cadarnhau mai'r ward sy'n cyfrif am y nifer uchaf o drigolion 0-14 oed a thrigolion ar draws pob categori oed yw ward Cyfarthfa, gyda ward y Dref yn dilyn.

O ran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) a chyflwyniad nifer y plant 2-3 preswyl, yn fodd i ganfod y galw ystadegol am leoedd gofal plant Dechrau'n Deg – mae Tabl 32 isod yn dangos lefelau poblogaeth yn 2021 gyda'r LSOAs sy'n gymwys i gael mynediad i'r rhaglen Dechrau'n Deg a amlygwyd mewn print bras.

Tabl 32 – Y Boblogaeth 2-3 oed yn LSOAs Merthyr Tudful

Ffynhonnell: 2021 CBSMT

| LSOA | Ardal | 2 oed | 3 oed | Cyfanswm yn ôl LSOA | Safle ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, allan o 1,909 LSOA |
|-----------|-------------|-------|-------|---------------------|--|
| W01001289 | Bedlinog 1 | 18 | 10 | 28 | 483 |
| W01001290 | Bedlinog 2 | 42 | 22 | 64 | 601 |
| W01001291 | Cyfarthfa 1 | 31 | 31 | 62 | 1080 |
| W01001292 | Cyfarthfa 2 | 21 | 26 | 47 | 65 |
| W01001293 | Cyfarthfa 3 | 18 | 10 | 28 | 567 |
| W01001294 | Cyfarthfa 4 | 12 | 10 | 22 | 1746 |

| | | | | | |
|------------------|----------------------|--------------|--------------|----------------------------|---|
| W01001295 | Dowlais 1 | 23 | 21 | 44 | 127 |
| W01001296 | Dowlais 2 | 19 | 16 | 35 | 935 |
| W01001297 | Dowlais 3 | 16 | 18 | 34 | 629 |
| W01001298 | Dowlais 4 | 23 | 13 | 36 | 352 |
| W01001299 | Gurnos 1 | 24 | 31 | 55 | 56 |
| W01001300 | Gurnos 2 | 23 | 18 | 41 | 106 |
| W01001301 | Gurnos 3 | 34 | 26 | 60 | 164 |
| W01001302 | Bro Merthyr 1 | 18 | 17 | 35 | 385 |
| W01001303 | Bro Merthyr 2 | 18 | 9 | 27 | 34 |
| W01001304 | Bro Merthyr 3 | 14 | 11 | 25 | 967 |
| W01001305 | Parc 1 | 16 | 7 | 23 | 731 |
| W01001306 | Parc 2 | 18 | 10 | 28 | 1128 |
| W01001307 | Parc 3 | 8 | 11 | 19 | 153 |
| W01001308 | Penydarren 1 | 11 | 18 | 29 | 7 |
| W01001309 | Penydarren 2 | 19 | 15 | 34 | 258 |
| W01001310 | Penydarren 3 | 17 | 16 | 33 | 1012 |
| LSOA | Ardal | 2 oed | 3 oed | Cyfanswm yn ôl LSOA | Safle ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, allan o 1,909 LSOA |
| W01001311 | Penydarren 4 | 19 | 9 | 28 | 688 |
| W01001312 | Plymouth 1 | 20 | 10 | 30 | 428 |
| W01001313 | Plymouth 2 | 10 | 6 | 16 | 596 |
| W01001314 | Plymouth 3 | 19 | 14 | 33 | 706 |
| W01001315 | Y Dref 1 | 13 | 9 | 22 | 337 |
| W01001316 | Y Dref 2 | 26 | 23 | 49 | 1343 |
| W01001317 | Y Dref 3 | 10 | 14 | 24 | 457 |
| W01001318 | Y Dref 4 | 10 | 9 | 19 | 948 |
| W01001319 | Treharris 1 | 8 | 5 | 13 | 1662 |
| W01001320 | Treharris 2 | 13 | 11 | 24 | 777 |

| | | | | | |
|------------------|--------------------|-----------|-----------|-----------|-------|
| W01001321 | Treharris 3 | 19 | 19 | 38 | 585 |
| W01001322 | Treharris 4 | 31 | 13 | 44 | 552 |
| W01001323 | Y Faenor 1 | 17 | 9 | 26 | 502 |
| W01001324 | Y Faenor 2 | 13 | 11 | 24 | 1,051 |

Mae Tabl 32 yn dangos, ar draws yr holl LSOAs sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg yn 2021, fod 630 o blant cymwys 2 a 3 oed.

Mae Tabl 33 isod yn dangos sut mae niferoedd cofrestru Dechrau'n Deg wedi amrywio ar draws ardal leol Merthyr Tudful, ers i'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant blaenorol gael ei gyhoeddi.

Tabl 33 – Nifer y cofrestriadau Dechrau'n Deg ar gyfer y cyfnod 2017-2022 yn ardal leol Merthyr Tudful

| NCY | Dyddiad Geni | Cyfanswm nifer y rhai 0 4 oed | Nifer y plant cymwys Dechrau'n Deg |
|--------------------|---------------------|-------------------------------|------------------------------------|
| 0 | 01/04/17 – 31/08/17 | 336 | 0 |
| -1 | 01/09/17 – 31/08/18 | 762 | 207 |
| -2 | 01/09/18 - 31/08/19 | 682 | 287 |
| -3 | 01/09/19 – 31/08/20 | 528 | 252 |
| -4 | 01/09/20 – 31/08/21 | 434 | 233 |
| -5 | 01/09/21 – 31/08/22 | 139 | 71 |
| Cyfansymiau | | 2,881 | 1,050 |

Ffynhonnell: CBSMT 2022

11.2 Yn ei hanfod, mae dogfen Llywodraeth Cymru: Rhagamcanion poblogaeth diwygiedig 2018-2019 awdurdodau lleol Cymru (hyd at 2043) yn amlinellu bod disgwyl i ardal leol Merthyr Tudful *gynyddu* 2.8% rhwng 2018 a 2028.

O ran rhagolygon poblogaeth ychwanegol, mae cronfa StatsWales yn amcangyfrif (eto, tueddiad gynyddol) fel a ganlyn:

Rhwng 2022 a 2025 bydd poblogaeth breswyl Merthyr Tudful yn cynyddu 0.7% (452 o breswylwyr) a;
Rhwng 2022 a 2027 bydd poblogaeth breswyl Merthyr Tudful yn cynyddu 1.1% (694 o breswylwyr).

Amlinellodd dogfen Llywodraeth Cymru: Rhagamcanion poblogaeth awdurdod lleol i Gymru: 2018, a gyhoeddwyd yn haf 2020, sut y rhagwelir y bydd gan fwyafrif awdurdodau lleol Cymru boblogaeth rhwng 100,000 a 200,000 erbyn 2028. Roedd y ddogfen yn nodi mai'r awdurdodau lleol y rhagwelid y byddai ganddynt y poblogaethau lleiaf o hyd fyddai Merthyr Tudful (tua 61,700), Blaenau Gwent (tua 69,200), Ynys Môn (tua 69,700), a Cheredigion (tua 70,600), ond yn ystod y cyfnod 2018-2028, yn achos y plant a'r bobl ifanc 0-15, rhagfynegir y bydd pob awdurdod lleol, **heblaw** Casnewydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont, Castell-nedd Port Talbot a **Merthyr Tudful**, yn gweld gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc 0-15 oed.

- 11.3 O ran cyfraddau geni ardal leol Merthyr Tudful, mae Tabl 34 isod yn manylu ar fetreg ym mhob un o wardiau'r ardaloedd lleol yn y flwyddyn 2019 – h.y. plant a fydd yn awr yn cyrraedd (neu'n agosáu at) oed y rhaglen Dechrau'n Deg.

Tabl 34 – Cyfraddau geni blwyddyn 2019 ar gyfer ardal leol Merthyr Tudful

| Enw'r Ward | Genedigaethau'r preswylwyr yn 2019 |
|--------------------|------------------------------------|
| Bedlinog | 57 |
| Cyfarthfa | 72 |
| Dowlais | 84 |
| Gurnos | 70 |
| Bro Merthyr | 48 |
| Parc | 33 |
| Penydarren | 64 |
| Plymouth | 45 |
| Y Dref | 73 |
| Treharris | 72 |
| Y Faenor | 29 |
| Cyfansymiau | 647 |

Ffynhonnell: ONS 2019

Mae Tabl 34 yn dangos mai'r ward â'r nifer uchaf o enedigaethau newydd cyn y pandemig oedd y Dref, a ddilynwyd o ran amllder (cyfartal) gan wardiau Cyfarthfa a Threharris.

11.4 Mae Tabl 35 yn dangos mudo i mewn ac allan yng nghyswllt ardal Merthyr Tudful yn ystod y cyfnod 2018-2019. Mae'r Tabl yn dangos bod y llif o bobl i mewn, yn arbennig llif rhyngwladol, yn uwch na'r llif o bobl allan. Roedd blynyddoedd blaenorol wedi dangos patrwm unfath, ac roedd cyfran y bobl oedd yn llifo i mewn o gymharu ag allan wedi bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Ffynhonnell: ONS 2019

| | | Canol 2018 | | Canol 2020 | |
|----------------|--|--------------------------|------------|--|------------|
| Merthyr Tudful | Amcangyfrif Poblogaeth Canol 2019 = 60,326 | Mudo Rhyngwladol Parhaol | | Mudo Mewnol oddi mewn i'r Deyrnas Unedig | |
| | | Llif i Mewn | Llif Allan | Llif i Mewn | Llif Allan |
| | | 129 | 86 | 1,682 | 1,605 |
| | Amcangyfrif Poblogaeth Canol 2020 = 60,424 | Mudo Rhyngwladol Parhaol | | Mudo Mewnol oddi mewn i'r Deyrnas Unedig | |
| | | Llif i Mewn | Llif Allan | Llif i Mewn | Llif Allan |
| | | 132 | 63 | 1,406 | 1,336 |

11.5 O ran ethnigrwydd, mae Tabl 36 yn dangos nifer y plant oedd yn byw yn yr ardal leol o 2019, o gefndiroedd penodol.

Tabl 36 – nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n byw yn ardal leol Merthyr Tudful yn 2019 o gefndiroedd ethnig penodol

Ffynhonnell: ONS 2019

| Oedran | Gwyn | Gwyn Prydeinig | Cymysg | Asiaidd | Du | Arall |
|--------|------|----------------|--------|---------|----|-------|
| 0 | 0 | 640 | 613 | 7 | 8 | 1 |
| 1 | 1 | 698 | 668 | 7 | 9 | 1 |
| 2 | 2 | 712 | 682 | 7 | 10 | 1 |
| 3 | 3 | 721 | 690 | 8 | 10 | 1 |
| 4 | 4 | 783 | 750 | 8 | 10 | 1 |
| 5 | 5 | 698 | 668 | 7 | 9 | 1 |
| 6 | 6 | 725 | 694 | 8 | 10 | 1 |

| | | | | | | |
|----|----|-----|-----|----|----|---|
| 7 | 7 | 756 | 723 | 8 | 10 | 1 |
| 8 | 8 | 736 | 704 | 7 | 9 | 1 |
| 9 | 9 | 696 | 663 | 11 | 9 | 0 |
| 10 | 10 | 731 | 693 | 15 | 8 | 0 |
| 11 | 11 | 747 | 716 | 12 | 10 | 2 |
| 12 | 12 | 688 | 662 | 15 | 9 | 0 |
| 13 | 13 | 653 | 628 | 13 | 9 | 2 |
| 14 | 14 | 610 | 592 | 13 | 15 | 0 |

11.6 O ran digwyddiad siaradwyr Cymru yn ardal leol Merthyr Tudful, mae cronfa StatsWales yn dangos, yn 2019, bod bron 1:5 o boblogaeth Merthyr Tudful yn gallu siarad Cymraeg – Tabl 37:

Ffynhonnell: Stats Wales: <https://statswales.gov.wales/Catalogue>

| Ardal | Pawb 3 oed a throsodd | Ie, gallu siarad Cymraeg | Na, methu siarad Cymraeg | Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg |
|----------------|-----------------------|--------------------------|--------------------------|---|
| Cymru | 3,025,400 | 892,500 | 2,131,600 | 29.5% |
| Merthyr Tudful | 57,500 | 10,400 | 47,100 | 18% |

11.7 Nododd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Merthyr Tudful 2017 fod dros chwarter o'r holl blant yn yr ardal leol yn byw mewn tlodi (yn ôl y diffiniad o ganran y plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel). Roedd hyn yn amlwg yn sylweddol uwch na'r ffigur i Gymru (20.5%). Hefyd roedd *cilfachau o dlodi plant mwy ym Merthyr, gan gynnwys mwy na 40% o'r plant yn byw mewn tlodi yn ward y Gurnos*. Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019), y parth incwm, yr awdurdodau lleol oedd â'r gyfran uchaf o ardaloedd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig oedd Casnewydd, **Merthyr Tudful** a Chaerdydd, i gyd tua 20%.

Blaenau Gwent oedd â'r ganran uchaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is oedd ymhlith y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (85.1% neu 40 o ardaloedd).

Y nesaf uchaf oedd ardal leol **Merthyr Tudful**, gyda 77.8% (neu 28) o'i hardaloedd ymhlith hanner mwyaf difreintiedig Cymru.

11.8 O ran cyfraddau cyflogaeth a diweithdra ar draws ardal leol Merthyr Tudful ym mis Medi 2021, dosbarthwyd 71.9% o'r boblogaeth oedolion fel rhai oedd yn economaidd weithredol ac mewn cyflogaeth. Dosbarthwyd 4.8% o'r boblogaeth oedolion fel rhai di-waith, ac roedd hynny 0.6% yn uwch na chyfartaledd Cymru. Gellir nodi bod adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree yn 2020: Tlodi yng Nghymru, yn amlygu sut mae gan rai ardaloedd yng Nghymru niferoedd uchel iawn o hawlwywr di-waith fesul swydd wag ac mai Rhondda Cynon Taf (37 o hawlwywr fesul swydd wag) a Merthyr Tudful (35 o hawlwywr fesul swydd wag) yw'r ardaloedd lle ceir mwy na 30 o hawlwywr di-waith fesul swydd wag. Ar ben hynny, yn ystod yr un cyfnod, roedd 1,900 o bobl ifanc dros 16 oed wedi'u dosbarthu fel rhai oedd yn astudio, ac roedd y ganran berthnasol 10% yn is na'r cyfartaledd i Gymru (sef 28.4%). Dangosodd data a gyhoeddwyd gan NOMIS yn hydref 2021 hefyd mai'r pum math o alwedigaeth yr oedd oedolion yn cael eu cyflogi amlaf ynddynt oedd:

1. Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol – 8,000 o gyflogeion
2. Cyfanwerthu a Manwerthu – 3,000 o gyflogeion
3. Gweithgynhyrchu – 3,000 o gyflogeion
4. Addysg – 2,000 o gyflogeion
5. Gweithgareddau Llety a Gwasanaethau Bwyd – 1,250 o gyflogeion

Ledled Cymru bu tuedd gynyddol o ran digwyddiad gweithio shifftiau. Er enghraifft, cyhoeddodd TUC Cymru adroddiad yn hwyr yn 2019 a oedd yn amlygu'r canlynol:¹⁹

- Roedd 17,000 yn fwy o weithwyr nos yng Nghymru nag oedd yn 2014
- Roedd 165,000 o bobl yn gweithio'n rheolaidd yn y nos yng Nghymru – 13% o'r gweithlu
- Yn y Deyrnas Unedig, roedd gweithwyr gofal (432,000) yn cyfrif am fwyafrif y gweithwyr nos, gyda nyrsys a bydwagedd yn dilyn (232,000)
- Yr alwedigaeth nesaf fwyaf cyffredin i weithwyr nos oedd gyrrwyr trafndiaeth ar y ffyrdd (208,000).
- Cymru sydd â'r gyfran drydedd uchaf o weithwyr sy'n gwneud gwaith nos, o gymharu â'r 11 rhanbarth arall yn y Deyrnas Unedig

11.9 Mae data a gyhoeddwyd gan NOMIS yn hydref 2021 yn dangos mai cyflog wythnosol cyfartalog cyflogai amser llawn sy'n byw yn ardal leol Merthyr Tudful yw £525.10, sy'n gallu cael ei gyferbynnu â'r cyfartaledd i Gymru, sef £570.60 yr wythnos.

¹⁹ <https://www.tuc.org.uk/news/17000-more-night-workers-wales-over-last-five-years-tuc-analysis-shows>

- 11.10 Ar ben hynny, adroddodd Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru 2018 mai ardal leol Merthyr Tudful oedd yn cyfrif am y ganran uchaf o blant oedd yn byw ar aelwydydd di-waith – 19.8% o’r holl aelwydydd.
- 11.11 Yn 2018, adroddodd cronfa ddata StatsWales fod 13% o’r aelwydydd yn ardal leol Merthyr Tudful yn deuluoedd un rhiant. Hon oedd y ganran uchaf ymhlith holl awdurdodau lleol Cymru (gyda Chasnewydd, Blaenau Gwent a Chastell-nedd Port Talbot, oedd fel ei gilydd wedi cofnodi 9.8%, yn dilyn).
- 11.12 Mae Tabl 38 yn dangos digwyddiad plant ag ADY oedd yn byw yn ardal leol Merthyr Tudful yn ystod y cyfnod 2020-2021, ac roedd 1,921 o blant ag angen/anghenion dysgu ychwanegol, gyda’r mathau mwyaf cyffredin o angen (yr adroddwyd amdanynt gan StatsWales) yn cynnwys anawsterau dysgu cyffredinol, gydag Awtistiaeth ac yna anabled(d)au corfforol yn dilyn o ran amllder.


Tabl 38 – Digwyddiad plant ag ADY ym Merthyr Tudful yn 2020-2021 (StatsWales)

| Lleoliad | Wedi cael Datganiad | Yr Holl Anghenion Addysgol Arbennig | | Yr Holl Anghenion Dysgu Ychwanegol |
|----------------|---------------------|--|--|------------------------------------|
| | | Cyfanswm: Anghenion Addysgol Arbennig ond dim Datganiad o AAA Gweithredu Ysgol | Cyfanswm: Anghenion Addysgol Arbennig ond dim Datganiad o AAA Gweithredu Ysgol a Mwy | |
| Cymru | 14,082 | 46,790 | 31,816 | 92,688 |
| Merthyr Tudful | 284 | 904 | 733 | 1,921 |

- 11.13 Mae Cynllun Datblygu Lleol Amnewid CBS Merthyr Tudful (2016 - 2031)²⁰ yn amlinellu rhagolwg y bydd angen adeiladu 2,250 o gartrefi newydd hyd at y cyfnod 2031.

²⁰ <https://www.merthyr.gov.uk/resident/planning-and-building-control/replacement-local-development-plan-2016-2031/first-replacement-local-development-plan-2016-2031/>

Delwedd 4 – Y Cynllun Datblygu Lleol – Diagram Allweddol yn dangos yr ardal(oedd) twf sylfaenol a gynigir



Mae'n bwysig bod Tabl 39 yn dangos y datblygiadau tai newydd arfaethedig – fel yr amlinellir yng Nghynllun Datblygu Lleol Amnewid CBS Merthyr Tudful (2016-2031) – y cynigir eu hadeiladu hyd at y flwyddyn 2031, **o 2022-2023 ymlaen.**

Mae'r Tabl yn dangos ym mha ward bydd safle datblygu penodol (fydd yn darparu tai newydd) yn cael ei leoli.

Tabl 39 – Datblygiadau tai newydd arfaethedig sydd i'w hadeiladu yn ardal leol Merthyr Tudful erbyn 2031

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (2016-2031)

| Ward | Enw'r Safle | Nifer yr Anheddau a gynigir | Amserlen Gyflwyno Ddangosol |
|---|---|-----------------------------|-----------------------------|
| Plymouth | Safle Ffatri Hoover | 440 | 2024 -2031 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 55 | 2023-2024 |
| | | 55 | 2024-2025 |
| | | 55 | 2025-2026 |
| | | 55 | 2026-2027 |
| | | 55 | 2027-2028 |
| | | 55 | 2028-2029 |
| | | 55 | 2029-2030 |
| | | 55 | 2030-2031 |
| | P and R Motors, safle Pentrebach | 22 | 2027-2028 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 11 | 2026-2027 |
| 11 | | 2027-2028 | |
| Cyfanswm yr anheddau a gyflwynir | | 462 | |
| Cyfarthfa | Brondeg, safle Heolgerrig | 20 | 2022-2024 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 10 | 2022-2023 |
| | | 10 | 2023-2024 |
| | Winchfawr, safle Heolgerrig | 20 | 2024-2030 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 3 | 2023-2024 |
| | | 3 | 2024-2025 |
| | | 3 | 2025-2026 |
| | | 3 | 2026-2027 |
| | | 3 | 2027-2028 |
| | | 3 | 2028-2029 |
| 2 | | 2029-2030 | |
| Cyfarthfa Parhad | I'r de o safle Parc y Castell | 160 | 2026-2031 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 10 | 2025-2026 |

| | | | |
|--|--|------------------|------------------|
| Dowlais | | 30 | 2026-2027 |
| | | 30 | 2027-2028 |
| | | 30 | 2028-2029 |
| | | 30 | 2029-2030 |
| | | 30 | 2030-2031 |
| | Clwydyfagwr, safle Heol Abertawe | 40 | 2022-2024 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 20 | 2022-2023 |
| | | 20 | 2023-2024 |
| | Cyfanswm yr anheddau a gyflwynir | 240 | |
| | Tir i'r de o Heol y Bryniau, safle'r Pant | 26 | 2024-2027 |
| <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 10 | 2024-2025 | |
| | 10 | 2025-2026 | |
| | 6 | 2026-2027 | |
| Tir i'r Gogledd o Dŷ Llwyd, inclein y safle ar y brig | 11 | 2025-2026 | |
| Cyfanswm yr anheddau a gyflwynir | 37 | | |
| Gurnos | Meysydd Pen y Dre, Gurnos | 40 | 2025-2026 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 55 | 2024-2025 |
| | | 55 | 2025-2026 |
| | Ysgol Gynradd Goetre | 120 | 2029-2031 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 40 | 2028-2029 |
| | | 40 | 2029-2030 |
| | | 40 | 2030-2031 |
| Cyfanswm yr anheddau a gyflwynir | 160 | | |
| Bro Merthyr | Prosiect Glan yr Afon, safle Bro Merthyr | 43 | 2022-2023 |
| | Cyfanswm yr anheddau a gyflwynir | 43 | |
| Penydarren | Teras Haydn, safle Penydarren | 40 | 2024-2026 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 10 | 2023-2024 |
| | | 15 | 2024-2025 |
| | | 15 | 2025-2026 |
| | Cyfanswm yr anheddau a gyflwynir | 40 | |

| Ward | Enw'r Safle | Nifer yr Anheddau a Gynigir | Amserlen Gyflwyno Ddangosol |
|---|---|-----------------------------|-----------------------------|
| Y Dref | Safle Twynyrodyn | 60 | 2022-2024 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 30 | 2022-2023 |
| | | 30 | 2023-2024 |
| | Gerddi Bradley 2, safle Penyard | 90 | 2025-2027 |
| | <i>Cyfnodau a gynlluniwyd</i> | 30 | 2024-2025 |
| | | 30 | 2025-2026 |
| | | 30 | 2026-2027 |
| | Safle Ysbyty Sant Tudful gynt | 40 | 2022-2024 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 20 | 2022-2023 |
| | | 20 | 2023-2024 |
| | Safle Neuadd y Glowyr gynt | 12 | 2022-2023 |
| | Safle Ysgol Santes Tudful gynt | 10 | 2022-2023 |
| | Cyfanswm yr anheddau a gyflwynir | 212 | |
| Treharris | Yn ymyl Golwg y Faenor, safle Trelewis | 118 | 2023-2030 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 38 | 2022-2023 |
| | | 20 | 2026-2027 |
| | | 30 | 2027-2028 |
| | | 30 | 2028-2029 |
| | Stormtown, safle Trelewis | 80 | 2027-2031 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 20 | 2027-2028 |
| | | 20 | 2028-2029 |
| | | 20 | 2029-2030 |
| | | 20 | 2030-2031 |
| | Cilhaul, safle Treharris | 30 | 2023-2025 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 15 | 2023-2024 |
| | | 15 | 2024-2025 |
| | Oaklands, safle Treharris | 50 | 2024-2027 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | 15 | 2024-2025 |
| | | 15 | 2025-2026 |
| | | 20 | 2026-2027 |
| Y Goedwig, safle Edwardsville | 22 | 2025-2026 | |
| Cyfanswm yr anheddau a gyflwynir | 300 | | |

| Ward | Enw'r Safle | Nifer yr Anheddau a gynigir | Amserlen Gyflwyno Ddangosol |
|----------|---|-----------------------------|-----------------------------|
| Bedlinog | Safle Cwmfelin | 30 | 2026-2029 |
| | <i>Cyfnodau a Gynlluniwyd</i> | <i>10</i> | <i>2026-2027</i> |
| | | <i>10</i> | <i>2027-2028</i> |
| | | <i>10</i> | <i>2028-2029</i> |
| | Cyfanswm yr anheddau a gyflwynir | 30 | |
| Y Faenor | Safle Ysgol y Graig | 10 | 2022-2023 |
| | Cyfanswm yr anheddau a gyflwynir | 10 | |

Mae Tabl 40 yn dangos mai'r wardiau fydd yn cyfrif am y niferoedd uchaf o dai newydd a ragwelir yw (yn nhrefn amllder):

1. Ward Plymouth – gyda 462 o anheddau newydd yn cael eu cyflwyno erbyn 2031 a; 231 o anheddau newydd yn ystod y cyfnod 2022-2027
2. Ward Treharris – gyda 300 o anheddau newydd yn cael eu cyflwyno erbyn 2031 a 160 o anheddau newydd yn ystod y cyfnod 2022-2027
3. Ward Cyfarthfa – gyda 240 o anheddau newydd yn cael eu cyflwyno erbyn 2031 a 112 o anheddau newydd yn ystod y cyfnod 2022-2027

Gellir nodi, o ganlyniad i'r Arolwg Ysgolion a gynhaliwyd ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn yn 2022, fod cynrychiolwyr chwe ysgol wedi nodi, hyd eithaf eu gwybodaeth, y gallai fod gan safle eu hysgol [unrhyw] ofod ar gael lle gellid o bosib sefydlu darpariaeth gofal plant newydd:

- Roedd tair o'r ysgolion hyn wedi'u lleoli yn ward Plymouth
- Roedd un o'r ysgolion hyn wedi'i lleoli yn ward y Dref
- Roedd un o'r ysgolion hyn wedi'i lleoli yn ward Dowlais

Ar ben hynny, gofynnwyd hefyd yn hydref 2021 i bob un o ddarparwyr gofal plant ardal leol Merthyr Tudful mewn lleoliadau ffurfiol/grwpiau a oedd *ganddyn nhw unrhyw gynlluniau/fwriadau i gynyddu eu capasiti/datblygu darpariaeth newydd yn ystod y 2 flynedd nesaf?* Fel yr amlinellwyd yn Adran 8.5 uchod, nododd 22% fod cynlluniau ganddynt, ac roedd hynny'n creu cyfanswm o 47 o leoedd newydd, y gellid eu categoreiddio fel a ganlyn o edrych arnynt fesul ward:

| Darparw(y)r wedi'u lleoli yn Ward | Nifer y lleoedd newydd a gynigir gyda darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar | Nifer y lleoedd newydd a gynigir gyda darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol |
|-----------------------------------|--|--|
| Treharris | 5 | 10 |
| Y Faenor | 8 | 8 |
| Dowlais | 8 | - |
| Gurnos | 8 | - |
| Cyfansymiau | 29 | 18 |

Mae Tabl 41 isod yn dangos yr anheddau newydd sydd i'w cyflwyno o flwyddyn i flwyddyn, y disgwyllir iddynt gael eu hadeiladu yn ardal leol Merthyr Tudful yn ystod y cyfnod 2022-2031.

Mae hefyd yn amlinellu faint o leoedd meithrin newydd fyddai'n angenrheidiol ar gyfer y garfan 2-3 oed, bob blwyddyn, o gymhwyso fformwla rhagolygon tai newydd a gyflwynir Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wrth ragweld nifer y lleoedd ysgol newydd: (sef) yn achos disgyblion ysgol gynradd, h.y.: meithrin i flwyddyn 6, mae'r awdurdod lleol yn cymhwyso fformiwla o 3.94 disgybl fesul grŵp blwyddyn fesul 100 o dai a adeiladir.

Tabl 41 – Y taflwybr tai newydd a gynigir yn ardal leol Merthyr Tudful yn ystod y cyfnod 2022-2031

Ffynhonnell: CBS Merthyr Tudful, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (2016-2031)

| Blwyddyn | Nifer yr Anheddau y Bwriedir eu Cwblhau'n Flynyddol | Lleoedd newydd ar gyfer y garfan feithrin 2 3 oed (yn unig) sy'n ofynnol wrth gymhwyso fformiwla tai newydd a gyflwynir CBSMT |
|-----------|---|---|
| 2022-2023 | 257 | 10 |
| 2023-2024 | 287 | 11 |
| 2024-2025 | 217 | 9 |
| 2025-2026 | 212 | 8 |
| 2026-2027 | 223 | 9 |
| 2027-2028 | 203 | 8 |

| | | |
|--------------------|-------------|-----------|
| 2028-2029 | 232 | 9 |
| 2029-2030 | 191 | 7.5 |
| 2030-2031 | 189 | 7.5 |
| Cyfansymiau | 2031 | 79 |

11.15 Mae Tabl 42 isod yn dangos amcan o nifer y lleoedd gofal plant 0-4 oed newydd a allai fod yn ofynnol o ganlyniad i'r datblygiadau tai newydd, yn ogystal â brasamcan o'r lleoedd newydd Dechrau'n Deg a ragariannwyd a allai fod yn ofynnol o ganlyniad i gwblhau'r anheddau hyn a'u meddiannu yn y pen draw hyd at 2031.

| Enw'r Ward | Cyfanswm nifer yr Anheddau Newydd a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod 2022-2031 mewn datblygiadau tai newydd | Nifer y plant ychwanegol 0-4 oed a allai ddod o Anheddau Newydd yn ôl fformiwla tai newydd a gyflwynir CBSMT | Nifer y darparwyr gofal plant sy'n cynnig ehangu nifer y lleoedd (ym mis Hydref 2021) | Nifer yr achosion o ysgol a ddywedodd y byddent yn ystyried gofod ychwanegol ar gyfer gofal plant yn eu hysgol trwy ad-drefnu |
|-------------|--|--|---|---|
| Bedlinog | 30 | 6 | 0 | 0 |
| Cyfarthfa | 240 | 47 | 0 | 0 |
| Dowlais | 37 | 7 | 1 | 1 |
| Gurnos | 160 | 31 | 1 | 0 |
| Bro Merthyr | 43 | 8 | 0 | 0 |
| Parc | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Penydarren | 40 | 8 | 0 | 0 |
| Plymouth | 462 | 91 | 0 | 3 |
| Y Dref | 212 | 41 | 0 | 1 |
| Treharris | 300 | 59 | 1 | 0 |
| Y Faenor | 10 | 2 | 1 | 0 |

| | | | | |
|-------------|-------|-----|---|---|
| Cyfansymiau | 1,534 | 300 | 4 | 5 |
|-------------|-------|-----|---|---|

Nodyn: Petai'r darparwyr gofal plant a restrir yn y tabl uchod yn ehangu'n unol â'u cynnig, byddai hynny'n cyfateb i 30 o leoedd newydd.

Nodyn: Byddai angen edrych ymhellach ar ad-drefnu ysgolion i wneud lle ar gyfer gofal plant, o safbwynt: sicrhau nad oedd dadleoli o ran sector: safonau AGC a chynaliadwyedd y sector.

12 Yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a Chynlluniau Llesiant Lleol

- 12.1 Mae Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016 ar gyfer Asesu Digonolrwydd Gofal Plant yn nodi sut dylai'r ddogfen hon ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth ddatblygu eu Hasesiad o Lesiant Lleol, yn fodd i ganfod y galw am ddarpariaeth gofal plant.
- 12.2 Mae Cynllun Llesiant Lleol cyfredol ardal leol Merthyr Tudful: Ffocws ar y Dyfodol 2021-2022²¹, yn cyflwyno amcanion allweddol sydd â chysylltiad uniongyrchol ag (amcanion a chwmpas) Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022, gan gynnwys bwriad trosfwaol bod *plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus*, yn ogystal ag: ymrwymiad i gyflawni: plant yn cael byw mewn amgylchedd cartref meithringar sy'n eu cymell; **plant yn cael mynediad i addysg cyn ysgol ac ysgol o safon uchel**; plant yn cael y gallu i wella'r canlyniadau addysgol; plant a phobl ifanc yn cael iechyd a llesiant emosiynol da.

Ar ben hynny, mae'r Cynllun Llesiant Lleol yn ymgorffori ymrwymadau y mae'r ddogfen hon yn eu hadleisio, sef bod partneriaid yn: ymdrin â phrofiadau bywyd gwael plant yn gynnar, ac yn helpu i sicrhau bod mwy o deuluoedd agored i niwed yn aros gyda'i gilydd; cynyddu nifer y plant sy'n gallu byw'n ddiogel gartref (neu'n agos at eu cartref) – gan eu hatal rhag dechrau derbyn gofal.

Yn y pen draw, mae'r Cynllun Llesiant Lleol yn cyflwyno'r adrannau yn CBS Merthyr Tudful sy'n cyfrannu at gyflawni ei ddyheadau – a bydd gan nifer o'r adrannau/swyddogion a'r gweithwyr proffesiynol hyn rôl allweddol i'w chwarae yn ystod cyfnod Cynllun Gweithredu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-2027, gan gynnwys:

- Dysgu Cymunedol i Oedolion
- Rhaglenni cyflogadwyedd
- Gwella ysgolion
- Gwasanaethau leuenctid
- Adran parciau

²¹ https://www.merthyr.gov.uk/media/6537/focus-on-the-future-2021-22_eng.pdf
<https://www.merthyr.gov.uk/council/strategies-plans-and-policies/statement-of-well-being/>

- Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynhwysiad a Llesiant
- Tîm y Plant sy'n Derbyn Gofal
- Adnoddau Cynllunio Ysgol a Chefnogaeth i'r Blynyddoedd Cynnar
- Datblygu Chwaraeon
- Y Tîm Diogelu
- Y tîm NEET
- Aelodau tîm yr Iaith Gymraeg a Saesneg fel Iaith Ychwanegol

13 Dadansoddiad o'r Bylchau

Mae'r adran allweddol sy'n dilyn yn amlinellu'r bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant y mae Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant Merthyr Tudful 2022 wedi canfod tystiolaeth ohonynt a'u nodi. Mae pob un o'r bylchau a gynhwyswyd isod yn cyfateb i ddsbarthiad penodol – h.y. un o'r canlynol:

Bwlch sy'n cyfateb i:

- Pa **Fathau** o ofal plant sydd ar gael
 - **Oed** y plant y mae gofal plant ar gael ar eu cyfer
 - **Fforddiadwyedd** gofal plant
 - Yr **Adegau** pryd mae gofal plant ar gael, gan gynnwys yr angen am ofal plant hyblyg sy'n darparu ar gyfer patrymau defnydd afreolaidd ar draws y diwrnod, yr wythnos a'r flwyddyn
 - **Lleoliad daearyddol** gofal plant mewn perthynas â phoblogaeth, wardiau a dalgylchoedd ysgol
 - Yr anghenion penodol am ddarpariaeth gofal plant **cyfrwng Cymraeg**
 - Yr anghenion penodol i blant ag **ADY**
 - Hygyrchedd **gwybodaeth** am ofal plant
-

Yr Adegau pryd mae gofal plant ar gael

- 1 O ran thema cyflogadwyedd: dywedodd 15% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru ynghylch a oedd gofal plant yn eu rhwystro rhag manteisio ar gyflogaeth neu hyfforddiant: *Tueddu i Gytuno*, a dywedodd 22% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd: *Cytuno'n Bendant*.

Mae hyn yn dangos bod bron 40% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn credu bod gofal plant – i ryw raddau – wedi eu rhwystro ar ryw adeg rhag cael mynediad i gyflogaeth neu hyfforddiant.

I ategu'r adborth hwn, dywedodd 21% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd hefyd fod materion cysylltiedig â gofal plant wedi effeithio arnyn nhw eu hunain, neu bartner, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ran gallu 'cael swydd' – a dywedodd 13% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd fod materion cysylltiedig â gofal plant wedi effeithio ar eu gallu nhw neu bartner i 'gael mynediad i hyfforddiant' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'n amlwg felly bod modd dod i'r casgliad bod bwloch digonolrwydd yn bodoli, o ran i ba raddau mae sicrhau gofal plant addas yn creu heriau o safbwynt cyflogadwyedd a hyfforddiant yn ardal leol Merthyr Tudful.

- 2 Y 'duedd a brofwyd amlaf yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf' yn ôl darparwyr gofal plant oedd rhieni'n dymuno cael mwy o hyblygrwydd oherwydd eu bod yn gweithio gartref yn amlach. Cadarnhaodd cyflogwyr a fu'n ymwneud â'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hefyd fod (yng ngeiriau un rhanddeiliad o'r fath) *"mwy o awydd i weithio gartref a gweithio oriau hyblyg, yn arbennig o amgylch oriau ysgol"*. Yr ail 'duedd...' y soniwyd amdani amlaf oedd mwy o achosion o rieni'n gofyn am oriau agor estynedig/hwy – fodd bynnag, dim ond 15% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd a ddywedodd fod ganddyn nhw gynlluniau ar y gweill i estyn eu horiau agor. Gellir cwestiynu a yw'r sector gofal plant yn ardal leol Merthyr Tudful yn barod ar gyfer tuedd gynyddol o'r fath a galw am fwy o hyblygrwydd yn amserau a pholisïau'r ddarpariaeth – ac a oes awydd i gyflawni hynny?

- 3 (Dim ond) 12% o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar ddywedodd fod ganddyn nhw gynlluniau ar y gweill yn ystod y 18 mis nesaf i 'ymateb yn well i anghenion gweithwyr shifftiau/y rhai sy'n gweithio tu allan i oriau swyddfa nodweddiadol', megis pobl sy'n gweithio yn y sector lletygarwch a'r sector iechyd. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth anecdotaidd, yn arbennig adborth gan bobl broffesiynol oedd yn gweithio gydag oedolion mewn perthynas â chyflogaeth, cyflogadwyedd a hyfforddiant o ymwybyddiaeth uniongyrchol bod y farchnad lafur wedi addasu ymhellach – o ganlyniad i COVID-19 – i batrymau gwaith mwy afreolaidd – a bod nifer yr achosion lle roedd gofyn gweithio shifftiau ar gynnydd.

Pa fathau o ofal plant sydd ar gael

- 4 Mae'r dystiolaeth yn dangos ei bod yn bosibl y gallai heriau cynaliadwyedd pellach fod yn dod ar gyfer rhai darparwyr gofal plant, gan fod 75% o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar yn adrodd am leoedd gwag ym mis Tachwedd 2021. Ar ben hynny, dywedodd 25% o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar eu bod yn disgwyl i'r galw fod yn 'is' neu'n 'sylweddol is' erbyn hydref 2022. Yn wir, nododd dau ddarparwr gofal plant blynyddoedd cynnar – oedd wedi'u lleoli yn ardal Merthyr Tudful a ward Plymouth – eu bod yn disgwyl gweithredu hyd at y 2 flynedd nesaf (yn unig).
- 5 Dywedodd bron 1 : 5 o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd i arolwg Llywodraeth Cymru ynghylch y galw gan rieni fod ganddynt o leiaf un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol oedd wedi neu heb gael diagnosis. Dywedodd 96% o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar fod COVID-19 wedi cael effaith ar ddatblygiad blynyddoedd cynnar plant oedd yn mynychu eu darpariaeth, gyda hanner yr ymatebwyr hyn yn nodi effaith negyddol ar iaith a lleferydd plant. Fodd bynnag, er bod ymrwymiad i'r Rhaglen Trawsffurfio Anghenion Dysgu Ychwanegol, dim ond 13% o ddarparwyr o'r fath ddywedodd fod ganddyn nhw gynlluniau *pendant* ar waith i wella'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol (yr oedd eu nifer yn amlwg yn cynyddu). Gellir gweld y ganran hon hefyd yn cyfateb i'r ffaith bod gofalwyr a fu'n cymryd rhan mewn e-sesiynau ansoddol penodol gyda'r awdurdod lleol yn hwyr yn 2021 ac yn gynnar yn 2022 wedi dweud bod gofal plant, i ryw raddau, wedi effeithio ar eu gallu i weithio neu astudio.

- 6 Dywedodd 67% (h.y. dau draean) o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar fod COVID-19 wedi bod yn gyfrifol am ostyngiad yn eu lefelau llenwi. Dywedodd yr un ganran (yn rhesymegol) eu bod wedi gweld gostyngiad yn eu refeniw. Wrth gysylltu'r ddwy ffaith hon â thema cynaliadwyedd parhaus posib, yn ward fwyaf poblog y fwrdeistref: Cyfarthfa (ward lle gwelir hefyd 240 o dai newydd ychwanegol yn cael eu hadeiladu) – dywedodd 75% o'r darparwyr dan sylw eu bod wedi gweld gostyngiad yn lefelau llenwi (a refeniw). Yn wir, dywedodd 20% o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar fod ganddyn nhw bryderon parhaus ynghylch cynaliadwyedd, ac roedd dau o'r lleoliadau hyn yn ward Plymouth – ward arall lle bydd 462 o dai newydd ychwanegol yn cael eu hadeiladu hyd at 2031.
- 7 Mae'r sector gwarchod plant yn ardal leol Merthyr Tudful yn crebachu i bob pwrpas. Yn 2017 roedd 87 o leoedd gyda gwarchodwyr plant ar gael mewn saith ward. Mewn cyferbyniad, yn 2022 mae wyth gwarchodwr plant ar draws chwe ward, sy'n darparu 41 o leoedd. Mae'n destun pryder arbennig oherwydd y galw cynyddol am oriau hyblyg a'r achosion cynyddol o rieni sy'n byw ym Merthyr Tudful yn gweithio oriau shifftiau.
- 8 Dywedodd traean o'r darparwyr gofal plant mewn lleoliadau/grwpiau, yn hydref 2021, fod staff wedi ymadael i weithio yn rhywle arall neu wedi rhoi'r gorau i weithio yn y sector oherwydd COVID-19, sy'n amlygu problem gyfoes o ran cadw staff, a allai effeithio ar ddigonolrwydd lleoedd, gan gynnwys ar gyfer y rhaglen gofal plant cyffredinol a fwriadwyd ar gyfer plant 2 oed. (Gellir nodi bod 80% o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar wedi nodi nad oedd ganddyn nhw gynlluniau, yn hwyr yn 2021, i recriwtio unrhyw brentis(iaid).
- 9 (O bosib mewn perthynas â chadw staff) dywedodd dau draean o'r holl ddarparwyr gofal plant fod ganddyn nhw achosion o (ystod eang o) staff a chyflogeion yn profi problemau ac anawsterau iechyd meddwl. Ward y Gurnos oedd yn cyfrif am un o'r lefelau uchaf o ymateb o'r fath. Gellid deall hyn fel mater cysylltiedig â'r gweithlu y mae angen parhau i roi sylw iddo, fel bod modd cynnal cymarebau a'r lefel gyfredol o weithwyr proffesiynol yn y sector, yn ardal leol Merthyr Tudful.

Lleoliad gofal plant mewn perthynas â'r boblogaeth, wardiau a dalgylchoedd ysgol

10 Ym mis Chwefror 2020, cyn y pandemig, cyhoeddodd CBS Merthyr Tudful darged o 2,250 o dai newydd erbyn 2031.

Tair ward sy'n cyfrif am y nifer amlycaf o dai newydd y disgwylir eu cyflwyno yn ystod y cyfnod 2022-2031 yw:

1. Ward Plymouth – gyda disgwyl i 462 o anheddau newydd gael eu cyflwyno erbyn 2031 a; 231 o anheddau newydd yn ystod y cyfnod 2022-2027
2. Ward Treharris – gyda disgwyl i 300 o anheddau newydd gael eu cyflwyno erbyn 2031 a 160 o anheddau newydd yn ystod y cyfnod 2022-2027
3. Ward Cyfarthfa – gyda disgwyl i 240 o anheddau newydd gael eu cyflwyno erbyn 2031 a 112 o anheddau newydd yn ystod y cyfnod 2022-2027

Gellir nodi hefyd mai 20% (yn unig) o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a ddywedodd fod ganddyn nhw gynlluniau i gynyddu nifer y lleoedd rodden nhw'n eu cynnig yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Roedd hyn yn creu cyfanswm o 30 o leoedd, a nodwyd gan un darparwr yn ward Dowlais, un darparwr yn ward y Gurnos, **un darparwr yn ward Treharris** ac un darparwr yn ward y Faenor.

11 Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu cynlluniau uchelgeisiol o ran ehangu gallu rhieni a theuluoedd sydd â phlant 2 oed i gael mynediad i ddarpariaeth gofal plant a ariannir. Yn 2022, roedd rhyw 525 o blant 2 oed yn amlwg yn mynychu lleoliad/darparwr gofal plant blynyddoedd cynnar neu warchodwr plant ar draws ardal leol Merthyr Tudful, o gymharu â brasamcan o 711 o blant 2 oed oedd yn byw yn yr ardal leol (ffigur sydd, fwy na thebyg, yn mynd i godi erbyn 2027, gan gynnwys mewn cysylltiad â datblygiadau tai newydd a thuedd i symud i mewn i'r ardal). O ganlyniad, mae'n bosibl, er mwyn bodloni'r disgwyliadau i bob plentyn 2 oed, yn ddiwahân, fedru cael mynediad i ofal plant a ariannir, gallai fod gofyniad i ehangu'r ddarpariaeth (a chadarnhau digonolrwydd) ar gyfer y grŵp oed hwn.

Oed y plant y mae gofal plant ar gael ar eu cyfer

12 Mae rhagamcanion poblogaeth awdurdodau lleol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020, yn adrodd fel a ganlyn ynghylch plant a phobl ifanc 0-15 oed yn ystod y cyfnod 2018 – 2028: *rhagwelir y bydd yr awdurdodau lleol canlynol yn gweld cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc 0-14 oed: Casnewydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot **a Merthyr Tudful.***

Rhagwelir y bydd poblogaeth ardal leol Merthyr Tudful yn **cynyddu** 2.8% rhwng 2018 a 2028.

Os cymhwysir y ganran hon i'r boblogaeth o blant 0-4 oed yn 2020, byddai hynny'n golygu bod 92 yn fwy o blant 0-4 oed yn byw yno erbyn 2027-2028, ac os cymhwysir y ganran hon i'r boblogaeth o blant 5-14 oed yn 2020, byddai hynny'n golygu bod 198 yn fwy o blant 5-14 oed yn byw yno erbyn 2027-2028, y gallai fod ar bob un o'u teuluoedd angen lle gofal plant ffurfiol.

Gellir nodi hefyd, yng nghyswllt gofal plant y tu allan i'r ysgol, pan wahoddwyd rhieni/gofalwyr (fel rhan o arolwg rhieni Llywodraeth Cymru) i nodi pa fath(au) o ofal plant roedden nhw'n rhagweld y byddai angen 'mwy ohonynt' arnyn nhw yn ystod y ddwy flynedd nesaf, mai clwb ar ôl ysgol neu gynllun chwarae yn ystod y gwyliau y cyfeiriwyd atynt amlaf. Gellir nodi bod y gyfran fwyaf o ddarpariaeth gofal plant y tu allan i'r ysgol yn ardal leol Merthyr Tudful mewn ysgolion (ac un yn unig sydd wedi cofrestru gydag AGC), felly petai ysgol(ion) yn cael gwared o unrhyw leoedd o'r fath am unrhyw reswm, gallai hynny greu trafferthion digonolrwydd yn lleol.

Anghenion penodol am ddarpariaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg

- 13 Mae gan CBS Merthyr Tudful Strategaeth WESP uchelgeisiol sy'n ymgorffori'n llawn sector gofal plant a blynyddoedd cynnar yr ardal leol. Fodd bynnag, mae bwlch *posibl* yn dod i'r amlwg o ran darpariaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg (ochr yn ochr â phroblem amlwg o ran recriwtio a chadw staff), gyda 50% union o'r darparwyr mewn lleoliadau/grwpiau yn nodi *nad oeddent* yn credu, ddiwedd 2021, bod ganddynt y nifer gofynnol o staff oedd yn rhugl yn y Gymraeg.

Dylid gweld y bwlch posibl hwn hefyd yng nghyd-destun y ffaith, ers cynhyrchu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant blaenorol (2017) Merthyr Tudful, fod yr iaith Gymraeg yn amlwg wedi codi mewn blaenoriaeth ymhlith uchelgeisiau rhieni, gan fod yr adborth dangosol o'r ymgynghoriadau â rhieni mewn e-sesiynau yn cynnwys: *"Wrth siarad â rhieni eraill mae darpariaeth gyfrwng Gymraeg i blant o dan 2 yn 'beth mawr' achos eu bod nhw am i'w plant gael rhywun yn siarad â nhw yn Gymraeg yn ifanc"*.

Fforddiadwyedd gofal plant

- 14 Y rhwystr a amlygwyd amlaf gan rieni/ofalwyr a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yng nghyswllt cael mynediad i ofal plant ffurfiol oedd bod cost gofal plant wedi'u hatal rhag defnyddio darpariaeth ffurfiol. O ganlyniad, mae angen i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd **gynnal ei rôl** yn cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth am fentrau gofal plant presennol a ariannir a *mentrau newydd* sydd i ddod, megis: (a) estyn y Cynnig Gofal Plant i rieni mewn addysg a hyfforddiant a rhieni sydd ar absenoldeb mabwysiadu a: (b) cynnig gofal plant am ddim i bob plentyn 2 oed yn ystod y 3 blynedd nesaf, o ystyried pa mor rhesymegol yw hi y bydd y ddwy fenter hon o fudd i deuluoedd penodol. Dylai'r awdurdod lleol gadw mewn cof hefyd fod traean o'r darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a ymatebodd i arolwg Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hydref 2021 wedi nodi nad oeddent yn cymryd unrhyw gamau i farchnata bodolaeth Gofal Plant Di-dreth.

Hygyrchedd gwybodaeth am ofal plant

- 15 Gwahoddwyd holl gynrychiolwyr yr ysgolion, fel rhan o broses cyfweiliadau strwythuredig hydref 2021 gyda'r rhanddeiliaid hyn, i nodi a oedden nhw'n ymwybodol o fodolaeth Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Merthyr Tudful. Dywedodd 40% eu bod yn ymwybodol o GGD Merthyr Tudful – fodd gynnag, roedd yn amlwg nad oedd hynny'n wir am 60% ohonynt. Dywedodd 75% o'r cyflogwyr a ymatebodd hefyd nad oedden nhw'n ymwybodol o fodolaeth GGD Merthyr Tudful.

Ar ben hynny, nododd rhyw 50% o'r rhieni a'r gofalwyr a fu'n mynychu e-sesiynau diwedd 2021 a dechrau 2022, nad oeddent hwythau'n ymwybodol o fodolaeth y GGD. Nid yw hyn o reidrwydd yn arwydd o fwllch gwybodaeth, ond mae yn awgrymu bod angen ymdrech bellach i hyrwyddo gwaith a rôl y GGD.

14 Crynodeb o'r Anghenion sydd heb eu Diwallu

Mae'r naratif sy'n dilyn yn crynhoi canfyddiadau Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Merthyr Tudful 2022, gyda ffocws arbennig ar y canfyddiadau allweddol a'r bylchau sy'n dod i'r amlwg, a gyflwynwyd yn yr adran flaenorol.

Mae wedi bod yn amlwg, yn arbennig o ganlyniad i'r cyfweiliadau strwythuredig a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr o sector blynyddoedd cynnar a gofal plant Merthyr Tudful, a chynrychiolwyr fforymau, partneriaid a rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda theluoedd lleol, plant a phobl ifanc (o amrywiaeth o gefndiroedd), er bod y sector wedi llwyddo i ddal ei dir yn wyneb yr heriau a grewyd gan bandemig COVID-19, bod materion mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt i gynnal mynediad digonol delfrydol – ac opsiynau/dewis digonol.

Mae wedi dod yn amlwg trwy ymgynghori strwythuredig gyda rhieni a gofalwyr bod COVID-19 wedi amharu ar eu trefniadau gwaith a theuluol, ac un o'r ffactorau pennaf yn hyn oedd eu bod yn gweithio gartref i raddau helaethach (yn gyffredinol) ac nad oedd angen gofal plant ffurfiol arnynt yn ystod y cyfnod hwn. Wrth gwrs, effeithiodd hyn ar sector gofal plant Merthyr Tudful o ran eu lefelau llenwi, ac o ganlyniad, eu referniw – sydd fel ei gilydd yn ddylanwad hanfodol ar gynaliadwyedd. Fodd bynnag, mae'r sector i weld yn ailsefydlu cydbwysedd, yn arbennig y sector gofal plant blynyddoedd cynnar, sef darparwyr Gofal Dydd Llawn, darparwyr sesiynol, a Chylchoedd Meithrin yr ardal.

Fodd bynnag, mewn cyferbyniad, nid yw sector gwarchodwyr plant ardal leol Merthyr Tudful wedi llwyddo cystal ers cyhoeddi'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diwethaf. Yn amlwg nid yw hwn yn ddatblygiad adeiladol, yn arbennig o ystyried pa mor bwysig yw sector gwarchod plant hyfyw fel un elfen o'r darlun cyfan yn lleol o ran y sector gofal plant blynyddoedd cynnar, ond hefyd oherwydd bod tystiolaeth o achosion cynyddol o rieni'n gweithio oriau shifftiau ac yn gyffredinol y tu allan i amserlen draddodiadol 8am-6pm yn ystod yr wythnos. Os bydd yr achosion hyn yn cynyddu, byddai hynny'n rhesymegol yn galw naill ai am newidiadau digon radical ym meddylfryd darparwyr gofal plant Merthyr Tudful mewn lleoliadau, neu gynnydd yn niferoedd a digwyddiad gwarchodwyr plant gweithredol, ac ehangu amserau agor y sector gwarchod plant. Fel rhan o'r Asesiad hwn a'r ymchwil a fu'n ei lywio, mae rhieni a gofalwyr wedi amlygu thema 'hyblygrwydd' (fel y mae darparwyr gofal plant eu hunain, yng nghyswllt sylwi ar gynnydd yn y galw gan rieni a gofalwyr am ddarpariaeth o'r fath) a'r ffaith eu bod yn gwerthfawrogi hynny, ac mewn rhai achosion ei fod yn syml yn ofynnol iddynt. Mae'n debygol y bydd y gofyn am hyblygrwydd yn cynyddu yn ystod y 5 mlynedd nesaf, a dylai sector blynyddoedd cynnar a gofal plant Merthyr Tudful fod yn barod i ymateb i'r newid hwn o ran sut mae eu cwsmeriaid yn dewis defnyddio'u gwasanaeth.

Yn gysylltiedig â'r cais hwn am wella hyblygrwydd cynhenid mae'r ffaith bod nifer o rieni/ofalwyr a phartneriaid/rhanddeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau, wedi disgrifio sut mae gofal plant wedi effeithio ar ffactor sosio-economaidd cyflogadwyedd. Canfyddiad allweddol fel rhan o'r gwaith ymchwil a fu'n llywio cynhyrchu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Merthyr Tudful 2022 oedd bod bron 40% o'r rhieni/gofalwyr oedd yn byw yn y fwrdeistref a ymatebodd i arolwg gofal plant Llywodraeth Cymru yn credu bod gofal plant – i ryw raddau – wedi eu rhwystro ar ryw adeg rhag cael mynediad i gyflogaeth neu hyfforddiant. Ategwyd yr adborth hwn hefyd gan y ffaith bod 21% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd wedi nodi bod materion cysylltiedig â gofal plant, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi effeithio ar eu gallu nhw, neu bartner, i 'gael swydd' – a dywedodd 13% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd fod materion cysylltiedig â gofal plant, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi effeithio ar eu gallu nhw eu hunain neu bartner i 'gael mynediad i hyfforddiant'.

Mae'r adborth hwn yn dangos yn amlwg, felly, bod deinameg deuluol gofal plant yn effeithio ar gyflogadwyedd, ac y dylai'r awdurdod lleol barhau i gyfathrebu'n fewnol a gweithio gyda phartneriaid a phrosiectau allanol er mwyn edrych ymhellach ar yr adborth hwn a'r thema hon, a rhoi sylw iddynt. Mae'r dadansoddiad demograffig fel rhan o'r Asesiad hwn wedi dangos, hyd at 2027, fod rhyw 1,500 o anheddau newydd i gael eu hadeiladu a'u meddiannu, yn y pen draw, ar draws ardal leol Merthyr Tudful, gyda'r niferoedd amlycaf o anheddau newydd wedi'u cynllunio yn ward Plymouth, ward y Dref a ward Treharris. O ganlyniad, mae angen i'r awdurdod lleol yn gyntaf weithio gyda darparwyr lleol ac ysgolion sydd wedi mynegi diddordeb mewn ehangu eu darpariaeth – gan gynnwys ar eu safleoedd presennol, yn ogystal â monitro'n drylwyr gynaliadwyedd parhaus y darparwyr presennol, o fewn y wardiau hynny ac yn yr 8 ward arall, fel bod opsiynau darpariaeth ffurfiol ar gael pan fydd teuluoedd newydd yn symud i mewn i'r anheddau hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig hefyd yng nghyswllt yr heriau a allai ddod (o ran y galw) yn sgîl ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg (darpariaeth gyffredinol i blant 2 oed).

Mae ffactor arall y mae'n amlwg bod angen i CBS Merthyr Tudful ei fonitro'n barhaus yn ymwneud â'r gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan fod yr adborth gan ddarparwyr yn dangos ei fod wedi gweld nifer sylweddol yn ymadael yn sgîl COVID-19. Dywedodd traean o'r darparwyr gofal plant mewn lleoliadau/grwpiau yn hydref 2021 eu bod wedi gweld achosion o staff yn gadael eu lleoliad i weithio rhywle arall, yn nodweddiadol, mae'n debyg, yn y sectorau lletygarwch, manwerthu ac ysgolion. Cafwyd adborth hefyd bod rhai staff wedi gadael y sector oherwydd eu bod wedi profi problemau a phryderon iechyd meddwl, y gellid egluro rhai ohonynt gan bryderon ynghylch dal COVID-19 yn ystod cyfnodau brig 2020-2021. Roedd yn amlwg yn hydref 2021 fod rhai darparwyr/leoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar yn cael traferth cyflenwi'r arbenigedd 'coll' yma, ac yn ddelfrydol mae angen atal rhagor rhag ymadael, ac annog doniau newydd, gan gynnwys prentisiaid, i ystyried y blynyddoedd cynnar a gofal plant fel gyrfa. Er bod hon yn her draddodiadol i'r sector oherwydd lefelau cymharol isel o gyflog, wrth i'r sector ddod allan o effeithiau COVID-19 mae bellach wedi dod yn her lle mae'n (fwy) hanfodol (fyth) sicrhau cymorth gan gynllunwyr gofal plant a'r rhai sy'n cefnogi'r sector.

Mae her olaf bosibl y mae'r Asesiad hwn wedi'i amlygu, y dylid ei hystyried yn flaenoriaeth i gynllunwyr gofal plant a phartneriaid sy'n ceisio rhoi sylw i fylchau (gan gynnwys cyn iddyn nhw godi) yn ystod y cyfnod 2022-2027, yn ymwneud â chefnogaeth gofal plant y tu allan i'r ysgol, sydd weithiau'n cael ei ddiystyru, gan gynnwys gofal plant o'r fath sydd ag elfen ddi-fwlch. Mae'r rhan fwyaf o ofal plant y tu allan i'r ysgol – gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol, cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau a chlybiau brechwast ar draws ardal leol Merthyr Tudful, yn digwydd mewn ysgolion. Mae hynny'n golygu y gallai'r ddarpariaeth fod yn fregus yn sgîl anghenion unigol a sefyllfaoedd ariannol ysgolion o'r fath. O ystyried y cynnydd a ragwelir ym mhoblogaeth ardal Merthyr Tudful a'r cynnydd hysbys a ragwelir mewn anheddau, mae'n debygol y bydd y galw am ofal plant y tu allan i'r ysgol – ac yn bosib iawn, darpariaeth yn ystod y gwyliau yn arbennig, yn cynyddu yn ystod 2022-2027.

Yn y pen draw, mae'r naratif uchod wedi crynhoi'r heriau y gellid eu hwynebu yn ystod y cyfnod hwnnw o bum mlynedd, ac mae'n dal yn bosibl i bartneriaid a rhanddeiliaid **barhau i** gydweithio i ymateb i'r heriau hynny – a bydd angen ymdrech bendant ar y cyd i sbarduno a chefnogi darpariaethau a lleoedd newydd, yn arbennig yng nghyswllt lleoedd (newydd) ar gyfer y rhai sy'n dymuno (neu sydd angen) cael mynediad at warchodwr plant a/neu ddarpariaeth gofal plant y tu allan i'r ysgol (nad yw'n digwydd mewn ysgol).

15 Rhwystrau i'r Ddarpariaeth Gofal Plant

Gwahoddodd arolwg rhieni Llywodraeth Cymru 2021 ei gynulleidfa darged i roi adborth ynghylch unrhyw rwystrau roedden nhw wedi dod ar eu traws ynghylch cael mynediad i'r gofal plant *o'u dewis*. Crynhoir adborth y rhieni/gofalwyr yn Nhabl 43 isod.

Tabl 43 – amllder y rhesymau a nodwyd o ran pam nad oedd rhiant/gofalwr yn derbyn/cael mynediad i gefnogaeth gyda gofal plant yn hydref 2021

| Rheswm | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|--|---|
| Mae'r plentyn ar restr aros ar gyfer darparwr ac rydyn ni'n aros i le ddod ar gael | 2.5% |
| Does dim gofal plant o safon ddigonol | 1.5% |
| Does dim darpariaeth addas yn Gymraeg | 1.5% |
| Dim darpariaeth addas yn ein hiaith ni, sef iaith heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg | 0 |
| Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion | 4% |
| Mae cost gofal plant yn rhy ddrud | 13% |
| Mae amserau'r gofal plant yn anaddas | 3.5% |
| Does dim gofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn | 2% |
| Mae problem gyda thrafnidiaeth | 2% |
| Does dim gofal plant lle mae angen hynny arna i | 2.5% |
| Does dim gofal plant sy'n gallu darparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn | 6% |
| Arall | 10.5% |

15.1 Amlinellwyd dadansoddiad cyffredinol o Dabl 43 yn Adran 6 o'r Asesiad hwn, gweler tudalen 29. Mae'n dangos, pan amlygwyd rhwystr, nad oedd byth yn cael ei nodi gan fwy na rhyw 1:10 o'r rhieni neu'r gofalwyr. Mae craffu pellach ar y data meintiol a gynhyrchwyd gan arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn dangos y canlynol:

Y tri rhwystr y soniwyd amdanynt amlaf gan rieni oedd yn gweithio oedd (yn nhrefn amllder):

1. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (nodwyd gan ryw 1:7 o'r rhieni perthnasol)

2. Mae amserau'r gofal plant yn anaddas
3. Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg i ymateb i'm hanghenion

Dyma'r tri rhwystr y soniwyd amdanynt amlaf gan rieni oedd yn amlwg yn chwilio am waith neu hyfforddiant (cyfeiriwyd at bob un o'r tri gan ryw 1:8 o'r rhieni perthnasol):

1. Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg i ymateb i'm hanghenion
2. Mae amserau'r gofal plant yn anaddas
3. Rwy'n defnyddio gofal plant ar sail ad hoc yn unig, ac mae'n amhosibl cynllunio

Yr unig rwystr a ailadroddwyd gan rieni oedd ddim yn gweithio neu'n chwilio am swydd oedd: mae cost gofal plant yn rhy ddrud.

Nododd 20% o'r ymatebwyr fod eu henillion wythnosol o dan £150.00. Yr unig rwystr a amlygwyd fwy nag unwaith gan yr ymatebwyr hyn eto oedd bod cost gofal plant yn rhy ddrud.

Yr un rhwystr y soniwyd amdano fwy nag unwaith gan rieni sengl/unigol oedd: mae cost gofal plant yn rhy ddrud (nodwyd gan ryw 1:7 o'r rhieni perthnasol)

Yn olaf, y ddau rwystr y soniwyd amdanynt fwy nag unwaith gan ofalwyr plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol oedd:

1. Does dim gofal plant sy'n gallu darparu ar gyfer anghenion arbennig fy mhlentyn
2. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud

- 15.2 Roedd arolwg rhieni Llywodraeth Cymru a'r gyfres o grwpiau ffocws a gynullwyd gyda rhieni a gofalwyr ddiwedd 2021 hefyd yn fodd i ymatebwyr ddarparu adborth ansoddol ynghylch eu sefyllfa gofal plant, lefelau boddhad, ac unrhyw rwystrau amlwg roedden nhw wedi'u profi neu'n dal i'w profi.

O ran thema rhwystrau i gael mynediad i ofal plant ffurfiol – y math o adborth a gafwyd amlaf oedd (geiriau megis):
“Mae fforddiadwyedd yn dal i fod yn broblem”.

Roedd yr adborth penodol ar y thema hon yn cynnwys:

“Mae gofal plant yn llawer rhy ddrud. Galla i nail ai weithio a gwario fy nghyflog ar ofal plant neu aros gartre. Rwy’n weithiwr proffesiynol cymwysedig sydd eisiau gweithio, ond mae costau gofal plant yn golygu bod hynny ddim yn werth chweil. Hefyd doedd dim un darparwr gofal plant yn barod i gasglu fy mhlentyn o’r ysgol, felly allwn i ddim aros yn y gwaith”.

“Mae gorfod talu am ofal plant drud yn broblem. Hefyd, weithiau dyw fy ngwaith ddim yn gorffen tan 8pm, ac mae hynny’n golygu bod cael hyd i ofal plant yn anodd”.

“Mae’n benderfyniad anodd iawn dewis rhoi dau blentyn ifanc iawn mewn gofal dydd preifat amser llawn, oherwydd ein bod ni’n methu hawlio unrhyw gymorth ariannol. Rwy’n ennill £1,500 y mis ac yn talu £1,200 am ofal plant”.

“Ar hyn o bryd rwy’n edrych ar wahanol swyddi galla i wneud cais amdanyn nhw oherwydd bydd fwy na thebyg yn well i ni’n ariannol os bydda i’n gweithio llai o oriau”.

“Buasai angen gofal plant arna i er mwyn gallu mynd nôl i’r gwaith, ond mae’n rhy ddrud”.

“Er ein bod ni’n ddau riant sy’n gweithio’n amser llawn, rydyn ni’n cael bod cost gofal plant yn rhy ddrud, ac rydyn ni’n cael trafferth i’w fforddio”.

“[Yn fy marn i] mae ffioedd gofal plant yn eithafol. Cyn symud i fyw at fy mhartner roeddwn i’n gallu hawlio credyd cynhwysol oedd yn helpu tuag at 85% o’r costau gofal plant... ond pan symudais i mewn gyda’r partner ac fe brynnon ni’n cartre cynta, roedd hynny’n golygu mod i’n methu hawlio dim o’r budd-daliadau roeddwn i wedi bod yn eu derbyn. Rydw i wedi gorfod cychwyn ail swydd yn yr hwyr i dalu am gost gofal plant ar ben ein morgais. Petaen ni’n cael ail blentyn yn y flwyddyn nesa, rwy’n ofni meddwl sut gallen i byth ddychwelyd i’r gwaith a fforddio ffioedd ‘crèche’ heb help gan y llywodraeth. Mae hynny’n gwneud i mi bryderu’n fawr”.

“Rwy’n cael trafferth mawr sicrhau help i ddychwelyd i gyflogaeth. Bellach rwy’n aros i’r plentyn fynd i’r ysgol yn llawn amser, ac ar hyn o bryd alla i ddim fforddio talu am ofal plant”.

Yr ail fath o adborth a gafwyd amlaf oedd (geiriau megis) *“Mae gen i blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae cael hyd i ofal plant addas yn heriol”.*

Roedd yr adborth penodol ar y thema hon yn cynnwys:

“Mae gan fy mab syndrom Prader-Willi, ac i ddefnyddio gofal plant ar ôl ysgol byddai angen cefnogaeth un-i-un arno fe”.

“[Yn fy mhrofiad i} does dim lleoliadau ar ôl ysgol sy’n casglu o ysgol arbennig fy mab”.

“Does dim digon o ddewis i blant ag anableddau dysgu sydd angen goruchwyliaeth fanwl”.

“Pan gafodd pecynnau gofal eu gwneud yn unigol a ‘chefnwyd’ ar gynlluniau fel cynlluniau chwarae ar gyfer plant ag anableddau, ni’r teuluoedd gafodd ein gadael i ymdopi. Mae ar blant sydd ag anghenion cymorth uchel a/neu awtistiaeth leoliad rhagweladwy a diogel lle mae modd diwallu eu hanghenion yn ystod y gwyliau, er mwyn ymateb i’r angen am strwythur. [Yn fy mhrofiad i] nid yw Taliadau Uniongyrchol yn llenwi’r bwlch yna. Ble mae’r cydraddoldeb?”

Y trydydd math mwyaf cyffredin o adborth oedd (geiriau megis) *“Bod argaeledd clybiau gwyliau a lleoedd yn anghyson”.*

Roedd yr adborth penodol ar y thema hon yn cynnwys:

“Yn ystod y gwyliau, fe wnes i ffonio Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol yn gofyn am help achos mod i ddim yn ymdopi’n dda, ac roeddwn i’n gofalu am ‘ADY ac anableddau’ fy mab drwy’r amser ar fy mhen fy hun. Mae angen bod mwy o gymorth gofal plant ar gyfer plant ag anableddau. Mae’n anodd trystio rhywun i reoli anableddau lluosog eich plentyn. Mae angen mwy o help a chefnogaeth arnon ni”.

“Yn bersonol rwy’n cael bod dim llawer o opsiynau ar hyn o bryd yn ystod y gwyliau. Roedd fy mhlant yn arfer mynd i glybiau aml-chwaraeon, ond dyw hynny ddim yn digwydd bellach, a dyw e ddim fel petai dewis amgen ar gael?”

“Yn fy mhrofiad i does 0 clybiau gwyliau wedi bod ar gael ers COVID-19”.

“Nid yr anhawster o ran ‘gofal plant yn ystod gwyliau’r ysgol’ oedd cael hyd i ofal plant, ond fforddio’r gofal plant... oherwydd os oedd fy oriau gwaith yn croesi’r ddwy sesiwn, byddai’n rhaid i fi dalu am ddiwrnod llawn hyd yn oed os nad oedd angen mwy na chyfanswm o ychydig oriau arnaf fi. Roedd hefyd yn anodd cael hyd i ofal plant oedd yn darparu ar gyfer ystod o oedrannau mewn un man. Byddai’n golygu gollwng yr holl

blant mewn gwahanol fannau neu un o'r plant yn mynd i "feithrinfa babanod" (eu geiriau nhw) er bod y lleoliad yn dweud eu bod yn darparu ar gyfer plant hyd at 12 oed... doedd dim gweithgareddau ar gyfer yr ystod oed yna heblaw 'amser sgrîn' neu fod y tu allan".

"Mae anhawster nawr bod fy mhlentyn yn 12 oed oherwydd [yn fy mhrofiad i] does dim gofal plant na chlybiau gwyliau ar gael i blant 12 oed a throsodd... mae fel petaen nhw'n grŵp oed a gafodd eu hanghofio, ac rwy'n credu bod pobl yn disgwyl iddyn nhw ofalu amdanynt eu hunain".

Pedwerydd math o adborth a ailadroddwyd oedd (geiriau megis) *"Nid yw'r amserau pryd y cynigir gofal plant yn addas"*.

Roedd yr adborth penodol ar y thema hon yn cynnwys:

"Doedd dim un o'r opsiynau gofal plant y des i o hyd iddyn nhw yn dechrau'n ddigon cynnar i mi fedru cyrraedd fy ngwaith yng Nghaerdydd".

"Roedd gwasanaeth casglu ar ôl ysgol ar gyfer fy mhlentyn hynaf pan oedd angen hynny arnaf fi yn gyfyngedig. Roedd dau ddarparwr (meithrinfa ddydd a gwarchodwr plant) a doedd gan y naill na'r llall le am o leiaf ddau dymor. Roedd rhaid i fi ofyn i famau yn yr ysgol oedden nhw'n gallu mynd â mhlentyn adre, dim ond er mwyn i fi gael gweithio".

- 15.3 Ddiwedd 2021 a dechrau 2022, bu CBS Merthyr Tudful yn trefnu ac yn hwyluso cyfres o sesiynau e-grwpiau ffocws gyda rhieni a gofalwyr oedd yn byw ar draws yr ardal leol, gyda ffocws ar thema gofal plant hygyrch a blaenoriaethau rhieni. Ymgynghorwyd â rhieni a gofalwyr o gefndiroedd penodol: h.y.: 1. Gofalwyr plant ag anghenion dysgu ychwanegol; 2. Rhieni a gofalwyr a oedd yn byw yn ardal (gymharol ddifreintiedig) y Gurnos; a 3. Rhieni a gofalwyr a oedd naill ai'n cael mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg neu oedd â diddordeb mewn cael mynediad i ddarpariaeth o'r fath yn y dyfodol.

O ran themâu **rhwystrau i ofal plant**, darparodd gofalwyr a ddaeth i'r sesiwn e-grŵp ffocws oedd yn rhoi sylw i anghenion eu plant ADY adborth gwerthfawr, gan gynnwys:

- (Unwaith eto) gall cost gofal plant cofrestredig fod yn ataliaeth
- Gall delfryd cymorth gofal plant un-i-un fod yn heriol i'w threfnu
- Gall gwyliau'r ysgol fod yn gyfnod arbennig o heriol – er enghraifft, yng ngeiriau un rhiant:

“Mae hefyd yn anodd iawn yn ystod y gwyliau gan fod fy ngŵr yn dod adre o’r gwaith wedi ymlâdd, ac rwyf fi wedi ymlâdd, felly mae cael hyd i amser i gwblhau aseiniadau yn mynd yn her fawr. Does dim cefnogaeth gennym ni yn ystod gwyliau’r ysgol, felly mae pwysau gwirioneddol arnon ni, oherwydd bod gennym ni ddim rhieni i’n cefnogi”.

O ran themâu **rhwystrau i ofal plant**, darparodd rhieni a gofalwyr oedd yn byw yn ardal y Gurnos adborth gwerthfawr unwaith yn rhagor, a phwysleisiwyd dwy thema:

- (Gan amlaf) y gallai **dewis** yng nghyswllt gofal plant cyfrwng Cymraeg fod yn gyfyngedig. Dywedodd un o’r rhai oedd yn bresennol: *“Mae argaeledd yn ein dewis o Gylch Meithrin yn broblem. Mae’n rhagorol, ond [hyd y gwn i] mae gormod wedi cofrestru ar ei gyfer”.* Ar adegau roedd gofalwyr *“yn cael trafferth”* dod o hyd i ofal plant addas a allai gefnogi ADY. Er enghraifft: *“Does dim digon o ddewis i blant ag anabledau dysgu sydd angen goruchwyliaeth fanwl”.* *“Mae angen mwy o gefnogaeth i blant ag anabledau.”*

Yn olaf, o ran themâu **rhwystrau i ofal plant**, bu rhieni a gofalwyr a oedd naill ai’n cyrchu darpariaeth gofal plant gyfrwng Gymraeg ddiwedd 2021, neu oedd ag uchelgais i wneud hynny, yn darparu eu hadborth, a oedd yn cynnwys:

- Gwelid (mwy o d)darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i blant o dan 2 oed fel blaenoriaeth. Dywedodd un o’r rhai oedd yn bresennol (yn ei barn hi):
- *“Mae yna feithrinfeydd sy’n dweud bod ganddyn nhw staff sy’n siarad Cymraeg, ond fel arfer mae hynny’n golygu un aelod o staff yn unig”*
Yn ddelfrydol byddai mwy o ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg ar ôl ysgol *“wedi’i chysylltu â chwarae a phrofiadau cymdeithasol yn hytrach na dosbarth penodol i’r iaith Gymraeg”*
- Crynhôdd un o’r rhai oedd yn bresennol farn y lleill wrth nodi: *“byddai’n dda cael llwybr gwell i fedru cael mynediad i ddarpariaeth Gymraeg, o oed plant bach a hyd at yr ysgolion”.*

16 Y Ddarpariaeth o ran Addysg Feithrin, Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant

O ran rhaglenni gofal plant a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru:

16.1 Fel rhan o arolwg CBS Merthyr Tudful yn hydref 2021 gyda darparwyr gofal plant:

16.1.1 Dywedodd 92% o gynrychiolwyr darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar, h.y. darparwyr Gofal Dydd Llawn a darparwyr sesiynol, eu bod yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg (gofal plant) i blant 2-3 oed, ar gyfartaledd o 14 o leoedd fesul lleoliad.

O'r lleoliadau hyn, dywedodd 77% eu bod yn profi lleoedd gwag – a dywedodd 42% eu bod wedi sylwi ar newidiadau o ran nifer y rhieni/gofalwyr oedd yn manteisio ar leoedd (gofal plant) Dechrau'n Deg ers dechrau'r pandemig, oedd *yn cynnwys*:

- Mwy o absenoldebau o leoedd Dechrau'n Deg
- Rhieni newydd yn 'amllwg wylidwrus'

16.1.2 Dywedodd 12.5% o gynrychiolwyr y darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar, h.y. darparwyr Gofal Dydd Llawn a darparwyr sesiynol, eu bod yn cynnig lleoedd meithrin Cyfnod Sylfaen i blant 3-4 oed, ar gyfartaledd o 11 o leoedd fesul lleoliad perthnasol. O'r lleoliadau hyn, dywedodd pob un o'r 3 fod ganddynt leoedd gwag.

16.1.3 Dywedodd 73% o gynrychiolwyr y darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar, h.y. darparwyr Gofal Dydd Llawn a darparwyr sesiynol eu bod yn cynnig lleoedd y Cynnig Gofal Plant i blant 3-4 oed, ar gyfartaledd o 8 o leoedd fesul lleoliad. O'r lleoliadau hyn, dywedodd 69% fod ganddynt leoedd gwag – a dywedodd 50% eu bod wedi sylwi ar newidiadau o ran nifer y rhieni/gofalwyr oedd yn manteisio ar leoedd y Cynnig Gofal Plant ers dechrau'r pandemig, *gan gynnwys*:

- (Droeon, geiriau megis) *“rydyn ni'n cael nad yw bellach mor ymarferol bosibl cynnig lleoedd o'r fath yn y prynhawn”*
- (Droeon) gallai rhai rhieni elwa o wybodaeth fanylach am y Cynnig Gofal Plant

16.2 Dywedodd 67% o'r darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar, h.y. darparwyr Gofal Dydd Llawn a darparwyr sesiynol, eu bod wedi cofrestru i hwyluso rhieni/gofalwyr i gael mynediad at Ofal Plant Di-dreth. Dywedodd y rhai oedd heb gofrestru droeon (geiriau megis) *dim ond lleoedd wedi'u hariannu gan Dechrau'n Deg rydyn ni'n eu cynnig*.

O ran *hyrwyddo* Gofal Plant Di-dreth, dywedodd 67% o'r darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar (hefyd) eu bod yn gwneud hynny'n weithredol – a dywedodd 33% nad oeddent.

16.3 Roedd Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS Gorffennaf 2021 yn gwahodd darparwyr gofal plant i ymateb i'r cwestiwn canlynol: *Ydy'r Gwasanaeth yn derbyn cyllid i ddarparu Lleoedd Dechrau'n Deg?* (Unwaith eto) dywedodd 67% (yr un ganran) o ddarparwyr gofal plant a ymatebodd fod hynny'n wir.

Ar ben hynny, mewn ymateb i'r arolwg hwnnw, dywedodd 80% o'r darparwyr gofal plant eu bod wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant.

17 Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu

Mae'r adran sy'n dilyn yn cyflwyno adborth a dderbyniwyd trwy ymatebion Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) Gorffennaf 2021 gan ddarparwyr gofal plant a leolir ym Merthyr Tudful a chanlyniadau arolwg hydref 2021 gyda'r un rhanddeiliaid/darparwyr.

Mae'n canolbwyntio ar (a) y gweithlu gofal plant a blynyddoedd cynnar yn ardal leol Merthyr Tudful a; (b) eu hanghenion hyfforddi canfyddedig, gan gynnwys rhai sy'n cyfateb i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoledig (NMS) a'r rhai sy'n canolbwyntio ar themâu sy'n cynnwys cyfleoedd i chwarae a dysgu, meithrin a llesiant, ymddygiad, rheoli a chynnal y gwasanaeth, cyfle cyfartal ac amddiffyn plant.

I ddarparu'r cyd-destun cychwynnol, gellir galw i gof fod Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Merthyr Tudful yn 2017 wedi dod i'r casgliad:

- Bod 67% o'r staff wedi cymhwyso at Lefel 3, gyda 15% wedi cymhwyso ar Lefel 5
- Nad oedd 62% o'r holl staff gofal plant yn gweithio tuag at gymhwyster – roedd hyn yn codi i 65% o'r holl staff mewn lleoliadau Gofal Dydd Llawn
- Nad oedd yr holl staff mewn lleoliadau tu allan i'r ysgol yn gweithio tuag at unrhyw fath o gymhwyster
- Mai gwarchodwyr plant oedd i weld yn fwyaf gweithgar o ran hyfforddiant, gyda 24% yn gweithio tuag at gymhwyster Lefel 5

17.1 Fel rhan o arolwg CBS Merthyr Tudful yn hydref 2021 gyda lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a gofal plant tu allan i'r ysgol, gwahoddwyd cynrychiolwyr lleoliadau i nodi faint o staff oedd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd

- Ar gyfartaledd, nifer y staff **llawn amser** oedd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar oedd 3.5.
- Ar gyfartaledd, nifer y staff llawn amser oedd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant tu allan i'r ysgol oedd <1.

- Ar gyfartaledd, nifer y staff **rhan amser** oedd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar oedd 5.
- Ar gyfartaledd, nifer y staff rhan amser oedd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant tu allan i'r ysgol oedd 4.

Mae Tabl 44 yn nodi nifer yr aelodau o'r gweithlu yn ardal leol Merthyr Tudful oedd yn meddu ar gymwysterau penodol ym mhob un o'r tri phrif sector yn haf 2021

Ffynhonnell: SASS Gorffennaf 2021

| Math o Gymhwyster | Cyfanswm sy'n meddu ar y cymhwyster yn y sector Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar | Cyfanswm sy'n meddu ar y cymhwyster yn y sector Gwarchod Plant | Cyfanswm sy'n meddu ar y cymhwyster yn y sector Gofal Plant tu allan i'r Ysgol |
|--|--|--|--|
| Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar lefel 2 | 6 | 0 | 3 |
| Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar lefel 3 | 106 | 0 | 12 |
| Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar lefel 5 | 48 | 0 | 9 |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) | 3 | 0 | 0 |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | 1 | 0 | 0 |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae; Egwyddorion ar Waith (P3) – mae'n cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 0 | 0 | 0 |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau | 0 | 0 | 0 |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar | 22 | 0 | 11 |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | 6 | 0 | 7 |
| Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae | 0 | 0 | 0 |

17.2 Roedd yr arolwg gyda darparwyr gofal plant mewn lleoliadau yn gofyn am adborth ynghylch sut roedd COVID-19 wedi effeithio ar recriwtio a chadw staff/gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys (yn ôl y disgwyl) yng nghyswllt eu lleoliad eu hunain. Amlinellodd 33% o'r holl ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol eu bod wedi gweld aelod o'u staff yn penderfynu gadael y lleoliad yn ystod y 12 mis diwethaf, **o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19**.

Ar draws yr holl ymatebwyr perthnasol, roedd hyn yn creu cyfanswm o 17 aelod o staff/gweithiwr gofal plant proffesiynol – gyda dau leoliad yn adrodd eu bod wedi *colli 4 aelod o staff i COVID-19*.

Mae'r Awdurdod Lleol yn deall bod recriwtio a chadw yn fater allweddol parhaus – yn fater Cymru gyfan yn ogystal â mater i ardal leol Merthyr Tudful. Ym mis Chwefror 2022, cynullwyd gweithdy gan Lywodraeth Cymru i ymdrin â'r heriau ar draws y sector a'u trafod gyda phartneriaid allweddol. Daeth y gweithdy – y bu aelodau o CBS Merthyr Tudful yn ei fynychu, â phartneriaid ynghyd sy'n cefnogi'r gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant yn wyneb yr heriau hyn, gyda'r nod o helpu i wneud y canlynol:

- Sicrhau gwell dealltwriaeth o'r heriau recriwtio a chadw ledled Cymru
- Gwella dealltwriaeth o'r hyn sydd eisoes ar waith/i ddod i gefnogi'r rhain
- Archwilio sut gallai pawb ohonom fwyafu'r cyfleoedd hyn er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu cefnogi'r gweithlu gyda'r heriau hyn

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol yr adroddwyd am anawsterau recriwtio a chadw staff ar y pryd ac yn y tymor hir, a hynny cyn y pandemig, yn enwedig staff â chymwysterau addas – ac mae'r angen hwn wedi dwysáu ers y pandemig. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod Dechrau'n Deg yn cael ei ehangu, sy'n golygu, ar sail ffigurau 2021, cynnydd o 35% yn y plant 2 oed sy'n cael mynediad i ofal plant. Byddai darparu ar gyfer y cynnydd hwn yn cyfateb i ryw 60 o staff cymwysedig ychwanegol – nad yw'n cymryd i ystyriaeth symudiadau i mewn ac allan o'r gweithlu a chadw staff (gweithlu sy'n heneiddio).

Dylid nodi hefyd, yn hydref 2021, fod CBS Merthyr Tudful wedi gwahodd cynrychiolwyr darparwyr gofal plant mewn lleoliadau, trwy arolwg strwythuredig dros y ffôn, i nodi a oeddent yn fodlon bod gan eu lleoliad y nifer angenrheidiol o staff oedd yn rhugl yn y Gymraeg. Dywedodd 63% o'r darparwyr gofal plant perthnasol eu bod yn fodlon **a dywedodd 37% nad oedden nhw'n fodlon**. O'r darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar (h.y. darparwyr Gofal Dydd Llawn a darparwyr gofal sesiynol) a ddywedodd nad oedden nhw'n hapus, dywedodd 33% eu bod yn cael trafferthion recriwtio staff oedd yn gallu siarad Cymraeg.

17.3 Roedd arolwg hydref 2021 gyda lleoliadau/darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a gofal plant y tu allan i'r ysgol yn gofyn am fanylion ynghylch (unrhyw) anghenion neu fylchau hyfforddi staff. Dywedodd 21% o'r lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a gofal plant y tu allan i'r ysgol a ymatebodd **fod** ganddynt anghenion a/neu fylchau, a'r pump a nodwyd amlaf oedd (yn nhrefn amllder):

1. Hyfforddiant Dull Chwilfrydedd
2. Hyfforddiant iaith Gymraeg
3. Hyfforddiant ELKLAN
4. Hyfforddiant Awtistiaeth
5. Hyfforddiant GDPR

Un gwarchodwr plant cofrestredig (yn unig) oedd yn barnu bod ganddynt angen hyfforddi yn hydref 2021: a ffocws hynny oedd dymuniad i wybod mwy am y Cwricwlwm i Gymru.

17.4 Roedd arolwg hydref 2021 gyda lleoliadau/darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a gofal plant y tu allan i'r ysgol yn ceisio canfod y dulliau oedd yn cael eu defnyddio i hyfforddi staff.

Dywedodd 37% o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a'r lleoliadau/darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol eu bod ar hyn o bryd yn defnyddio dulliau hyfforddi a chysiau wyneb yn wyneb ar y safle. Mewn cyferbyniad, dywedodd 100% o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a'r darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol eu bod yn cael mynediad i ddulliau a chysiau hyfforddi rhithwir.

Dywedodd 37% o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a'r lleoliadau/darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol hefyd eu bod wedi defnyddio darparwr hyfforddiant annibynnol yn ystod y 3 blynedd diwethaf (ers 2018) yn hytrach na CBS Merthyr Tudful. Y tri darparwr hyfforddiant annibynnol y cyfeiriwyd atynt fwy nag unwaith oedd (yn nhrefn amlder):

1. Cymorth Cyntaf trwy Ambiwlans Sant Ioan
2. Cymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd (NDNA)
3. <https://www.thecuriosityapproach.com/>

Ar ben hynny, gofynnwyd i bob un o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a ymatebodd a'r lleoliadau/darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol nodi a yw hyfforddiant wyneb yn wyneb byth yn achosi unrhyw anawsterau/broblemau o ran cyflawni cymarebau eu lleoliad. Atebodd 33% o'r lleoliadau fod y dull hyfforddi hwn yn achosi hynny.

17.5 Hefyd ar thema hyfforddiant, amlygodd yr ymatebion i Ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS Gorffennaf 2021 y canlynol:

- Dywedodd 35% o'r (holl fathau o d)darparwyr gofal plant eu bod wedi cynnig/trefnu llai o hyfforddiant i'w staff o ganlyniad i COVID-19 (o'r ymatebwyr hyn, dywedodd tri fod diffyg staff i gyflenwi hefyd wedi effeithio ar hyn)

- Dywedodd 31% o'r darparwyr gofal plant eu bod wedi cynnig/trefnu *mwy* o hyfforddiant i'w staff o ganlyniad i COVID-19.

Roedd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth hefyd yn gwahodd darparwyr gofal plant i ymateb i'r cwestiwn canlynol: *Ydych chi'n cael mynediad i'r hyfforddiant mae arnoch ei angen ar hyn o bryd?* Dywedodd 100% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd fod hynny'n wir.

Yn olaf, fel rhan o broses y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS, gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant: *Ydych chi wedi gallu cael mynediad i hyfforddiant penodol ar Atal a Rheoli Heintiau (IPC)?* Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n gymharol gyfartal: gyda 52% o'r darparwyr gofal plant yn dweud eu bod, a 48% yn dweud nad oeddent.

- 17.6 Canfu arolwg CBS Merthyr Tudful gyda lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol, yn hydref 2021, faint o brentisiaid gyrfa gofal plant oedd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ar draws ardal Merthyr Tudful. Dywedodd 22% o'r darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a'r darparwyr/lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol eu bod yn cyflogi o leiaf un prentis yn eu lleoliad – a nifer cyfartalog y prentisiaid oedd yn cael eu cyflogi ar draws yr holl ddarpariaethau perthnasol oedd 1.5. Ni ddywedodd neb o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a'r darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a ymatebodd nad oeddent ar hyn o bryd yn cyflogi unrhyw brentisiaid gofal plant, **ond eu bod** yn awyddus i recriwtio i rol(au) o'r fath yn y dyfodol agos a; dywedodd 78% o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a'r darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a ymatebodd **nad oedd ganddynt gynlluniau i recriwtio prentisiaid ar hyn o bryd**, gyda'r rhesymau a nodwyd droeon am y safbwynt yma *yn cynnwys*:

- *“Does gennyn ni ddim ar hyn o bryd”*
- *“Mae ein niferoedd [llenwi] yn rhy isel ar hyn o bryd”*
- *“Rydyn ni'n rhy brysur i recriwtio ar hyn o bryd”.*

- 17.7 Nodwyd bod 100% o'r cynrychiolwyr darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar, yn arolwg hydref 2021 gyda lleoliadau/darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar, wedi dweud eu bod yn ymwybodol bod y Cynnig Gofal Plant yn symud i system wahanol – o ran prosesu ceisiadau gan rieni a thaliadau i ddarparwyr lleoedd y Cynnig Gofal Plant.

18 Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu Drafft

Argymhelliad 1:

Bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gweithio gyda darparwyr gofal plant newydd a phresennol, lle bo hynny'n ymarferol, i fabwysiadu model busnes mwy hyblyg, i ymateb i sut mae teuluoedd yn dymuno cael mynediad i ofal plant.

| GWEITHREDU | SEFYDLIAD ARWEINIOL/ SWYDDOG CYFRIFOL | AMSERLEN BOSIBL | CANLYNIAD | STATWS BLAENORIAETH (UCHEL, CANOLIG, ISEL) | CYNNYDD ERBYN MIS MAWRTH 2023 |
|---|--|--------------------|---|---|--|
| <p>Hyrwyddo manteision busnes datblygu oriau agor mwy hyblyg yn unol â'r galw i ddarparwyr gofal plant.</p> <p>Cynnig Cymorth Busnes/cyngor ac arian grant i helpu i hwyluso ehangu'r ddarpariaeth.</p> | <p>Tîm Blynyddoedd Cynnar CBSMT</p> <p>Mudiad Meithrin</p> <p>Contractiwr Cymorth Busnes Blynyddoedd Cynnar CBSMT</p> <p>Cwlwm</p> | <p>2022-2025</p> | <p>Cynnydd yn nifer y darparwyr sy'n cynnig oriau annodweddiadol.</p> <p>Pob darparwr gofal plant cofrestredig i gael Gwiriad Iechyd Busnes gweithredol a chynllun gweithredu sy'n adlewyrchu eu model busnes yn awr ac yn y dyfodol.</p> <p>Gostyngiad yn nifer y rhieni sy'n cyfeirio at ddiffyg gofal plant yn ystod oriau</p> | <p>UCHEL</p> | <p>I'w gwblhau ym mis Mawrth 2023.</p> |

| | | | | | |
|--|--|--|-----------------------------|--|--|
| | | | annodweddiadol fel rhwystr. | | |
|--|--|--|-----------------------------|--|--|

Argymhelliad 2:

Mewn ymateb i ganran uchel o rieni oedd yn cyfeirio at ofal plant fel rhwystr i gyflogaeth a hyfforddiant, bydd yr awdurdod lleol yn gweithio mewn cydweithrediad i leihau nifer y teuluoedd sy'n cyfeirio at ofal plant fel rhwystr i ymgysylltu mewn cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth.

| GWEITHREDU | SEFYDLIAD ARWEINIOL/ SWYDDOG CYFRIFOL | AMSERLEN BOSIBL | CANLYNIAD | STATWS BLAENORIAETH (UCHEL, CANOLIG, ISEL) | CYNNYDD ERBYN MIS MAWRTH 2023 |
|---|---|----------------------------|---|---|--|
| <p>Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau i ymdrin â materion argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant.</p> <p>Rhannu gwybodaeth yn well rhwng rhaglenni cymorth i deuluoedd a chyflogadwyedd.</p> <p>Sefydlu ymgyrch farchnata barhaus i</p> | <p>Tîm Blynyddoedd Cynnar CBSMT</p> <p>Rhaglenni Cyflogaeth</p> <p>Partneriaid allanol</p> | 2022-2025 | <p>Gostyngiad yn nifer y rhieni sy'n sôn bod gofal plant yn rhwystr i gael mynediad i gyflogaeth a hyfforddiant.</p> <p>Cynnydd yn y teuluoedd â phlant o dan 5 oed sy'n ymgysylltu â rhaglenni cyflogadwyedd.</p> <p>Bydd rhieni sy'n dymuno mynd neu ddychwelyd i'r gweithle yn ymwybodol o sut a ble gallan nhw gael cefnogaeth a chyngor.</p> | UCHEL | I'w gwblhau ym mis Mawrth 2023. |

| | | | | | |
|--|--|--|--|--|--|
| sicrhau bod rhieni'n ymwybodol sut i gael mynediad at gefnogaeth a chynghor hyfforddiant a chyflogaeth, gan gynnwys ehangu'r cynnig Gofal Plant i rieni sydd mewn hyfforddiant neu addysg. | | | | | |
|--|--|--|--|--|--|

Argymhelliad 3:

Bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn monitro'r angen am ddatblygu darpariaeth newydd sy'n cyfateb i fylchau daearyddol ac unrhyw fylchau oed a/neu iaith sy'n dod i'r amlwg – yn arbennig wrth weithredu gofal plant cyffredinol i bob plentyn 2 oed.

| GWEITHREDU | SEFYDLIAD ARWEINIOL/ SWYDDOG CYFRIFOL | AMSERLEN BOSIBL | CANLYNIAD | STATWS BLAENORIAETH (UCHEL, CANOLIG, ISEL) | CYNNYDD ERBYN MIS MAWRTH 2023 |
|--|---|----------------------------|---|--|--|
| Bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu darpariaeth a lleoedd newydd yn ôl yr angen – gan | Tîm Blynyddoedd Cynnar CBSMT Partneriaid ehangach | 2022-2025 | Oed/daearyddiaeth; Yn unol â chanllawiau LIC mae cynllun 3-5 mlynedd i ehangu Dechrau'n Deg ar waith, sy'n cymryd i ystyriaeth y cyflenwad | UCHEL | I'w gwblhau ym mis Mawrth 2023. |

| | | | | | |
|--|--|--|---|--|--|
| <p>gynnwys ymateb i alw sy'n dod i'r amlwg</p> <p>(a) bylchau oedran (b) bylchau daearyddol (c) bylchau math (d) unrhyw fylchau lleol a nodwyd o ran y ddarpariaeth Gymraeg.</p> <p>Bydd cychwyn ac estyn y cynnig cyffredinol i blant 2 oed yn datblygu'n gynyddol er mwyn sicrhau bod pob teulu sy'n dymuno cael mynediad i le yn gallu gwneud hynny.</p> <p>Nodi opsiynau pellach ar gyfer datblygu gofal plant y tu allan i'r ysgol, yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol.</p> | | | <p>presennol, amcangyfrifon poblogaeth a data amddifadedd.</p> <p>Oed a'r Gymraeg – datblygu darpariaeth newydd gofal plant y tu allan i'r ysgol/yn y gwyliau mewn ardaloedd lle mae angen, gan gynnwys darpariaeth gyfrwng Gymraeg;</p> <p>Daearyddiaeth; datblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd lle mae cyflenwad is na'r cyfartaledd a lefel uwch o ddatblygiadau tai.</p> <p>Yr iaith Gymraeg; mae'r galw am ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar gyfrwng Gymraeg yn cynyddu ac mae'r ddarpariaeth bresennol yn cael ei hestyn neu mae darpariaeth newydd yn cael ei datblygu.</p> | | |
|--|--|--|---|--|--|

| | | | | | |
|--|--|--|--|--|--|
| | | | <p>Mae asesiad osgoi risg yn ei le i sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn dadsefydlogi cynaliadwyedd darpariaethau gofal plant sydd eisoes yn bodoli.</p> <p>Cynnydd yn nifer y lleoliadau gofal plant a gyflwynir ar diroedd ysgolion.</p> | | |
|--|--|--|--|--|--|

Argymhelliad 4:

Ochr yn ochr â Rhaglen Drawsffurfio ADY, dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful barhau i gefnogi ei ddarparwyr gofal plant i gynnig darpariaeth gynhwysol i blant ag ADY – gyda ffocws ar blant o dan 2 oed a'r rhai oed ysgol nad ydynt o reidrwydd yn derbyn cyllid i gefnogi plant ADY.

| GWEITHREDU | SEFYDLIAD ARWEINIOL/ SWYDDOG CYFRIFOL | AMSERLEN BOSIBL | CANLYNIAD | STATWS BLAENORIAETH (UCHEL, CANOLIG, ISEL) | CYNNYDD ERBYN MIS MAWRTH 2023 |
|---|--|--------------------|---|---|----------------------------------|
| Sicrhau bod rhaglen o gefnogaeth datblygu a | Tîm Blynnyddoedd Cynnar CBSMT | 2022-2024 | Bydd gofalwyr plant <i>o bob oed</i> sydd ag ADY yn parhau i fod â hyder yn eu gallu i gael mynediad at | UCHEL | I'w gwblhau ym mis Mawrth 2023 |

| | | | | | |
|--|--|--|--|--|--|
| <p>hyfforddiant ADY ar gael i ddarparwyr blynyddoedd cynnar</p> <p>Sicrhau bod ymateb ADY graddedig yn parhau i gael ei wreiddio mewn ymarfer ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd.</p> <p>Mwyafu defnydd o'r cyllid presennol i sicrhau bod plant ADY yn gallu cael mynediad i'r ddarpariaeth ac archwilio cyfleoedd ariannu ar gyfer plant sydd ddim yn bodloni'r meini prawf presennol ar gyfer ariannu.</p> | | | <p>ofal plant addas, o safon, sy'n gallu cefnogi eu plentyn/plant.</p> <p>Bydd darparwyr gofal plant yn cael mynediad i hyfforddiant ADY;</p> <p>Caiff ymateb ADY graddedig ei wreiddio mewn ymarfer;</p> <p>Mwyafir y cyfleoedd ariannu fel bod plant sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth.</p> | | |
|--|--|--|--|--|--|

Argymhelliad 5:

Fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer y cyfnod 2022-2027, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gweithio mewn partneriaeth i ailsefydlu sector gwarchod plant cydnerth yn yr ardal leol.

| GWEITHREDU | SEFYDLIAD ARWEINIOL/ SWYDDOG CYFRIFOL | AMSERLEN BOSIBL | CANLYNIAD | STATWS BLAENORIAETH (UCHEL, CANOLIG, ISEL) | CYNNYDD ERBYN MIS MAWRTH 2023 |
|---|---|--------------------|---|---|----------------------------------|
| Fel blaenoriaeth ac mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol bydd CBSMT yn cynnal ymgyrch recriwtio gwarchodwyr plant, gyda ffocws ar warchodwyr plant sy'n cynnig gofal plant y tu allan i'r oriau traddodiadol. | Y Tîm Blynyddoedd Cynnar Partneriaid Cwlwm | 2022-2024 | Cynnydd yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig erbyn 2024, gyda ffocws ar wardiau blaenoriaeth lle mae cyflenwad isel a disgwyl nifer uwch o ddatblygiadau tai newydd. Cynnydd yn y gwarchodwyr plant (hen a newydd) sy'n cynnig gofal plant y tu allan i'r oriau traddodiadol 8am – 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener | UCHEL (UCHAF) | I'w gwblhau ym mis Mawrth 2023. |

Argymhelliad 6:

Gan gydnabod yr anawsterau recriwtio a chadw mae'r sector yn eu hwynebu, blaenoriaeth allweddol yw'r angen am ffocws ar ddatblygiad cynllun pum mlynedd i'r gweithlu.

| GWEITHREDU | SEFYDLIAD ARWEINIOL/ SWYDDOG CYFRIFOL | AMSERLEN BOSIBL | CANLYNIAD | STATWS BLAENORIAETH (UCHEL, CANOLIG, ISEL) | CYNNYDD ERBYN MIS MAWRTH 2023 |
|--|--|--------------------|---|---|---------------------------------------|
| <p>Bydd CBSMT yn gweithio ar y cyd i ddatblygu cynllun gweithlu</p> <p>Gweithio gyda phartneriaid addysg, hyfforddiant a chyflogaeth allweddol i ddatblygu llwybr hyfforddiant a chyflogaeth clir ar gyfer y rhai sy'n dymuno gweithio yn y sector.</p> <p>Gweithio gyda sefydliadau cyflogaeth a hyfforddiant i gynyddu'r cyfleoedd</p> | <p>Y Tîm Blynyddoedd Cynnar</p> <p>Grŵp gorchwyl a gorffen y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar</p> | <p>2022-2025</p> | <p>Bydd gan yr Awdurdod Lleol lwybr recriwtio cydlynus a chydabyddedig, yn cychwyn gyda disgyblion mewn ysgolion uwchradd.</p> <p>Gostyngiad yn nifer y gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau Lefel 3 a Lefel 5 sy'n gadael y sector.</p> <p>Cynnydd yn nifer y bobl gymwysedig sy'n mynd i'r gweithlu.</p> <p>Gweithlu a hyfforddwyd at lefel uchel sy'n gallu cyflawni cynlluniau i ehangu, gan gynnwys rhai</p> | <p>UCHEL (UCHAF)</p> | <p>I'w gwblhau ym mis Mawrth 2023</p> |

| | | | | | |
|---|--|--|---|--|--|
| <p>prentisiaeth ar draws y sector.</p> <p>CBSMT i sicrhau bod cyfleoedd i gyflawni cymwysterau gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg a gweithio gyda gwasanaethau cyflogaeth i sicrhau bod cyfleoedd i recriwtio gweithlu blynyddoedd cynnar sy'n gallu siarad Cymraeg (gan gynnwys gwarchodwyr plant).</p> <p>I gefnogi cadw staff o fewn y sector, bydd yr awdurdod lleol yn parhau â'i ddull pwysig o fedru cyfeirio unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n cael trafferthion iechyd meddwl a llesiant at wasanaethau cefnogi priodol.</p> | | | <p>cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Trosiant staff isel a lefelau isel o swyddi gwag ar draws y sector.</p> <p>O ystyried y materion cysylltiedig â gofal plant y tu allan i'r ysgol a chymwysterau, mae'n syndod nad yw hyn yn derbyn sylw.</p> | | |
|---|--|--|---|--|--|

Argymhelliad 7:

Er bod y dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r galw cyfredol gan rieni am ddarpariaeth Gymraeg yn fwy na'r cyflenwad sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn parhau i roi blaenoriaeth i'w waith gyda phartneriaid ac yn ymrwymo i sicrhau bod nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg yn cynyddu, gan gynnwys yn ystod y gwyliau a'r tu allan i'r ysgol.

| GWEITHREDU | SEFYDLIAD ARWEINIOL/ SWYDDOG CYFRIFOL | AMSERLEN BOSIBL | CANLYNIAD | STATWS BLAENORIAETH (UCHEL, CANOLIG, ISEL) | CYNNYDD ERBYN MIS MAWRTH 2023 |
|--|--|--------------------|---|---|--|
| <p>Bydd yr awdurdod lleol yn parhau â'i waith blaenoriaeth gyda WESP a phartneriaid eraill allweddol i hybu manteision yr iaith Gymraeg i gynyddu'r galw a sicrhau bod unrhyw deulu sy'n dymuno cael mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg yn gallu gwneud hynny.</p> <p>Bydd pob datblygiad newydd yn ymgorffori 'gwiriad' strategol i sicrhau bod lleoedd Cymraeg wedi cael eu</p> | <p>Y Tîm Blynyddoedd Cynnar</p> | <p>2022-2025</p> | <p>Bydd nifer y lleoedd hygyrch cyfrwng Cymraeg yn cynyddu yn ardal Merthyr Tudful erbyn 2025.</p> <p>Bydd y WESP yn parhau i gael ei integreiddio'n <i>llawn</i> i'r datblygiadau strategol cysylltiedig â digonolrwydd gofal plant.</p> <p>Bydd teuluoedd Cymraeg eu hiaith a/neu deuluoedd sy'n dymuno datblygu eu</p> | <p>UCHEL</p> | <p>I'w gwblhau ym mis Mawrth 2023.</p> |

| | | | | | |
|---|--|--|--|--|--|
| hystyried yn rhagweithiol ac y cynlluniwyd ar eu cyfer. | | | sgiliau Cymraeg yn cael eu galluogi ymhellach i gael mynediad i ofal plant o'u dewis. | | |
|---|--|--|--|--|--|

Argymhelliad 8:

Mewn ymateb i'r dystiolaeth sy'n awgrymu diffyg ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a rhieni am y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful roi blaenoriaeth i ymgyrch farchnata i godi proffil y Gwasanaeth.

| GWEITHREDU | SEFYDLIAD ARWEINIOL/ SWYDDOG CYFRIFOL | AMSERLEN BOSIBL | CANLYNIAD | STATWS BLAENORIAETH (UCHEL, CANOLIG, ISEL) | CYNNYDD ERBYN MIS MAWRTH 2023 |
|--|--|----------------------------|---|--|--|
| <p>Bydd GGD CBSMT yn rhoi blaenoriaeth i'w strategaethau estyn allan a hyrwyddo gyda'r rhanddeiliaid canlynol: (a) ysgolion; (b) cyflogwyr; (c) cydweithwyr sector iechyd; (d) rhieni</p> <p>Ailddylunio gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i sicrhau ei bod yn hygyrch</p> <p>Cynnal archwiliad o</p> | <p>Swyddog y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Tîm y Blynyddoedd Cynnar</p> | <p>2022-2025</p> | <p>Bydd nifer yr ymholiadau GGD, gan gynnwys traffig ar y wefan, wedi cynyddu, fel y bydd metreg 'ble clywsoch chi am y GGD' yng nghyswllt ffynonellau: (a) fy ysgol leol a; (b) fy nghyflogwr lleol.</p> <p>Bydd rhieni a gweithwyr proffesiynol yn parhau i gael mynediad at wybodaeth o safon uchel am y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan gynnwys cymorth ariannol tuag at gostau gofal plant.</p> | <p>CANOLIG</p> | <p>I'w gwblhau ym mis Mawrth 2023</p> |

| | | | | | |
|---|--|--|--|--|--|
| <p>Dewis a'r GGD i sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir ac yn unol â'r gofynion statudol.</p> <p>Y GGD i roi blaenoriaeth i hyrwyddo cymorth ariannol tuag at gostau gofal plant, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i estyn y cynnig gofal plant a rhaglen Dechrau'n Deg</p> | | | <p>Bydd yn hawdd i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol gael mynediad i wefan y GGD, a bydd ystod eang o'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau ar gael yno.</p> <p>Mae teuluoedd yn ymwybodol o'r cymorth ariannol tuag at ofal plant ac yn hyderus ynghylch sut mae cael mynediad i'r cymorth hwnnw.</p> <p>Bydd y rhai sy'n manteisio ar Ofal Plant Di-dreth yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.</p> <p>Bydd rhieni plant 3 oed cymwys sydd mewn addysg a hyfforddiant yn gallu cael mynediad i leoedd gofal plant a ariannwyd.</p> | | |
|---|--|--|--|--|--|